

ECO'R WYDDFA

Rhif 115

MEHEFIN 1986

Pris: 20c

SEGURDOD



On'd yw o'n lun trist? Llonyddwch lle bu 34 o bobl yn ennill bywoliaeth. Dyna fydd hanes ffatri'r Glyn ar gyrion Llanberis ddiwedd mis Gorffennaf.

Ergyd drom i'r fro'n gyffredinol ac i Lanberis yn arbennig fydd i gwmni Glyn, sy'n gwneud dilladau diogelwch, roi'r gorau iddi ar ôl 30 mlynedd o gynhyrchu. Bydd yn ergyd drymach fyth i'r gweithwyr, merched gan fwyaf, a'u teuluoedd. Dyma'r criw y bu'r cwmni mor uchel ei ganmoliaeth iddynt yn dilyn eu llafur caled adeg rhyfel y Malinas i gyflenwi'r archebion brys.

Ond heddiw, diffyg archebion, medd y cwmni, sy'n gyfrifol am y penderfyniad i gau er bod ganddynt ar hyn o bryd contract gyda'r Rheilffyrdd Prydeinig fydd yn parhau tan Ebrill 1988.

Yn ôl Mr Tom Jones o Undeb y Gweithwyr Trafnidiol a Chyffredinol maent yn benderfynol o adael Llanberis ond yn sicr o ddod i delerau ynglŷn â'r contract yma sydd werth £200,000. Golyga hyn waith i 12 o weithwyr. Pwy bynnag gwmni fydd yn cwblhau'r archeb bydd yr undeb yn mynnu bod y 12 ychwanegol yn dod o blith gweithwyr presennol y Glyn.

Mae cyfarfod pwysig iawn ar Fehefin 9 rhwng cynrychiolwyr yr Undeb, y Cwmni, Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngres Undebau Llafur Cymru, a

Chyngor Arfon i benderfynu ar y camau nesaf i'w cymryd.

NEWIDIADAU

Croeso'n ôl i dîm golygyddol yr Eco i Dafydd Evans - golygydd chwaraeon newydd. Chwi gynrychiolwyr y timau a'r clybiau ac unigolion cofiwch gysylltu ag o yn fisol i roi'r cyhoeddusrwydd dyledus i'ch campau. Mae'n dibynnu arnoch. Gweler ei gyfeiriad a'r rhif ffôn ar dudalen 2.

Ffarweliwn â Twrog Jones, Golygydd Newyddion Cyffredinol yr Eco yn y rhifyn hwn. Cysylltwch o hyn allan â Dafydd Whiteside Thomas, os gwelwch yn dda.

ENILLWYR Y NANT




Trowch i dud. 7 am y stori.

EI NODDI GAN I.B.M.



Bydd Dewi Lewis, Llys Myfyr, Deiniolen yn cael ei noddi gan y cwmni cyfrifiaduron byd-enwog IBM pan aiff i Brifysgol yr hydref nesaf. Dewi, sydd ar hyn o bryd ar drothwy ei arholiadau Safon Uwch yn Ysgol Uwchradd Brynrefail, yw'r unig un drwy wledydd Prydain sy'n cael ei noddi ym maes cemeg a chyfrifiadureg. Bydd yn dilyn ei gwrs gradd ym Mhrifysgol Surrey.

GWOBR CYNTAF YN NYFFRYN OGWEN



Llongyfarchiadau i Siôn Dafydd Williams, Cartref, Llanrug ar ennill y wobwr gyntaf yn yr adran arlunio i ddosbarthiadau 3 a 4 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Dyffryn Ogwen. 'Trafnidiaeth' oedd ei destun a thynnodd lun mewn dyfrliwiau. Mae Siôn yn 14 oed ac yn aelod o Adran Cwm-y-glo.

BYWIOGRWYDD



Dyma waith i'r chwydd-wydr 'na! A pheth braf yw gweld cymaint o wynebau ifanc hapus. Rhai o blant

Ysgol Brynrefail ydynt a fu'n rhedeg am hwyl, ddydd Mawrth, Mai 20 er mwyn codi arian i chwyddo cronfa

'Sports Aid'. Mae'n amlwg i'r haul wenu ar eu hymdrechion. Mwy o hanes ar y tudalennau canol.

ECO'R WYDDFA

**RHIF 115
MEHEFIN 1986**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru*

**SWYDDOGION A GOHEBWYR
GOLYGYDD NEWYDDION
CYFFREDINOL AC ERTHYGLAU:**
Dafydd Whiteside Thomas,
Bron-y-Nant, Pontrhyallt, Llanrug.
(C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION:
Amranwen Lynch, Gwyddfor,
Penisarwaun (Llanberis 870575).

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, 9 Sycharth, Penisarwaun.
(Llanberis 872407)

**TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs. Jane
Roberts, 'Rallt Isaf, 3 Peny Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis.
(871561)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones,
60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug. (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHANT POST:
Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed. 870580.

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLEN: W.O. Williams 6 Rhyd
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D.J. Thomas, 8 Maes
Eilian.

LLANBERIS:

LLANRUG: Mrs Gillian Morris,
Anedd Wen, Tal-y-bont.
(Caernarfon 76075)

NANT PERIS: Mrs Mary Ff. Roberts,
Cerrig-y-drudion, Nant Peris.

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, 9
Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Edward Elias, 21
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

Y RHIFYN NESAF
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
GORFFENNAF 3ydd

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
MEHEFIN 24ain
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

RALI DROS GORFF DATBLYGU ADDYSG GYMRAEG

Annwyl Gyfaill,

Ddydd Gwener, Gorffennaf 4 mae
Cyd-bwyllgor Addysg Cymru yn cynnal
eu Cyfarfod Blyneddol yng
Nghaernarfon, Siambr Cyngor Sir
Gwynedd am 10 am. Siaradwr Gwadd y
cyfarfod fydd Is-ysgrifennydd Cymru,
Mr Wyn Roberts. Bwriada Cymdeithas
yr Iaith gynnal Rali tu allan i'r Cyngor
Sir tra bydd y Cyfarfod yn mynd yn ei
flaen. Pwrpas y llythyr hwn ydyw erfyn
yn daer arnoch i ddod i'r Rali
dyngedfennol yma, gan ei fod yn gyfle
unigryw i bobl Cymru ddangos yn eglur
i'r Swyddfa Gymreig a'r Cyd-bwyllgor
Addysg bod yn rhaid sefydlu Corff
Datblygu Addysg Gymraeg a hynny ar
unwaith.

Fel y gwyddoch, mae'n siŵr, mae
Cymdeithas yr Iaith wedi bod yn
ymgyrchu'n ddygn ers pedair blynedd
dros Gorff Datblygu Addysg Gymraeg.
Mae nifer fawr o fudiadau a sefydliadau
megis UCAC, Mudiad Ysgolion
Meithrin, Yr Urdd, Rhieni dros Addysg
Gymraeg wedi uno yn yr alwad gan y
cytunant mai sefydlu'r Corff ydyw'r unig
ffordd effeithiol ymlaen i ddatblygu
Addysg trwy gyfrwng y Gymraeg o'r
Sector Meithrin i'r Sector Addysg
Uwch. Erys dau rwystr i'r ymgyrch, sef
gwrthwynebiad y Swyddfa Gymreig ac
agwedd anffodus Cyd-bwyllgor Addysg
Cymru. Un o'r prif resymau y mae'r
Swyddfa Gymreig yn ei ddefnyddio pam
na fyddant sefydlu'r Corff ydyw bod y
Cyd-bwyllgor yn honni y gallant hwy
wneud y gwaith. Yn wyneb y ffeithiau
canlynol hyderwn y cytunwch gyda
Chymdeithas yr Iaith bod y
Cyd-bwyllgor yn gwbl anaddas at
gyflawni swyddogaeth Corff Datblygu
Addysg Gymraeg a bod rhaid sefydlu
Corff newydd, cwbl annibynnol i
ganolbwyntio ar hyrwyddo dyfodol
Addysg Gymraeg. Ystyriwch y canlynol:

1. Mae Addysg trwy gyfrwng y
Gymraeg ond yn un o gyfrifoldebau'r
Cyd-bwyllgor. Cyfyngedig iawn yw'r
amser y gall y Cyd-bwyllgor dreulio ar
ddatblygu strategaeth ar gyfer ehangu
Addysg Gymraeg.

2. Nid oes gan y Cyd-bwyllgor ddim
rheolaeth o gwbl dros y Sector Meithrin
na'r Sector Addysg Uwch.

3. Cyllideb presennol y Cyd-bwyllgor
yw 3 miliwn. Profwyd bod angen o leiaf
Gyllideb o 30 miliwn ar Gorff i
ddatblygu Addysg Gymraeg. Petai'r
Swyddfa Gymreig yn dilyn awgrym y
Cyd-bwyllgor a rhoi swyddogaeth y
Corff i un o is-bwyllgorau'r
Cyd-bwyllgor byddai hynny'n creu
sefyllfa amhosib; y Cyd-bwyllgor efo
Cyllideb ddeg gwaith yn llai nag un o'i
is-bwyllgorau.

Mae'r Gymdeithas dros y misoedd
diwethaf wedi bod yn ceisio perswadio'r
Cyd-bwyllgor i gydnabod realiti'r
sefyllfa a chydabod na allant fyth
obeithio cyflawni gwaith Corff Datblygu
Addysg Gymraeg. Buwyd yn llythyr,
yn cynnal trafodaethau, yn picedu, yn
canfasio aelodau ac yn gweithredu'n
uniongyrchol. Ond hyd yn hyn bu'r cwbl
yn ofer. Gofynnwn ichwi uno gyda ni ar
Orffennaf 4 i roi'r neges yn glir i Wyn
Roberts bod pobl Cymru yn mynnu
sicrhau dyfodol i'r iaith ymysg y
genhedlaeth nesaf trwy ddatblygu
Addysg Gymraeg. Byddwn yn
ymgynnull am 10.00 a.m. tu allan i
Siambr y Cyngor. Anerchir y Rali gan
Dr Tudur Jones, Steffan Webb a Ffred
Ffransis. Mawr obeithiwn y gallwn
ddibynnu ar eich cefnogaeth.

Yn gywir,

Angharad Tomos
(Arweinydd y Grŵp Addysg)
Bron Wylfa
Llanwnda.

GALW AM DDEDDF NEWYDD

Annwyl Gyfeillion,

Yn ddiweddar fe lansiodd
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
ddeiseb genedlaethol yn galw am
DDEDDF IAITH NEWYDD.
Dyma eiriad y ddeiseb:

"Galwn am Ddeddf Iaith
Newydd i sicrhau fod hawl gan bobl
Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg a
derbyn gwybodaeth yn Gymraeg
ymhob rhan o fywyd cyhoeddus
Cymru."

Mae hon yn ymgyrch dra phwysig
ac mae'n rhaid sicrhau o leiaf
100,000 o enwau arni. Ni ellir
gwneud hyn heb gydweithrediad
pob Cymro a Chymraes a phob
mudiad, cymdeithas neu undeb y
mae dyfodol y Gymraeg yn fater o
bryder iddynt.

Gofynnwn yn garedig felly am
eich cymorth i ddosbarthu'r ddeiseb
yma ac i ystyried mynd o ddrws i
ddrws i gasglu enwau. Ymgyrch 6
mis fydd hon a gobeithiwn gael y
deisebau yn ôl erbyn diwedd mis
Hydref i'w cyflwyno i'r Swyddfa
Gymreig. Am ragor o wybodaeth a
chopiâu o'r ddeiseb cysylltwch â
Swyddfa Cymdeithas yr Iaith
Gymraeg, 5 Maes Albert,
Aberystwyth, Dyfed. (0970) 4501.

Mae ymgyrch fel hon yn debyg o
odro adnoddau'r Gymdeithas i'r
eithaf. Gwerthfawrogir unrhyw
gyfraniad ariannol waeth pa mor
fychan.

Gan ddiolch ymlaen llaw am eich
cydweithrediad a'ch cymorth.

Yr eiddoch yn gywir
Dafydd Morgan Lewis
Arweinydd Grŵp Statws
Cymdeithas yr Iaith

O.N. Mae Cymdeithas yr Iaith yn
bwriadu trefnu cyfres o gyfarfodydd
cyhoeddus ar hyd ac ar led Cymru
yn ystod y 6 mis nesaf i sicrhau sylw
i'r ymgyrch hon. Gwylwch eich
Papur Bro am ragor o fanylion.

PWYLLGOR COFFA SAUNDERS LEWIS

Mewn canlyniad i'w cyfarfod
diweddar, penderfynodd
'Pwyllgor Coffa Saunders Lewis'
lansio apêl am gefnogaeth
ariannol a fydd yn eu galluogi i
symud ymlaen gyda'r bwriad o
osod cofeb deilwng ar dir
Penyberth. Bydd y gofeb hon yn
dynodi: "I'r oesoedd a ddêl y
glendid a fu," sef safle
hanesyddol lle bu i Saunders
Lewis, D.J. Williams a Lewis
Valentine rddi'r ysgol fomio ar
dân. Ar dir fferm Penyberth ym
Mhenrhyn Llŷn y safai'r
adeiladau a losgwyd gan y
Cenedlaetholwyr ar Fedi'r 8fed
1936. Mewn gweithred o
fandaliaeth sinistr yn gynharach,
'roedd yr awdurdodau wedi
chwalu'r ffermdy hanesyddol i'r
llawr, tŷ a safodd am ganrifoedd
maith, cyn y weithred ysgeler
hon. Y gobaith ydyw gosod y
gofeb mewn lle cyn nepell o olion
yr hen ffermdy, trwy ganiatâd
caredig y perchennog, Mr Owen

Owen. Fe ddadorchuddir y gofeb
ar ddydd Sadwrn, Medi 6ed
eleni, diwrnod y Rali Fawr
wlatgarol i goffâu
hanner-canmlwyddiant yr
achlysur.

Croesawodd aelodau'r
Pwyllgor lythyr oddi wrth Mrs
Mair Jones (merch y diweddar
Saunders Lewis) yn derbyn
gwahoddiad i fod yn Llywydd
Anrhydeddus y Pwyllgor Coffa.

Yn naturiol, bydd y gost o
bwrcasu a gosod y gofeb yn bur
uchel — mae'r costau hyn yn
ychwanegol at y baich o drefnu
Rali ar raddfa mor uchelgeisiol.
Daw hyn â ni at yr apêl, erfyniwn
ar bawb drwy Gymru benbaladr
— a thu hwnt, i roddi yn
haelionus er sicrhau cofeb a fydd
yn deilwng o aberth y Tri. Yr
aberth fawr hon, yn anad dim
byd arall, a sicrhaudd adfywiad o
genedlaetholdeb ac a
ysbrydolodd eraill i weithredu er
ceisio sicrhau parhad y genedl.
Yn anffodus, y dyddiau hyn
edwinodd llawer o'r ysbryd a'r
brwdfrydedd, gadwch i ni ar yr
unfed awr ar ddeg ail-gynau'r
fflam a gynhaewyd yn Llŷn.

Hae llwyddiant yr apêl hon yn
dibynnu ar eich haelioni chi fel
unigolion. Fe roddodd y 'Tri' yn
hael, dyma gyfle i chwi dalu
ychydig yn ôl.

Anfonwch bob cyfraniad ataf
yn y cyfeiriad isod, dylid gwneud
sieciau ac yn y blaen yn daladwy
i: 'Pwyllgor Coffa Saunders
Lewis — Apêl y Gofeb'.

R. Glyn Jones, (Trysorydd),
Cartrefle, Pontllyfni, ger
Caernarfon, Gwynedd.

FAINT O'R GLOCH YW HI YN EICH PENTREF C.HI?

'Roeddwn yn falch fod
sylwedydd wedi sgrifennu ei
erthygl ac yn cydweld â rhai
sylwadau — rhai yn ddifrifol
iawn.

Ar y llaw arall roedd yn pery
gryn dipyn o boen imi nodi ei fod
yn trafod y **dafarn** fel man
cyfarfod. Nid wyf yn credu fod
fawr ddim o werth wedi deillio o'r
dafarn yn hanes Cymru. Y gwir
ydi mai o'r capeli a'u hamrywiol
weithgareddau y deilliodd ein
'pethe' gorau. Yn sicr y capeli a
gadwodd y Gymraeg hyd heddiw
a tristwch ein cyfnod ni ydyw
gweld cymaint o bobol ifanc yn
ymwrthod â'r capel a mynychu'r
dafarn — arferiad sy'n fwy
cydnaws â Saeson — efelychiad
o'r Sais yn ei bethau salaf. Pa
ddiben sôn am ddylifiad Saeson,
colli iaith ac yn y blaen, os ydym
am gadw draw o'r union le y
cadwyd yr iaith Gymraeg a'n
gwareiddiad inni.

Fel un a fagwyd yn Llundain
ynghanol yr holl Seisnigrwydd a
gwawd ar bob cenedl nad
oeddent Saeson, mae'n rhaid imi
ddatgan fy nioch i'm rhieni am
fynd efo mi i'r capel deirgwaith ar
y Sul, y Seiat a'r Gymdeithas
Lenyddol a phob cyfarfod
Cymraeg arall o fewn cyrfaedd
ym mhrif ddinas y Sais. Y capel a
gadwodd yr iaith mewn trefi
eraill yn LLoegr lle bûm yn byw,
Bootle efo 9 o gapeli Cymraeg ac
un yn Southport.

Mae'n wir fod mewnllifiad yn
fygythiad i Gymreictod ond mae

ymwrthod ar fangre a gadwodd yr iaith a'r gwerthoedd Cristnogol inni hyd heddiw yn ychwanegu at y broblem ac yn bwrw baich difrifol ar ein hysgolion.

Rwyf am fentro, yn fy henaint, alw ar y to ifanc i ddod yn ôl i'r gorlan boed gapel neu eglwys. Yno ceir nerth i sylweddoli beth oedd gan y Parchedig Lewis Valentine pan weddiodd:

Dros Gymru'n gwlad, O! Dad dyrchafwn gri,

Y winllan wen a roed i'n gofal ni, D'amddiffyn cryf a'i cadw'n ffyddlon byth,

A boed i'r gwir a'r glân gael ynddi nyth; Er mwyn dy Fab a'i prynodd iddo'i hun, O! crea hi yn Gymru ar dy lun.

O! deued dydd pan fo awelon Duw Yn chwythu eto dros ein herwau gwyw, A'r crindir cras dan ras cawodydd nef Yn erddi Crist, yn ffrwythlon iddo ef, A'n heniath fwy'n â gorfoleddus hoes, Yn seinio fy haeddiannau'r addfwyn Oen.

Yn gywir,
W.A. Jones,
Y Dalar Deg, Llanrug.

YR UNDEB CELTAIDD

AMCANION

Hybu cydweithrediad rhwng y gwledydd Celtaidd a chymryd rhan yn y frwydr i sicrhau iddynt ryddid gwleidyddol, diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd ac i hyrwyddo eu hieithoedd brodorol.

TREFNIANT

Sefydlwyd yr Undeb Celtaidd ym 1961. Mae canghennau cenedlaethol ymhob un o'r chwe gwlad Geltaidd a changhennau cydgenedlaethol yn yr Unol Daleithiau, yn Llundain ac mewn gwledydd eraill. Cynhelir cyfarfod cyffredinol neu gynhadledd ryngwladol bob blwyddyn mewn un o'r gwledydd Celtaidd.

CARN

CARN yw cylchgrawn chwarterol yr Undeb Celtaidd. Ynddo ceir newyddion am y gwledydd Celtaidd ac erthyglau yn y chwe iaith Geltaidd ac yn Saesneg.

I ymuno â Changen Cymru'r Undeb Celtaidd a derbyn copiâu o CARN am flwyddyn, anfonwch £5 gyda'r ffurflen isod at ysgrifennydd Cangen Cymru: Merfyn Phillips, Parc y Ffrier, Llandudoch, Dyfed.

Dymunaf ymaelodi â Changen Cymru'r Undeb Celtaidd ac amgaeaf £5.

Enw

Cyfeiriad

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

APÊL NANT GWRTHEYRN

Annwyl Ddarllenwyr,

Gwyddom fod yng Nghymru fôr o gydymdeimlad â breuddwyd fawr y Ganolfan Iaith yn Nant Gwrtheyrn. Dyma ymgyrch sy'n pontio pawb ohonom o bob plaid, enwad ac iaith. Y mae'r Ganolfan yn llwyddiant pendant.

Ond y mae gwaith i'w wneud eto gan fod angen addasu ac adnewyddu mwy o dai ac y mae angen dirfawr am le i'r anabl. Nod cyntaf Cefnogwyr y Nant yw codi £10,000 ar gyfer paratoi tŷ arbennig i'r anabl.

Y syniad cyntaf yw cynnig aelodaeth 5 mlynedd o Gefnogwyr y Nant am £5 neu fwy. Gobeithir cynnal cyfarfodydd cyhoeddus i godi pwyllgor cenedlaethol. Y syniad wedyn fuasai codi canghennau lleol - efallai yn seiliedig ar ardaloedd y papurau bro. Hyderwn y cawn ymateb cadarnhaol gan ddarllenwyr yr Eco Bwriadwn anfon rhestr o dro i dro i'w chyhoeddi yn yr Eco yn dangos yr ymateb.

Sut y medrwyd gynorthwyo? Anfon tâl aelodaeth o £5 y pen (neu fwy wrth gwrs!), anfon am ffurflen gyfamodi, trefnu rhyw weithgaredd yn eich ardal er budd yr achos.

Er mwyn dyfodol y Gymraeg
Nia Royles (Cadeirydd)
Moi Parri (Ysgrifennydd)
Glenys Davies (Ysg. Aelodaeth)
R Alun Evans (Trysorydd)
Annedd Wen, 5 Bryn Aur
Gorsedd, Treffynnon

NANT GWRTHEYRN

Ein geiriau sy'n blaguro - yn yr hollt

Wedi'r hir edwino,

Yno'n y gwyll, a hen go'

Y genedl yn egino.

R J ROWLANDS

Cefnogir yr Apêl deilwng hon gan rai o'n Cyd-Gymry amlwg - Dafydd Wigley, A.S.; Bedwyr Lewis Jones; Eifion Lloyd Jones; Leah Owen; Cennard Davies; Carl Clowes; John Albert Evans; Geraint Morgan; Wyn James; Phyllis Kinney; Meredydd Evans; Dafydd Orwig; R. Alun Evans; Gwilym Humphreys; Dafydd Islwyn; Gwyn Erfyl; Dai Davies; John Mahoney; Wil Sam Jones; Y Prifardd Tilsli; Emyr Daniel; Emyr Price; Eira Lewis Roberts; Hywel Gwynfryn; Y Prifardd Dic Jones; Alan Bieth A.S.; D.J. Bowen; Alex Carlisle A.S.; Gwynfor Evans; Marian Eames; Ned Thomas; Meic Stephens; Gwilym Tudur; R.J. Rowlands; Harri Parri; Irma Chilton; Arfon Haines Davies; Nesta Wyn Jones; R.S. Thomas; T. Glynne Davies; Eric Sutherland; Y Prifardd Donald Evans; Robin Gwyndaf; Gwenlyn Parry; Glynne Jones; Eiry Palfrey; I. Prys Edwards; John Rowlands; Alun Williams; John Brace; Derec Llwyd Morgan; Jane Edwards; Rachel Thomas; Yr Arglwydd Emlyn Hooson; Gronw ab Islwyn; John Stoddart; Judith Maro; Y Prifardd Robat Powel; Y Prifardd John Roderick Rees; Ifor Owen; Dr. R. Tudur Jones; D. Ben Rees; Sulwyn Thomas; Geraint Jenkins; Emyr Humphreys; Mici Plwm; Syr Wynff; T. Arfon Williams; J.O. Roberts; Meredith Edwards; R.M. Jones. Beth amdanoch chi?

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

GOFIDIO AM Y GEIFR GWYLLT



BU CRYN sôn yn ddiweddar am eifr gwyllt ardal yr Eco yn wynebu caledi dirfawr yn sgîl y gaeaf llwm a'r gwanwyn hwyr. Cafwyd ambell afr yn gorwedd yn farw ar gyrion pentref Llanberis ac eraill, a golwg llwglyd arnynt, yn ceisio am borfeydd brasach y tir isel.

Peth cwbl naturiol yw tybio, fel y gwnaeth rhai yn ddiweddar, y dylid porthi'r anifeiliaid hyn yn enw Tosturi, a'u cynnal nes daw eto haul ar fryn. Ond tybed a oes wir angen gwneud hynny, o gofio mai anifeiliaid gwyllt ydynt? Onid rhyw fath o ymffrost gyflawn yw credu mai ni, a ni yn unig, all eu gwaredu rhag drwg? Wedi'r cyfan, maent wedi byw ar fynyddoedd Eryri ym mhob tywydd am flynyddoedd os nad canrifoedd, a dyma ni, ar ôl cael un cip bach ar y dioddefaint sydd yn rhan anhepgorol o'u bywyd, yn darogan gwae oni chynigiwn rhyw damaid o rywbeth iddynt dros glawdd yr ardd gefn. Nid trwy ei drub fel anifail anwes mae estyn parch at greadur gwyllt dybiwn i.

Bûm yn hel gwybodaeth am eifr gwyllt ers rhai blynyddoedd bellach er mwyn ceisio deall mwy am eu ffordd o fyw - ac am eu ffordd o farw hefyd o ran hynny, (ffin rhyfeddol o denau sydd rhwng y ddau a dweud y gwir). Byd anial a chreulon tu hwnt a ddaw i ran y myn bach pan gaiff ei eni, yn ôl yr arfer, yng ngafael rhewynt mis Chwefror. Afraid dweud mai tynged cyfran helaeth o bob cnwd newydd o fynnod yw marw o fewn dyddiau, os nad oriau o gael eu geni, a hynny pob blwyddyn, nid y gaeafau caletaf yn unig. Caiff bron pob un gafr mewn oed ei ffrwythlonni yn nhymor yr ymlid ond lleiafrif yn unig sydd â chyw yn eu dilyn yn ystod misoedd y gwanwyn. Yn ddios mae marianau Bwlch Llanberis yn lloches i ai ond yn fynwent i'r rhelyw.

Ar ôl cofnodi manylion am bob corff gafr a ganfuwyd dros gyfnod o flynyddoedd, ymddengys, yn union yn ôl y disgwyl, mai mynnod newydd anedig ym mis Chwefror oedd y rhan fwyaf ohonynt. Gweddillion anifeiliaid dros eu chweched blwydd oedd y lleill, ac fe gafwyd hwythau yn ystod y gwanwyn cynnar pan fu brasder eu corff ar ddarfod a chyn i'r borfa lasu. Maent yn fwy tebygol hyd yn oed o ddioddef trychineb, megis damwain ffordd neu gwymp ar glogwyn yn y tymor hwn hefyd, ffaith sydd yn awgrymu bod peryglon o bob math yn waeth i'r afr os nad yw hi'n cadw ei chyflwr.

Casgliadau yw'r rhain sydd wedi eu seilio ar wybodaeth am oddeutu deugain o gyrff, rhai a welais tra'n dilyn yr anifeiliaid byw, eraill a gefais wybod amdanynt gan grwydwyr eraill. Fel pob anifail, gwell gan yr afr farw yn dawel o olwg y byd a dyna paham na lwyddwyd i gofnodi manylion am ragor ogyrff na hyn. Hoffwn yn fawr



gael gwybod am unrhyw gorff gafr a ddigwydd i'r darlennydd daro arno, dim ond iddo fy ngalw ar Waunfawr 547. Buaswn yn ddiolchgar dros ben.

Yn y cyfamser porthwch y geifr ar bob cyfri os dyna eich dymuniad ond gochelwch rhag iddynt ddod i ddibynnu ar eich haelioni. Mae bwch godidog ar y llethrau uwchlaw Nant Peris yn un peth, ac mae criw yn yr ardd lysiau yn lloewio'r cyrinj-duon yn rhywbeth arall! Nid ar chwarae bach mae tincera â threfn Natur cofiwch ...

Duncan Brown, Gwelfor, Ffordd
Ceunant, Waunfawr

EMYR JONES

PLYMAR
PEIRIANNYDD
GWRESOGI

GWAITH
INSIWLEIDDIO

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon.
3513

WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL

GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF

ATGYWEIRIO TAI
GWAIR

E. PUGH

WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 5394

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W.O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

CLWB ELIDIR: Cynhaliwyd yr uchod Mai 6 yn y Clinic. Rhoddwyd y te gan y llywydd. Enillwyd y raffl gan Mrs Mary Hughes. Estynnwyd croeso yn 7ol i Mrs Betty W. Davies ar ôl bod yn wael. Cydymdeimlwyd â Mr Caradog Jones, Cynfi Terrace ar golli ei fam y ddiweddar Mrs Dilys Jones oedd yn aelod selog o'r clwb hyd ei gwaeledd. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am y rhoddion at y raffl a'r arian a dderbyniwyd ar gyfer y Bore Coffi a gynhaliwyd yn y Winllan bore Ebrill 29. Diolch i'r rhai a fu'n helpu gyda'r gwaith. Diolch hefyd i'r Parch Trefor Lewis a'i briod, am fenthyg y Winllan i gynnal y bore coffi. Gwnaed elw sylweddol.

CLWB ELIDIR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod ddydd Mawrth, Ebrill 22. Y llywydd oedd Mrs C. Marren. Treuliwyd y prynhawn gyda Miss Moller yn dangos ffilm o Rwsia. Rhoddwyd y te gan Mrs Annie Morris, Mrs Idwen Thomas, Mrs Betty Hughes a Miss Kathleen Jones. Enillwyd y raffl rhoddedig gan Mrs Idwen Thomas gan Mrs Sally Lewis. Hefyd croesawyd Mrs Jinnie Williams, 1 Rhydfadog yn aelod o'r clwb. Cyfarfodydd mis Mehefin - dydd Mawrth 3ydd a'r 17ed.

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs Alun Phillips, 3 Bwthyn ddiolch i'r teulu, ffrindiau a phawb arall am y cardiau ac anrhegion a dderbyniont ar eu Priodas Ruddem ar Ebrill 18. Diolch o galon.

Dymuna Mr a Mrs Caradog Jones, Bethan a Geraint ddiolch o galon i'r teulu a chymdogion a chyfeillion am y caredigrwydd a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli mam a nain, Dilys Jones, ac am yr holl gardiau a'r galwadau.

Diolch i'r Parch Trefor Lewis am ei wasanaeth. Hefyd i'r meddygon a staff Ward Glyder Ysbyty Gwynedd, ac i'r meddyg teulu.

Mae'r swm a dderbyniwyd yn cael ei anfon tuag at Gronfa'r Sganer, Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr.

Dymuna Mrs Beti Wyn Davies, 82 Pentre Helen ddiolch i'w chymdogion a'i ffrindiau am bob cymwynas a dderbyniodd yn ystod y misoedd diwethaf tra'n gaeth i'r tŷ.

LLONGYFARCHIADAU: a dymuniadau gorau iti, Alison Jayne, Foel Gron, Dinorwig ar dy ben-blwydd yn 21oed, Mehefin 2il. Oddi wrth Uncle Tommie ac Anty Kath, Prenteg, Deiniolen.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Fai 14 o dan arweiniad Mrs J. Eirlys Williams, is-lywydd, yn

absenoldeb y llywydd, Mrs Rita Parry Jones.

Darllenodd Mrs Williams y cylch-lythyr misol a chroesawodd y wraig wadd sef Mrs Glenys Williams, Edern y V.C.O. Cawsom noson ddifur iawn gan Mrs Glenys Williams yn trafod y Cyfarfod Cyffredinol. Bydd yn cael ei gynnal yn Llundain mis Mehefin.

Diolchwyd i Mrs Williams gan Mrs J. Eirlys Williams a Mrs Eirlys Lloyd Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Eirian Jones.

Rhoddwyd y te gan Mrs J. Eirlys Williams a Mrs Beti Wyn Davies, ac fe longyfarchwyd Mrs Gwen Hughes a Miss Jean Maeller gan yr is-lywydd ar ddod yn ail mewn cystadleuaeth cyfansoddi cân wedi ei gosod gan Goleg Denman - Mrs Hughes am wneud y dôn a Miss Maeller am wneud y geiriau.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fehefin 2 pryd y cawn arddangosfa ar sut i wneud 'pethau da'.

YN GWELLA: Da clywed fod Mr Owie Parry, 13 Hafod Oleu yn gwella ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Llandudno.

CROESO: Estynnwn groeso fel ardalwyr i Mr a Mrs O.R. Williams, Dinorwig sydd wedi symud i fyw i Rydfadog. Bu Mr Williams yn ohebydd i'r Eco dros Ddinorwig am gryn dipyn o flynyddoedd.

MERCHED Y WAWR: Yng nghyfarfod mis Ebrill cafwyd noson ddiddorol ikawn gyda Mrs Janice Land yn trefnu blodau. Roedd pawb wedi synnu cymaint o drefniadau prydferth oedd yn medru eu gwneud. Rhoddwyd un gosodiad prydferth iawn i Mrs Dilys Hughes ein hysgrifenyddes sydd heb fod yn dda yn ddiweddar. Gan fod Mrs Gwladys Jones a Mrs Mary Morris yn dathlu pen-blwydd cawsant hwythau hefyd flodau.

Bydd deg o aelodau'r gangen yn mynd i helpu i babell Yr Urdd ym Methesda ar y dydd Mawrth.

Bydd pedair o'r aelodau yn helpu hefyd yn Noson Goffi y Ganolfan leol ar Fehefin 13.

MERCHED Y WAWR MIS MAI: Cwis gan y Parch Trefor Lewis a gawsom y tro hwn gyda Mrs M. Lewis yn ei gynorthwyo. Tim un a orfu o chwe marc. Diolchwyd yn gynnes i'r ddau am ddod ar fyr rybudd i'n cynorthwyo gan Mrs E. Williams, 2 Y Bwthyn. Y cadeirydd, Mrs J. Eirlys Williams, oedd yn trefnu a sôn am Rali'r Ffermwyr leuainc ym Metws-y-coed, a gofyn am roddion mewn bwyd neu arian er mwyn hybu cronfa Pwyllgor y Methedig o Ferched y Wawr, Arfon.

Croesawyd Mrs Beti Wyn Davies a

Mrs E. Williams, 2 Y Bwthyn yn ôl ar ôl anhwylder drwy'r gaeaf, hefyd hyderwn fod aelod ffyddlon arall yn gwella, sef Mrs Gwen Hughes, Gwyndy. Gwestwagedd y te am y ddau fis oedd Mrs Miriam Lewis, Miss Jean Moller, Mrs Mary Morris a Mrs Jane Jones. Cofiwch am y Cyfarfod Blynnyddol ar Fehefin 16.

CYNGOR EGLWYSI: Nos Lun, 12 Mai, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn Neuadd y Ganolfan i lansio Wythnos Cymorth Cristnogol 1986. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Miss Elizabeth Griffith, Llywydd y Cyngor, a dangoswyd ffilmiau gan y Parch Trefor Lewis, yn tanlinellu'r tldi enbydus a'r angen difrifol sy'n wynebu rhai o wledydd y trydydd byd.

Dymuna'r Cyngor ddiolch i'r casggyddion fu'n casglu o dŷ i dŷ tuag at liniaru ychydig ar yr amgylchiadau rhfeini, a gwerthfawrogi'r cyfraniadau dderbyniwyd ganddynt.

Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol y Cyngor ar 14 Gorffennaf pryd y byddir yn trefnu rhaglen am dymor 1986-87.

Y SEINDORF: Enillwyd Clwb 200 am fis Mai - 1. £20, R. Arfon Lewis, Waenfro, Deiniolen; 2. £15, Mr Roberts, Chester House, Deiniolen; 3. Mrs M. Evans, Maes-y-dref, Deiniolen.

O'R YSBYTY: Mae'n dda gennym ddeall fod Mrs Dilys Hughes, Ty'n Weirglodd a Mrs Gwen Ll. Roberts, Awel-y-mynydd wedi dychwelyd gartref o'r ysbytai, ac yn gwella'n foddhaol, a diolch i'r teulu a chyfeillion am eu caredigrwydd diffuant.

LLONGYFARCHIADAU: calonnog iawn i'r ddau blentyn o Ysgol Gwaun Gynfi a dderbyniodd dystysgrifau o Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth, sef Alun Griffiths am ei 'Collage' a ddaeth yn 1af a Dyfan Siôn a ddaeth yn ail ar ei stori a'i farddoniaeth a cofier fod hyn drwy Gymru gyfan. Mae'r ddau o dan ddeg oed. Ardderchog Alun a Dyfan Siôn.

LLONGYFARCHIADAU i Mared Wyn Sutherland a June Marie Williams o Ysgol Sul Cefn-y-waun ar ddod i'r dosbarth cyntaf yn yr Arholiad Sirol a chael mynd i'r Cyfarfod Misol yn Seion, Penygroes.

DIOLCH: Dymuna Mrs E.B. Jones, 8 Bro Deiniol ddiolch i bawb am eu hymholiadau a'u dymuniadau da iddi tra bu'n wael yn aros gyda'i merch yng Nghorwen. Mae wedi dychwelyd gartref erbyn hyn ac yn gwella.

Dymuna Wyn, Dilys a Siôn Wyn, Ty'n-y-weirglodd ddiolch o galon i'r teulu, eu ffrindiau, ac i'r ardalwyr yn gyffredinol am bob caredigrwydd tuag at Dilys tra yn Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Gyffredinol Llandudno, ac ar ôl dod adref yma. Bu pob cerdyn, galwad ffôn, pob ymweliad, a'r dymuniadau da yn gysur mawr inni

fel teulu bach.

Gwerthfawrogn yn fawr iawn y fath ffyddlondeb a'r haelioni. Diolch o waelod calon i bawb ymhell ac agos.

GWELLA: Da clywed fod Mrs Dilys Hughes, Ty'n-y-weirglodd a Dewi Williams, Pentre Helen, y ddau yn gwella ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

CYFARFOD PREGETHU: Cynhelir Cyfarfod Pregethu y Wesleiaid yn Disgwyllfa ddydd Sul, Mehefin 1af am 10 y bore a 5 yr hwyr. Y pregethwr gwadd fydd y Parch D.R. Pritchard, B.A., Caernarfon. Croeso cynnes i bawb.

CYFARFOD CYHOEDDUS: Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd y Ganolfan, am saith o'r gloch, nos Fawrth, 17 Mehefin, a phwysir am gefnogaeth iawn i'r cyfarfod.

Bydd Cadeirydd Pwyllgor Arfon - Apêl Scanydd Corff Gwynedd, y Cynghorydd Miss Mary Richards, M.B.E., yn bresennol yn y Cyfarfod i roi gwybodaeth fanwl am yr Apêl, ac yn dilyn ei hadroddiad byddir yn ethol Pwyllgor Deiniolen i godi arian i hybu'r Apêl.

Yn ddiweddarach yn y Cyfarfod cyflwynir adroddiad ar y sefyllfa parthed y Ganolfan. Adroddir hefyd ar benderfyniad Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen i drefnu ar gyfer parcio cerbydau yn y Marchlyn ar achlysur Diwrnod Agored Gorsaf Bwer Llanberis, fis Medi nesaf, pryd y bydd cyfle i'r cyhoedd ymweld â Chronfa Ddŵr y B.C.C.T. yn Marchlyn.

Bydd rhagor o faterion i'r uchodi'w trafod, cofiwch y dyddiad, a dewch yno i drafod a lleisio barn.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

GŴYL GORAWL ERYRI 1986



Arwel - enillydd y cwpan.

J.M. JONES a'i FEIBION GWAITH CERRIG BEDDAU DEINIOLEN

(gyferbyn â'r Ysgol Gynradd)

Crefftwyr Gwaith Llaw Traddodiadol
Cerrig o Bob Math ar Gael

**Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)**



STRYD FAWR, DEINIOLEN Ffôn Llanberis 871210

Crefftau llechi: arlunwaith, clocioau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

Arddangosfa o hen luniau chwarel.

A dewis rhagorol o Fideos i'w benthyg
Hefyd yn Siop

FFYN A CERRIG, STRYD FAWR, LLANBERIS

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon, 872275.

LLONGYFARCHIADAU i Catrin Gwyn, Min y Nant ar ei llwyddiant yn yr arholiad canu'r piano Gradd 4 gyda chlod. Cynhaliwyd yr arholiad dan nawdd Coleg Cerdd y Drindod, Llundain.

MARWOLAETH: Trist oedd clywed am farwolaeth Mr Ernest Fildes, Bro Dawel. Daeth ef a'i briod yma o Lanrug ychydig o flynyddoedd yn ôl ond bregus iawn fu ei iechyd a bu gofal ei briod yn dirion iawn iddo. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod, ei blant a'u teuluoedd yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

GYMANFA'R ANNIBYNWYR: Cynhaliwyd Gymanfa Dosbarth Cwm-y-glo yng Nghapel Bosra, Penisarwaun ddydd Sul, Ebrill 27. Cymerwyd y gwasanaeth agoriadol yng ngwasanaeth y plant gan y Parch Gwynfor Williams, Jerusalem. Y thema eleni oedd 'Gwyrthiau'r lesu' a chymerwyd rhan gan blant eglwys Bosra, Jerusalem, Ebeneser a Nant Padarn. Gwnaeth y plant waith canmoladwy iawn. Diolch i'w hathrawon am eu hyfforddi.

Daeth cynulliad da i'r cyfarfod hwyr a chymerwyd y rhan agoriadol gan Mr E.W. Jones, Bosra. Cafwyd annerchiad gan y Parch Trefor Lewis. Arweinydd y ddau gyfarfod oedd Mr John Jones, Ebeneser a'r organydd oedd Mr Robert Lloyd, Jerusalem. Diolchwyd gan y Parch Trefor Lewis i bawb am eu gwaith i lwyddiant y Gymanfa.

CLWB Y MAMAU A MERCHED IFANC: Cyfarfu'r aelodau yn y

Ganolfan nos Fercher, Mai 7 a chafwyd noson ddiffr iawn yng nghwmni Karen Thomas. Cafwyd sgwrs ar 'Glendid y Corff'. Model am y noson oedd Mrs Avril Jones. Rhoddwyd y te a gwobr y raffl gan Mrs Gwyneth Roberts a Mrs Sioned Jones ac fe'i henillwyd gan Mrs Susan Jones. Bydd y trip dirgel nos Fercher, Mehefin 4, yn cychwyn am 7.30 o'r gloch. Enwau i Mrs Avril Jones.

CROESO ADREF: i Mr Tom Owen, 3 Maes Gerddi a Mrs Elizabeth Davies, Noddfa ar ôl cyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Dymunwn wellhad buan iddynt.

CLWB POBL Y CWM: Diolch i ddwy aelod o'r clwb sef Mrs Watkins a Mrs Chick am eu cyfraniad i greu pnawn difyr a diddorol ar Fai 1. Roedd Mrs Chick wedi trefnu cwis ar wybodaeth gyffredinol a rhannwyd yr aelodau yn ddau grŵp, A a B. Grŵp A a orfu, ac i ddilyn cafwyd recordiau gan Mrs Watkins o storïau doniol gan yr arch-storiwr Mr Charles Williams. Diolchwyd iddynt gan y llywydd. Mrs Rowlands Bodafon a Mrs Williams, Elidir View oedd yn gyfrifol am y te, a rhoddwyd y raffl gan Mrs Hughes, Hyfrydle a enillwyd gan Mrs R. Parry. Yng nghyfarfod pnawn lau, Mai 15 croesawodd y llywydd ein gŵr gwadd sef y Parch Aled Jones Williams, Rheithor y plwyf. Cychwynnodd ei sgwrs drwy roi amlinellid o'i yrfa o fod yn fab i Berson a llwyddo i'w dderbyn yn offeiriad ei hun, a dangosodd wisgoedd oedd yn berthnasol i wahanol wasanaethau yr Eglwys. Diolchwyd iddo gan Mr Llew Hughes.

gan yr Hybarth Elwyn Roberts, Archdeacon Bangor. Yr organydd oedd Mr John Morris, Llanrug.

Y prynhawn Sul canlynol, cynhaliwyd Gŵyl y Plant yn Eglwys y Santes Helen, Penisarwaun. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Canon Richard Jones, a chafodd ei gynorthwyo gan y Parchn Aled Jones Williams ac Alun Hawkins. Yr organydd oedd Mr Bryngwyn Griffith, Penisarwaun. Dosbarthwyd tystysgrifau i 170 o blant a oedd wedi cystadlu yn yr Arholiad Llafar neu Ysgrifenedig a Chelf a Chreffft. Yr arholwr yn yr adran ysgrifenedig oedd Mrs Nant Roberts. Roedd canmolïaeth uchel iawn i'r holl waith ac enillydd Cwpan Coffa Alun Jones eleni oedd Arwel Hughes, o Ysgol Sul Eglwys Crist Llandinorwig gyda Nia Wyn Hughes o Eglwys Sant Gabriel Cwm-y-glo yn derbyn y darian.

Roedd y cwpan bach yn rhodd gan Miss Alison Edwards o Lanberis a'r darian gan ddau gyn-warden Eglwys St Helen - sef Mr Tegid Roberts a Mrs Mary Davies.

Rhoddwyd y te gan Mrs Jones, Seiont House a Mrs R. Parry, Bro Rhythallt a'r raffl gan Miss E. Hughes, Tan-y-graig a enillwyd gan Mrs E. Jones, Seiont House. Dymunwyd adferiad i Miss E. Davies, Noddfa ar ôl ei harhosiad yn Ysbyty Gwynedd, hefyd Mr Tom Owen, 3 Maes Gerddi.

Mai 12 cynhaliwyd noson o Bingo lwyddiannus iawn yn y Ganolfan, yr elw at dîm pêl-droed Cwm-y-glo. Enillwyd y raffl oedd - Irfon Jones, Dyffryn, Myfanwy Roberts, Bod Gwilym, G. Williams, Seion, Alan Williams, 32 Bro Rhos, Bethel, Mrs Hewnes, 1 Groeslon, Mair Williams, Elidir View; 6 Cae Rhos, Bethel; D. Idriswyn Roberts; Mrs Williams, Pant Afon, Peggy Jones, 55 Bro Rhyddallt.

Dymunwn ddiolch i bawb a'n cefnogodd y noson hon a thrwy'r flwyddyn mewn unrhyw ffordd. Diolch o galon i'r canlynol am roi anrhegion y raffl - Mr a Mrs Wager, Post Office, Brynrefail, Mr Eric Williams, Mr a Mrs Ware, Post Office, Mr a Mrs Hugh Owen, Snowdon Hotel, Mr W. Chick, Mrs R. Fowler, Mr Bellini, Mrs Sylvia Williams, Morris Bros, Bakery, Mr a Mrs John Steele.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael tuag at gostau'r 'Eco'.

Er cof am William R. Williams, Utica, Efrog Newydd
£20 - J.G. Williams a'r teulu, Llundain
£5 - Miss Mary Williams, Tregarth
£5 - Mr a Mrs Robert Williams, Llanrug

Er cof annwyl am dad a mam - William a Mary T. Jones, Clwt-y-bont
£5 - Dorothy May, 17 Fflatiau Lôn y Bryn, Caernarfon.

£2 - Di-enw, Deiniolen
£2 - Mr a Mrs Alun Philips, Bwyty, Deiniolen; Mrs Medwen Griffiths, Foel, Deiniolen; Mr O.R. Williams, 29 Rhydfadog, Deiniolen.
£1 - Mrs Beti Wyn Davies, 82 Pentre Helen, Deiniolen; Mrs Elinor Jones, Heather Bank, Penisarwaun.

LLANBERIS

CYDYMDEIMLAD: Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Lola Evans, 15 Stryd Fawr ar farwolaeth ei thad, Mr John Jones, yn Chwilog.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mr Cledwyn Roberts, Dôl Eilian ar farwolaeth ei fam, Mrs Annie Roberts ar Fai 3, yn Ysbyty Eryri, Caernarfon.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Delyth Roberts, 12 Maes Padarn ar farwolaeth brawychus o sydyn ei gŵr Wil, yn 49 mlwydd oed ar Fai 15.

Cydymdeimlwn yn fawr â'i frawd Twm John a'i chwiorydd Elizabeth a June a chyda'r teulu oll.

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Jean Jones, 41 Stryd Newton ar farwolaeth ei gŵr, Glyn, ar Fai 17.

LLONGYFARCHIADAU: I Elen ac Eilir Parry, Peris View ar enedigaeth merch fach, Ffion, ar Fai 3ydd. Llongyfarchiadau i'r ddwy nain a'r ddau daid, Robin a Megan, a John a Catherine (am y tro cyntaf). Llongyfarchiadau i Mrs Jane Lloyd Jones ar ddod yn hen nain am y tro cyntaf.

I Adrian, mab Brian a Buddug Wakeham, Glenthorne, Stryd Newton, ar ei briodas â Gwenfair, merch Mrs Helen Shipley, Siop Spâr, Llanrug, ar Fai 3ydd.

I Amanda, merch Ken ac Lola Sellers, Dôl Elidir, ar ei phriodas â Peter Welsby o Frynrefail ar Fai 17. Ein dymuniadau gorau i'r cwplw ifanc.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Ebrill 24, dan arweiniad Mrs Hannah Jones. Cafwyd Bwrdd Prynu a Gwerthu gan yr aelodau ac aeth yr elw at y Apêl y Sganer Ysbyty Gwynedd. Cydymdeimlwyd â Mrs

Mair Jones a Mrs Lizzie Jones yn ei phrofedigaeth yn ddiweddar. Penderfynwyd i bawb sy'n gallu, fynd i'r Cyngor y Gwanwyn yng Nghricieth ar Fai 16. Fe longyfarchwyd Mrs Katie Griffith ar ei phen-blwydd. I ddiweddu'r noson cafwyd cwis wedi ei drefnu gan Mrs Hannah Jones. Y gwestwagedd oedd Mrs Netta Jones, Mrs A.B. Jones, Mrs Arvon Evans a Mrs Hannah Jones. Diolchwyd iddynt gan Mrs Betty Jones. Enillwyd y raffl oedd Mrs Megan Hughes, Mrs Helen Morris, Mrs Dilys Phillips a Mrs Hannah Jones.

Annwyl Gyfeillion,
Yng Nghorffennaf 1958 dadgorfforwyd Capel Hebron. Gan na allai ddod i'r cyfarfod anfonodd y Parch Bryn Williams y gerddoriaeth yma i'r achlysur.

Nid wyf yn gwybod os yw'r gwaith yma wedi ei gyhoeddi, felly fe anfonais at Mrs Bryn Williams ac fe gefais ei chaniatod i'w roi yn ein papur bro. Wrth gwrs roedd y diweddar Barch Bryn Williams wedi bod yn weinidog ar Gapel Coch a Hebron.

Cofion atoch,
Hugh Peris Pritchard.

HEBRON

(Dadgorfforwyd, Gorffennaf, 1958)

Cenawon amser wedi cyfarth dy braidd o giffachau'r mynydd, a'th adael yn gorlan rwylllog ar y llethrau anghyfnedd.

Gwae ddyfod dydd dy ddiweddu yng Ngwaencwmbrwynog, a dyfod o'r gwynt i gwyno'i alargan i'r cymun a fu.

Difforddwyd pabwyr y lanternau ar y llwybrau pererin sydd ar goll yn y brwyn, ac nid erys ond lluwch y sêr dihidio tuhwnt i niwl yr Wyddfa foel.

Ni ddaw heno ond wyllo bach afon Swch i gyfarth dy ffenestri a wybu unwaith arllwys y mawl i gwpan y Cwm; ac ni bydd wrth dy allor ond aroglarth y grug a chwerthin awel ifanc lle bu'r gweddiq plaen.

Yntau'r gwynt yn faleisus ddarogan dy dynged o'i bulpud ysgithrog, gan watwar utgyrn dy bregethau mawr.

Eithr erys hyd awr fy niweddu atgofus dangnefedd dy gwmniaeth, ac ni thau y lleisiau a lŷn wrth dy furiau briw.

Bryn Williams



Nia Wyn Hughes a'r darian

Cynhaliwyd Gŵyl yr oedolion yn Eglwys Sant Mihangel, Llanrug, nos Iau Dyrcyfael, sef Mai 8. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parch Ganon Richard Jones, Deon Gwlad Arfon, a oedd yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn Aled Jones Williams, Rheithor Llanrug ac Alun Hawkins, Rheithor Llanberis. Traddodwyd y bregeth

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas



Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD
GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

HANES FY NHAITH O GYMRU I AWSTRALIA

Y MIS diwethaf, gadawsom John Parry yn Colombo, ym Môr India. Y mis hwn cawn hanes gweddill ei daith i Awstralia. Fel y gwelwch o'r dyddiadur, cyrhaeddodd ar ddydd Gwener, Mehefin 11eg, 1886, ar ôl taith o saith wythnos a dau ddiwrnod.

Dydd Sadwrn, Mai 22nd

Cawsom dywydd rough iawn pan yn gadael Colombo ac yn wir ar hyd y nos. Mae y tonnau yn tori trosodd yn aml; y mae golwg ardderchog ar y môr a'i donnau grychias fel mynyddau. Yr oeddwn yn cael rhyw olwg ar waith Duw yn galw y dyfroedd i fod.

Buom yn Colombo am 25 hours; aethom i mewn yno unarddeg borau dydd Iau a gadawsom am ddeuddeg o'r gloch prydnhawn dydd Gwener. Codasant yr hwyliu i fyny ar ôl mynd i'r eigion er fod y gwynt yn chwythu yn gryf i ochr y llong ond yr oeddynt yn gallu gwneud y sails weithio yn rhagorol. Y porthladd nesaf fydd Batavia, byddwn yno ymhen naw diwrnod a gorau pan gyntaf gyrraedd pen fy nhaith. Yr wyf wedi blino ar yr hen long yma er ei bod yn 400 ft o hyd. Y mae rhyddid dyn yn cael ei gyfyngu yn fawr yma ond y mae hynny yn hollol angenrheidiol. Mae yma rai pobl rough iawn ac y mae yn rhaid eu dal hwynt i lawr.

Yr oedd yna ugeiniau yn sal ddoe ac yn eu plith J. Parry!

Dydd Sabbath, Mai 23rd

Treuliasom tua deuddeg milltir yr awr neithiwr, yr oedd y gwynt o'n tu ac yr oedd y llong yn awr yn cael ei meddiannu a dwfr ar hyd ei gwyneb. 3.49 o'r gloch yr ydym yn awr yn croesi Llinell y Cyhydedd (Equator). Yr oedd yn llawer iawn poethach yn y Red Sea nag yw hi yma. Y mae gennym wynt rhagorol a'r golau yn ymddywallt arnom. Efallai fod hyn yn llareiddio llawer ar y poethder.

Dydd Llun, Mai 24th

Codais heddyw am 7.30 yn teimlo yn bur flinedig hefyd - gwely caled fel beudy Brynhafod. Byddwn yn cael ein siglo yn gampus bob nos. Clywais lawer o son am y Trade Winds, wel yr ydym ym morio ynddo er dydd Sadwrn ac y mae yn wynt rhagorol. Mae yr hen long yn llamu fel hydd ar yr eigion. Dim tir o fewn golwg nag un creadur arall ond flying fish. Maent tua wyth modfedd o hyd, esgyll tua tair modfedd a dwy o led - da iawn i'w bwyta.

Dydd Mawrth, May 25th

Y mae yr hin gryn lawer yn boethach heddyw a'r gwynt wedi tawelu yn llwyr y môr fel gwydr.

Dydd Mercher, May 26th

Diwrnod hyfryd, ychydig awel. Gwelsom long hwyliu neithiwr yn myned am y trade wind.

Dydd Iau, May 27th

Codais hwdydw 7.30. Diwrnod hynod o hapus. Gwynt yn chwythu braidd yn gryf ac y mae yn llareiddio llawer ar boethder yr haul. Yr ydym yn awr yng ngolwg tir.

Dydd Gwener, Mai 28th

Yr ydym yn awr yn mynd ar hyd y Straits of Sanda ac ar yr ochr ddeheuol i ni y mae Sumatra a'r ochr ddwyreiniol i ni y mae Java afiach. Gadawsom nifer o fan ynysoedd ar yr ochr ddeheuol neithiwr. Y mae y tywydd dipyn yn oerach heddyw ond y mae yn ein siwtio ni yn gampus.

11.30 Yr ydym yn awr yng

ngolwg un o fynyddoedd tanllyd Sumatra. Efallai eich bod yn cofio darllen ers tua thair neu bedair blynedd yn ôl am dref gyfan gael ei chladdu gan y lava yn y parthau hyn, ac i 17,000 o bobl gael eu claddu ganddo. Fe aeth un mynydd cyfan o'r golwg ac mewn canlyniad fe gododd y mynydd hwn. Y mae llwybrau y lava i'w gweld yn ffosydd anferth yn rhedeg ar lethrau y mynydd ymhob cyfeiriad ac y mae mor llyfn a gwydr mewn llawer lle arno. Y mae ei uchder yn anferth ac y mae y ffosydd hyn yn rhedeg o'i dop uchaf ac y mae ambell i agen fechan i'w gweled yn ochr y mynydd a'r lava yn gwneud ei ffordd allan. Y mae y Straits of Sanda yn cydreddeg am lawer o filltiroedd a'r mynydd hwn. Yr ydym yn morio o fewn milldir i'r mynydd tanllyd; y mae y mynydd i'w weled uwch ein pennau.

Yr ochr arall i ni y mae Java, ei mynyddoedd yn rhedeg yn range am filltiroedd lawer.

3.30 Yr ydym yn awr yn morio o fewn hanner milldir i'r lan ynghanol coedwigoedd prydfarth. Yn y fan yma drachefn y llyncwyd tref o'r enw Gauges ers ychydig flynyddoedd yn ol gan ddacargrynfa. Y mae y wlad i'w gweled fel wedi ei difetha gan earthquake.

Dydd Sadwrn, Mai 29th

Cyrhaeddasom Batavia am 5 o'r gloch bora - bu yn rhaid i ni angori o'r tu allan i'r porthladd dros y nos. Does yma ddim porthladd, ond rhyw fath o argae. Y mae yma amryw o longau mawrion; yr ydym yn cymeryd i mewn ychydig o gargo yma. Gadawsom y lle hwn am ddau o'r gloch. Doedd dim caniatad iddynt werthu dim i ni yn y lle hwn am y rheswm fod y wlad mor afiach. Yr oeddyn yn cymeryd y sails i mewn yma a chyn eu cymeryd i mewn yr oeddynt yn cael eu dal uwchben brwmsten rhag ofn bod dim afiach ynddynt.

Dydd Sabbath, Mai 30th

Y mae y bore yn hynod o ddymunol, awel iachus yn chwythu yn ein herbyn. Aethom allan o olwg tir yn fuan ar ol gadael Batavia. Aethom ar unwaith i fewn i'r eigion a'r tir nesaf a welwn fydd Australia. Y mae yma lawer wedi blino eu calonau ar yr hen long; y mae taith mor bell yn gwneud i'r gorau ohonom flino arni.

Y mae gennym wasanaeth heddyw.

Am yr ychydig amser y buom yn angori yn Batavia yr oedd yn boeth anarferol, yn debyg fel yr oedd yn y Red Sea, ac ynghanol y poethder mawr hwn daeth yn wlaw mwyaf disymwth arnom, a darfu lareiddio lawer ar boethder yr haul er ein mawr les.

Dydd Llun, Mai 31st

Yr ydym yn parhau i fyned trwy ganol llawer iawn o fan ynysoedd. Yr wyf yn sicr i mi weled craig lechau yn un o'r brynau hyn ac yr oeddyn yn dymuno cael myned i lawr yno ond morio yr oeddyn. Y mae yma goed afrifed, y dyffrynoedd yn llawn ohonynt.

Dydd Mawrth, Mehefin 1

Diwrnod hyfryd, y gwynt braidd i'n herbyn. Yr ydym yn morio yn y Fflorres Strait er neithiwr. Yr ydym yn awr yn dod i olwg tir newydd yn ddyddiol. Yr ydym yn awr yng ngolwg dau o fynyddoedd uchel iawn yn nhiriogaeth y Fflorres Island. Maent yn dweud eu bod yn 18,500 ft uwchben gwyneb y môr.

Dydd Mercher, Mehefin 2il

Yr ydym yn pasio Ynys Quetta, dim i'w weled ond coedydd.

Dydd Iau, June 3rd

Boreu hyfryd ac ychydig awel yn chwythu i'n hochrau. Am 9 o'r gloch yr ydym yn myned rhwng dwy ynys fechan, pellder rhwng y ddwy tua dwy filltir. Mynyddoedd cribog, coedydd afrifed. Yr oedd yma fynydd tanllyd a mwg arhosol arno yn estyn ohono.

Bu gennym gyngherdd ar y llong neithiwr.

Dydd Iau Dyrchafael, Mehefin 3 1886

Yr ydym yn awr yn pasio yr Ynys Timor.

5.30. Yr ydym yn pasio ynys arall ac y mae yma bobl yn byw er na welais mohonynt ond gwelais fwg yn esgyn fel o rhyw ogof. Nis gallaf ddirnad pa beth y maent yn gael at ei byw mewn lle fel hyn.

Dydd Gwener, June 4th

Y mae hi yn chwythu dipyn heddyw. Pasiwyd ni gan long hwyliu ar ei ffordd i Loegr neu rywle. Y mae y môr yn ddu iawn heddyw fel ink. Y maent yn dweud y byddwn yn Townsville wythnos i heddyw.

Gogoniant.

Dydd Sadwrn, June 5th

Dyma y Sadwrn diwedda i mi ar y môr ac y mae yn dda iawn gennyf hefyd. Y mae y môr yn newid ei liw fel ac yr ydym yn dynesu at y tir. Yr ydym yn awr yn y Gulf of Carpentaria o fewn wyth cant o filltiroedd i Townsville. Yr ydym yn lled agos i'r equator eto yn y fan yma ac y mae yn lled boeth yma.

Dydd Llun, June 7th

Yr ydym allan o olwg tir, y mae y môr braidd yn rough ac felly ar hyd y nos.

	Miles
London to Malta	2,310
Malta to Port Said	935
Port Said to Suez	88
Suez to Eden	1,307
Eden to Colombo	2,010
Colombo to Batavia	1,950
Batavia to Thursday Island	2,256
T. Island to Cookstown	430
Cookstown to Townsville	258
Townsville to Brisbane	850

12,384

3.30. Dyma ni yng ngolwg tir Australia. Yr wyf yn teimlo fy mod yng ngolwg tir y dymunais lawer gwaith ei weled er nad oes gennyf yr un syniad pa un ai llwyddiant ai adfyd sydd yn fy aros yno. Y mae y gwynt i'n herbyn ar hyd y daith o Batavia.

5.30. Yr ydym o dan gawod o law iachus.

7.00. Cyrhaeddasom Thursday Island yn y Torres Strait. Y mae yma lawer iawn o ynysoedd man a lle i fyned rhyngddynt. Daeth y Pilot i fyny tua pedair milldir o'r porthladd.

Dydd Mawrth

Codais heddiw am 5.30; yr oedd yn rhaid i'r oll ohonom fyned o flaen y Doctor a minau yn eu plith rhag ofn

bod dim afiechyd ar fwrdd y llong.

Tai bychan sydd yma wedi eu gwneud o goed. Gwelais un Eglwys yma. Mae gennym ychydig gargo i'w roddi i lawr yma. Tua ugain milldir yw y Torres Strait ac y mae yn lle hynod o beryglus. Creigiau rhyw lathen neu ddwy uwchlaw gwyneb y môr. Y mae y Pilot ar y bwrdd a bydd gyda ni bellach i ben y daith.

Gwelaf long wedi mynd ar y bank rhyw filldir oddiwrthym.

5.30. Yr ydym yn hwylio ymlaen ar hyd y Cape York. Yr ydym mewn golwg tir ar yr ochr ddeheuol i ni a mae y wlad i'w gweled yn fynyddig iawn yr hyn a welwn ohoni o'r môr.

Gadawsom Thursday Island am unarddeg borau heddyw. Y mae gennym concert i fod ar y llong heno ac y mae y Doctor ym myned i roddi speech i ni ar Queensland.

Heddyw cawsom ychydig gydnabyddiaeth gan y Doctor anrhydeddus am ein hymddygiad da sef Bara Brith a tin o Condensed Milk.

Dydd Mercher, June 8th

Codais heddyw am 6.00. Borau hyfryd ond awel gref. Y mae tref fechan i'w gweled ar ochr Queensland nas gwn ei henw. Cawsom araith lled dda ar Queensland neithiwr, y mae wedi codi llawer ar ein calonau.

Cawsom oll ein boxes i fyny heddyw er mwyn cael eu paratoi erbyn myned i'r lan.

2.30. Heddyw yr oedd pawb ag oedd yn ddirwestwyr yn cael bara a caws yn extra ac allan or 450 emigrants ugain oedd yn deilwng o'r fendith. Yr ydym ni ein tri ymhlith yr ugain a gafodd eu Bendithio a'r fendith freiniol hon.

Dydd Iau, June 9th

7.30. Aethom i mewn i Cookstown. Buom yno am ysbaid o hanner awr. Rhoddasom arwydd, sef dwy ergyd ac atebasant ar y lan yna aethom ymlaen. Tai bychan sydd yma wedi eu gwyngalchu. Lle bychan yng nghanol trafllith o fynyddoedd yw. Gwelsom heddyw lawer o anifeiliaid yn pori ar lethrau un o'r mynyddoedd.

Cymerasom lo ymhob porthladd ond Cookstown a Thursday Island.

5.30. Yr ydym yn pasio Port Douglas, yr ydym tua pump milldir oddiwrtho. Y mae mwg y tai i'w weled yn esgyn i fyny. Tybiwn ei fod yn lle perffaith.

Mae mwy o ddewis
nag erioed gan
**JOHN A ROBERTA
GRIFFITH**
**Y STORFA
SGWÂR LLANRUG**
Ffôn: Caernarfon 2790

Bwydydd, Llysiau,
Diodydd, Gwlân Sirdar,
Patrymau, Gweill Aero
Agored 7.30 a.m. - 6.30 p.m.
Agored tan 8.00 p.m. nos
Wener a
9.30 - 12.30 fore Sul
Archebwch dros y ffôn - fe'i
danfonwn at eich drws

Dydd Gwener, Mehefin 11th 1886
Codais heddyw am 5 o'r gloch. Yr oedd yma gynnwrf mawr ar hyd y nos ni chlywsom erioed ei gyffelyb. Drums, hen duniau, platiau, ffidlau a phob offeryn am a wn.

7.30. Yr ydym wedi angori o fewn pump milldir i'r lan. Y mae y dwfr braidd yn fas a'r llong mor fawr. Tygboat bychan yn myned a ni i'r lan. 115 mewn nifer yn myned i lawr yn Townsville. Chawn ddim myned i'r lan hyd dri o'r gloch.

Rhoddais fy nhroed ar dir Australia am bump o'r gloch heddyw yna aethpwyd a ni i'r emigration Depot. Yr oeddwn yn teimlo arnaf eisiau bwyd yr oeddwn yn meddwl y byddai ein bwyd yn barod yno. Yna daethant a rhywbeth tebyg i potatoes i ni o ran ffurf yr oeddynt yn debyg i datws,

ond allwn fwyta dim, Tom Parry na minnau. Yr oeddym i fod i gysgu ar lawr coed noeth; yr oedd hyn yn taro yn rhyfedd i mi eto. Aethom allan oddi yno, Tom a minnau, ac i'r dref i chwilio am rhywbeth i'w fwyta a chawsom fwyd rhagorol am swllt yr un. Darfu i ni benderfynu cydrhyngom i beidio myned i'r Depot yn ôl ac felly cymerasom lodging yn y dref nos Wener ac aethom i fyny i Charters Towers gyda y train dau o'r gloch prydnhawn dydd Sadwrn.

Ydwyf

John Parry, gynt o Brynhafod, Llanrug, Caernarvonshire, North Wales, England.

Taith o Saith Wythnos a dau ddiwrnod ar y môr sef o Blackwall, Llundain i Townsville, Queensland.

O'R HEN I'R NEWYDD - COFIO'R NEWID YN NOLBADARN



'Rwyf bron yn siŵr mai yn ystod haf 1937-38 y tynnwyd y llun dosbarth hwn, y flwyddyn yr agorwyd ysgol newydd Dolbadarn. Gobeithio y gall rhai o'm cyd-ddisgyblion yn Safon 5 (Standard Five i ni) gadarnhau hynny.

Yn y rhes flaen mae (o'r chwith i'r dde): Norman Hughes, Haydn Holland, Victor Williams, Donald Jones, Emrys Owen. Yr ail res: Elizabeth Owen, Eirlys Lloyd Roberts, Megan Jones, Gaynor Roberts, Nellie Jones, Irene Wood, Mair Jones. Y drydedd res: Mair Davies (fi), Jennie May Humphreys, Eirlys Jones, Catherine Roberts, Margaret Morris, Jennie Jones, Nellie May Williams. Rhos gefn: Glyn Williams, Elwyn Hughes, Glyn Roberts, Alwyn Roberts, Gwynedd Michael, Wyn Vaughan Thomas, Eric Roberts.

ATGOFION MAIR (DAVIES) ROBERTS AM GYFNOD Y NEWIDIADAU

Fel Gwyneth Chick, 'rwy'n cofio adeiladu'r ysgol newydd yn ymddangos i ni'r plant fel pe bai'n mynd ymlaen am gyfnod hir iawn, a chan iddi gael ei chodi ar libart yr hen, 'roedd yna lanast o gwmpas ym mhobman. Hunllef i'r athrawon 'rwy'n siŵr oedd trio cadw'r plant o'r tywod, y sment a'r holl geriach.

Un o blant Clegir oedd Gwyneth, ac roeddwn nhw wedi cerdded dwy filltir dda bob bore cyn ymuno â ni, blant Llainwen, i gerdded i'r ysgol. 'Roedd yn ddiddorol ei chlywed yn dweud mai'r fynedfa newydd i fyny at yr ysgol oedd yn aros yn un o'r pethau mwyaf byw yn ei chof, oherwydd mae felly i mi. 'Dwn i ddim pam, ond wedi cerdded i lawr Gallt Castle View am flynyddoedd a throi i'r dde i fynd drwy'r fynedfa yng ngwaelod Ceunant Street, 'roedd rhywbeth yn chwithig rhywsut mewn troi i'r chwith yng ngwaelod yr allt a mynd heibio ffrynt Capel Coch.

Blwyddyn yn unig fûm i yn yr ysgol newydd. Fel y dywed Gwyneth, 'roeddem yn ei defnyddio am sbel cyn yr agoriad swyddogol. Erbyn hynny, 'roeddwn i wedi cychwyn yn Ysgol Brynrefail, ond

'rwy'n cofio'r flwyddyn honno yn dda iawn. Blwyddyn "Standard Five", blwyddyn y 'Scholarship'. 'Roedd bywyd bellach mor wahanol i'r bywyd yn yr hen ysgol. Mae'n siŵr fod gwir angen ysgol newydd arnom. 'Rwy'n cofio rhes o fwcedi yn dal dŵr o'r to pan oeddwn yn nosbarth Miss Humphreys yn Safon 2, dros ddwy flynedd cyn i ni symud i'r ysgol newydd.

Ysgol un llawr oedd yr hen ysgol, felly 'roedd dipyn o waith cynefino â'r holl risiau a'r coridorau, a'r dosbarthiadau wedi eu cau i mewn yn breifat. Yn yr hen ysgol, os oeddech yn Safon 1 ac angen mynd i'r toiled arnoch ar ganol gwers, byddai'n rhaid i chwi gerdded trwy Safonau 2, 4 a 5. Buan iawn y deuai plant y dosbarthiadau rheini i wybod pwy oedd wirioneddol angen

mynd i'r toiled, a phwy oedd wedi diflannu ar y wers, ac wedi penderfynu mai buddiol fyddai mynd am dro bach! Delai'r cyntaf trwodd yn gyflym a'i ben i lawr yn swil. Delai'r ail ran amlaf â gwên fawr ar ei wyneb gan ddweud "Diarrhaea Miss."

Yn fy mlwyddyn olaf yn yr hen ysgol 'roeddwn yn nosbarth Miss Hughes o Ddeiniolen. Cymeriad llawn iawn oedd Miss Hughes. Am amser byddai'n dod i'r ysgol bob dydd ar gefn motor-beic. Mae gen i gof byw iawn ohoni yn trio egluro i ni'r plant beth oedd marzipan, ond mae'n rhaid na wyddem ni ddim am y fath ddanteithion; oherwydd y diwrnod canlynol daeth â siocled yn llawn marzipan gyda hi i'r ysgol i ni i gyd gael profi. Hi oedd un o'r dwedwyr stori gorau glywais i erioed, a byddem ni'r plant yn dyheu am y tri-chwarter-awr olaf ar bnawn Gwener pan fyddai Miss Hughes yn darllen stori i ni. Fe ddarllenodd 'Nansi'r Ditectif' a phob un o nofelau E. Morgan Humphreys i ni. Eu darllen fel stori gyfres er mwyn cael rhywbeth i edrych ymlaen ato yr wythnos ganlynol.

Tra 'roeddem yn ei dosbarth hi, penderfynodd rhywun mewn awdurdod yn rhywle y dylai'r brenin a'r frenhines newydd, tad a mam y frenhines Elizabeth, ddod i Gaernarfon i ni i gyd gael eu gweld. Adeiladwyd stand fawr ple mae garej Crosville heddiw, drws nesaf i Eglwys Crist (Christ Church), a gofynnwyd am gynrychiolaeth o bob ysgol yn yr ardal. Er gwell, er gwaeth, Emrys Owen, sydd newydd ymddeol rŵan o fod yn brifathro yn Birmingham, a fi ddewiswyd o ddosbarth Miss Hughes.

'Rwy'n gobeithio nad yw 'nghof yn chwarae triciau â fi. Os yw, mae'n siŵr y bydd rhywun yn sgwennu i fyny i'm cywiro. 'Does dim dyddiad, nac enw na chofnod ar y llun. 'Wn i ddim a oedd rhwyun yn absennol y diwrnod hwnnw pan ddaeth y dyn tynnu lluniau i'r ysgol ai peidio. Ychydig o bobl, o bosib, oedd yn sylweddoli y gallai llun fel

hwn, ymhen hanner can mlynedd, fod o ddiddordeb i unrhyw un ar wahân i'r plant a'u teuluoedd. Mae'r bobl sy'n ymddiddori heddiw mewn hanes bro yn gresynu cymaint o wybodaeth werthfawr aeth i golli trwy ddiffyg sylweddoli pwysigrwydd llun, dyddiad a chofnod. Diolch fod rhai rhieni, athrawon a phrifathrawon erbyn heddiw yn sylweddoli mor bwysig yw hanes bro i blentyn. 'Does gen i ddim cof i mi erioed glywed gair am y chwarel yn yr ysgol, er bod tad bron bawb ohonom yn gweithio ynddi. 'Does gen i ddim cof chwaith fod neb wedi dysgu enwau'r mynyddoedd, llynnoedd, afonydd na ffermydd i mi. Ychydig, os dim, a ddwedwyd wrthym am enwogion y fro. Eglurwyd erioed i ni pam yr adeiladwyd gymaint o gapeli yn y pentref - prys yr adeiladwyd hwy a chan bwy. Wrth edrych yn ôl heddiw gallaf feddwl am gymaint o waith diddorol allai rhywrai fod wedi ei wneud â ni. Gwaith fyddai wedi bod yn bleser llwyr i rywun fel fi, ac mor werthfawr heddiw i'r rhai sy'n ymddiddori mewn hanes bro. Pam, tybed, na chawsom hanes y drên gyntaf yn dod i Lanberis, y bws cyntaf a cheisio darganfod pwy oedd perchen y car cyntaf yn y pentref? A sôn am drên, faint o'r darllenwyr bellach sy'n cofio stesion Llanberis yn ei bri? Pwy sy'n cofio'r olygfa ar fore Sadwrn trip yr Ysgolion Sul a'r cannoedd yn heidio i'r stesion, y bwrllwm, y chwerthin, y cadw reiat; a phentref Llanberis fel y bedd wedi i bawb fynd? A beth am dwf y siopau yn y pentref? Mewn sawl parlwr ffrynt oedd yna siop, a beth werthwyd ynddynt? Pa bryd y cafwyd, a pha rai oedd y siopau mawr, pwysig? Pryd agorwyd y siop 'fish a chips' gyntaf? Beth oedd ymateb y pentrefwyr iddi? Beth oedd eu hymateb i'r "pictiwr" pan agorwyd o gyntaf?

Fel y dywed William Williams, awdur 'Llanberis a'i Amgylchoedd', "Gresyn na buasai y gorchwyl wedi ei gyflawni hanner canrif yn ôl. Difawr ffeithiau heb ei fath yw amser."

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL BRO MADOG 1987

Cyhoeddodd Swyddfa Eisteddfod Bro Madog 1987 restr gyflawn o Lywyddion Anrhydeddus yr Wyl.

Dyma Enwau'r rhai a dderbyniodd y gwahoddiad.

Cadeirydd Cyngor Sir Gwynedd; Cadeirydd Cyngor Dosbarth Dwyfor; Cadeirydd Cyngor Dosbarth Arfon; Cadeirydd Cyngor Dosbarth Meirion; Cadeirydd Cyngor Tref Porthmadog; Y Fonesig Olwen Carey Evans; Mr Owen Elias Owen; Mr John Watkin Jones; Mr Tecwyn Ellis; Y Barnwr Dewi Watkin Powell; Mr Dafydd Wigley, A.S.; Mr Dafydd Elis Thomas, A.S.

am
Nenfydau Artex
cysylltwch ag
A. LEWIS
12 Lôn y Bryn,
Porthaethwy 712598

CYMANFA YSGOLION SUL DOSBARTH PADARN

Cynhaliwyd y Gymanfa yng Nghapel Cysegr M.C., Bethel dydd Sul, Mai 4, 1986. Arweinydd y Gân oedd Mr David W. Williams, Deiniolen a'r organyddion oedd Mrs Rita Williams a Mrs Glenys Griffith. Llywyddwyd cyfarfod y prynhawn gan Mr Goronwy Jones a chyfarfod yr hwyr gan Mr John Owen. Yn ystod cyfarfod y prynhawn cafwyd anerchiad gan y Parch. W.R. Williams. Cymerwyd rhan yn y gwasanaethau dechreuol gan blant a phobl ifanc Ysgol Sul Cysegr a chafwyd eitemau yn yr hwyr gan aelodau'r Ysgol Sul. Dyma'r canlyniadau.

Arholiad Llafar dan 4: 1. Sioned Catrin Davies, Cysegr; Owain Gethin Williams ac Alaw Mai, Cefnywaun; Steffan Keller a Julie Jones, Disgwylfa.

Dan 5: 1. Llinos Mair Williams, Anest Williams, Gwynfor Jones, Laura Millican, Meilyr Emrys, Gerallt Hughes, Dewi Griffiths, Gareth Jones, Catrin Roberts, Bethan Williams a Vanessa Brown, Cysegr; Elgan Morgan Williams, Ysgoldy; 2. Sion Charles Thomas a Richard Jones, Disgwylfa.

Dan 6: 1. Dylan Pyrs Elis, Dafydd Thomas Jones, Rhys Lloyd Jones, Elin Angharad Roberts, Ellen Jones, Lowri Williams a Richard Charles Parry, Cysegr; Bethan Foulkes Williams, Disgwylfa; Rhian Wyn Davies, Brynrefail; 2. Elfed Jones Williams, Disgwylfa.

Dan 7: 1. Sarah Pepper ac Elinor Mary Williams, Capel Cych; Owen Rhodri Roberts, Carwyn John Morris a Julie Ann Roberts, Cysegr; 2. Peter Jones, Disgwylfa ac Elen Salisbury, Cysegr.

Dan 8: 1. Manon Lloyd Williams, Capel Coch; Catrin A Hughes a Gwenan Elis, Cysegr; 2. Andrea Brown, Cysegr; 3. Robert Owen, Disgwylfa; Lisa Owen a Nia Jones, Cysegr; 4. Julie Ann Owen, Cysegr; Tania Thomas, Disgwylfa.

Dan 9: 1. Llinos Ann Roberts a Llinos Angharad Roberts, Cysegr; 2. Sonia Lynne Roberts, Cysegr a Dafydd Euron Williams, Brynrefail; 3. Elena Williams, Disgwylfa.

Dan 10: 1. Owain Gwyn, Brynrefail; Jecinta Kisalu, Capel Coch; Julie Ann Jones a Menna Dauncey Williams, Cysegr; Eilir Wyn Williams, Cefnywaun; 2. Nicola Houston a Marian Lloyd Jones, Brynrefail; Arfon Roberts a Leah Millican, Cysegr; 3. Catrin Keller, Disgwylfa.

Dan 11: 1. Aled Griffith, Bethan Jones, Manon Elis, Esyllt Môn Jones, Ruth Wyn Parry, Sioned Meleri

Owen, Cysegr; Llinos Haf Jones, Rehoboth; Gwawr Pierce Williams, Cefnywaun.

Cyddadrodd dan 9: 1. Parti Llinos Angharad a Parti Gwenan, Cysegr.

Cyddadrodd dan 11: 1. Parti Julie, Parti Aled, Cysegr; Parti Brynrefail.

Cyddadrodd dan 16: 1. Parti Brynrefail.

Dan 12: 1. Glenda Jones, Capel Coch; Ian Roberts, Amanda Williams, Ceryl Roberts, Ian Jones, Cysegr; Eira Wyn Evans, Brynrefail; Mared Sutherland, June Williams a Vera Jean Williams, Cefnywaun; 2. Karen Ann Price, Rehoboth; Haf Llywelyn Owen, Cysegr.

Dan 13: 1. Gwen Jones, Cysegr; Paula Walters, Meira Evans, Catrin Gwyn, Brynrefail; Dylan Williams, Ysgoldy; Dylan Wyn Williams, Cefnywaun; 2. Kelvin Roberts, Cysegr; Iwan Williams, Cefnywaun.

Dan 14: 1. Angharad Elis, Eirlys Jones, Carys Owen, Elwyn Hope Parry ac Aled Jones, Cysegr.

Dan 15: 1. Meinir Dauncey Williams, Cysegr; 2. Einir Gwyn, Brynrefail; 3. Caron Jones, Brynrefail; 4. Glenda Walters a Joanne Evans, Brynrefail.

Dan 50: 1. Mair Wyn Davies, Lowri Prys Roberts, Carol Houston, Pat Jones, Brynrefail; Olwen Bryn Roberts, Dinorwig; Nora Wyn Parry, Nan Owen a Myfanwy Jones, Cysegr.

Cyddadrodd dan 50: 1. Parti Brynrefail; 2. Parti Cysegr.

Dros 50: 1. Betty Lloyd Roberts, Dinorwig; Elsie Davies, Ysgoldy; Goronwy Jones, Cysegr.

ARHOLIAD YSGRIFENEDIG

Dan 9: 1. Catrin Angharad Hughes, Cysegr; 2. Dafydd Euron Williams, Brynrefail a Macari Owen, Disgwylfa.

Dan 11: 1. Llinos Haf Jones, Rehoboth; Angharad Clare Rudkin, Capel Coch; Owain Gwyn a Marian Jones, Brynrefail; 2. Catrin Lowri Keller, Barry J. Thomas, Disgwylfa; Nicola Louise Houston, Brynrefail; Gwawr Pierce Williams, Cefnywaun; 3. Eilir Wyn Williams, Cefnywaun.

Dan 14: 1. Catrin Gwyn, Brynrefail; Mared Wyn Sutherland, Cefnywaun; 2. Iestyn Roberts, Alan Wyn Pritchard, Rehoboth; 3. Paula Walters, Brynrefail; June M. Williams, Cefnywaun.

Carai Pwyllgor y Gymanfa ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd i wneud y Gymanfa'n llwyddiant. Diolch arbennig i blant ac athrawon Ysgol Sul Cysegr am gymryd rhan yn y cyfarfodydd. Hefyd cafwyd te ardderchog rhwng y ddau gyfarfod - diolch i bawb a'i paratôdd, am weini ar y byrddau ac i'r rhai a roddodd roddion tuag ato. Diolch yn fawr i bawb.

IEUENCTID Y FRO'N MWYNHAU HWYL A GWAITH



Cymdeithas Ieuenctid Capel Coch. Yn ystod y misoedd diwethaf y mae aelodau'r gymdeithas wedi trefnu nifer o weithgareddau i godi arian tuag at Apêl Sganiwr Ysbyty Gwynedd. Yr ymdrech ddiweddaraf oedd Taith Gerdded noddedig, o Lanberis i Ddinorwig, ac yn ôl trwy Fachwen. Y maent hefyd yn darparu paned o de wedi'r oedfa un nos Sul y mis. Gobeithir cyrraedd y nod o £200 erbyn diwedd Mai. Diolchir i bawb sydd wedi cyfrannu tuag at yr ymdrechion yn ymarferol ac yn ariannol. Yn y llun gwelir y cerddwyr ar ddechrau'r daith.

IECHYD DA



Bu rhai o aelodau Clwb Hwyl Hwyr Capel Coch yn dilyn Cynllun Iechyd, wedi ei drefnu gan Gyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill. Ar Mai 2 aeth chwech o blant i Salem Caernarfon i dderbyn eu tystysgrifau. Yr oedd plant o Gaernarfon a Phenrhyndeudraeth wedi ymuno â'r cynllun, a threuliodd amser difyr iawn yn canu a chwarae gemau.

Yn y llun y mae — Carys Parry, Dylan Williams, Rhian Thomas, Aneurin Foulkes, Elaine Bee a Manon Williams. Y cam nesaf iddynt hwy fydd gweithio tuag at y Dystysgrif Arian.

O DDEINIOLEN A LLANBERIS I'R PILI PALAS



Aeth nifer o blant o'r ddau bentref i'r Pili Palas yn ystod Gwyliau'r Pasg. Wedi mwynhau 'darlith' gan Frenin y Palas, y Parch Huw J. Hughes, cafodd pawb gyfle i weld yr arddangosfa a chwydro'r Palas. Cyn dychwelyd tuag adref bu pawb yn gwario yn y bwyty ac yn prynu anrheg i mam a dad. Gwir yw dweud bod pawb yn hen ac ifanc wedi mwynhau eu hunain yn arw ac yn edrych ymlaen am daith o'r fath eto. Yr oedd y daith yn rhan o weithgareddau 'Hwyl Pasg' a drefnwyd yn ystod y gwyliau.

HEN BENILLION — GWADU CARU

Maent yn dwedyd ac yn dwndur Mai rhwng dwy y bŵm i neithiwr Dyna wir na wiw mo'i wadu — Roedd dwy gynfas ar y gwely.

Maent yn dwedyd ac yn dwndur Mai'n y coed y bŵm i neithiwr. Dyna wir na wiw mo'i wadu O goed i gyd y gwnaed y gwely.



Bistro

Glandŵr



43-45 Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871278
(Danny a Nerys Roberts)

Amser Cinio o ddydd Llun i ddydd Gwener
Gwahoddir partïon o rhwng 6 a 15 i wyllo Nerys yn coginio
ac ymuno yn y gwaith — Pris £7.50 yn cynwys cinio.
Bob nos ag eithrio nos Sadwrn pryd blasus 3 chwrs yn
defnyddio bwydydd tymhorol gorau £8.00

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

FFAIR WANWYN: Bu'r ffair wanwyn a drefnwyd er budd Capel M.C. Tan-y-coed yn un llwyddiannus iawn. Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at ei llwyddiant. Calonogol iawn oedd gweld cynulliad dda wedi dod ynghyd.

Gwerthfawrogydd gwaith yr ardal a'r aelodau am fod mor gefnogol i'r fenter. Diolch yn fawr. Agorwyd y ffair gan Mrs Gillian Morris.

DIOLCH: Dymuna Mrs Katie Humphreys, Caermaen, Ceunant ddiolch i bawb a gofiodd ei phen-blwydd arbennig yn 80 oed ar Fai 15. Diolch am y cyfarchion a'r dymuniadau da.

Pob bendith i Mrs Humphreys i'r dyfodol, dyna ddymuniad ei chymdogion a'i chyfeillion yn yr ardal.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr Alan Jones, mab Mrs Mair Jones, a'r diweddar Mr Robert Jones, Bonc am redeg yn y Ras Fawr yn Llundain yn ddiweddar. Rhedodd yr Yrfa mewn 2 awr a 52 munud. Yn Kent y mae Mr Alan Jones yn cartrefu.

MUDO: Dydd Sadwrn, Mai 17 symudodd Mrs K. Jones, Colwyn, Bryngwyn yn ôl i Coventry o ble y daeth hi a'i diweddar bried yma ddwy flynedd yn ôl. Chwith colli Mrs Jones o'n mysg a hithau wedi dechrau cartrefu yn ein plith. Ein dymuniadau gorau iddi i'r dyfodol yn

ei hen gynefin.

Dau arall symudodd wythnos ynghynt i fyw i Gaernarfon yw Mr a Mrs Arfon Jones, 6 Tai Bryngwyn - Mr Arfon Jones yn frodor o'r ardal, a Mrs Jones wedi dod yma yn ifanc iawn ac wedi cartrefu'n hapus yn ein mysg. Chwithdod mawr yw eu colli o'n plith. Pob bendith iddynt yn eu cartref newydd, a'u cylch newydd. Parhaed Mr Jones i wella.

YSGOL SUL TAN-Y-COED: Pnawn Sul, Mai 4 yn Engedi Caernarfon yn y Gymanfa Cylch Caernarfon gwobrwydd â ganlyn o Ysgol Sul Tan-y-coed am eu llwyddiant yn yr Arholiad Llafar -

Rheon Parry, M. Sian Pritchard, Justine S. Williams, Steven P. Williams, Llion W. Pritchard, Jonathan P. Williams, Aled Parry ac Annwen Parry.

Yng nghyfarfod yr hwyr gwobrwydd Annwen Parry, John E. Jones, Aled Parry, Mark W. Jones a Tudor W. Jones am eu llwyddiant yn Arholiad Ysgrifenedig yr Ysgolion Sul.

Cynhaliwyd Cyfarfod Gwobrwy'r Plant fu'n llwyddiannus yn Arholiad Sirol Ysgolion Sul Henaduriaeth Arfon ym Methel Penygroes Mawrth 6.

Y plant a wobrwyyd o Ysgol Sul Tan-y-coed oedd Annwen Parry, John E. Jones, Aled Parry, Mark W. Jones a Tudor W. Jones.

Y BLAID YN DATHLU

- COFIO LLOSGI'R YSGOL FOMIO -

Bydd Plaid Cymru yn cynnal nifer o ddigwyddiadau ym Mhwlheli i gofio hanner canfed pen-blwydd llosgi ysgol fomio Penberth.

Bydd y rhaglen, a gynhelir ar benwythnos 5-6 Gorffennaf, yn cynnwys gorymdaith a rali, noson lawen, dawns roc a gwasanaeth heddwch.

Disgwylir cenedlaetholwyr o bob rhan o Gymru ym Mhenberth am 1.00pm ddydd Sadwrn, 5 Gorffennaf i orymdeithio i ganol Pwllheli, lle cynhelir rali yn y maes (am 2.30pm).

Ymysg y siaradwyr yn y rali bydd Mair Jones, merch Saunders Lewis, cyn-lywydd Plaid Cymru ac un o'r rhai a losgodd yr ysgol fomio ynghyd â'r Parch Lewis Valentine a Dr D.J. Williams.

Bydd llywydd Plaid Cymru Mr Dafydd Elis Thomas, yr A.S. lleol Mr Dafydd Wigley, cyn-lywydd y Blaid Mr Gwynfor Evans, y Cyng.

O.M. Roberts a dau o ddarpar ymgeiswyr seneddol Plaid Cymru, Hywel Teifi Edwards (Caerfyrddin) ac Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn) hefyd yn annerch y rali.

Gyda'r nos, bydd Noson Lawen yn Neuadd y Dref, Pwllheli, lle bydd Dafydd Iwan, Is-lywydd Plaid Cymru, ac artistiaid eraill yn ymddangos. Arweinydd y noson fydd Charles Williams.

Cynhelir dawns roc yng nghlwb rygbi Pwllheli ar gyfer cefnogwyr iau y Blaid gyda Geraint Lovgreen a'r Ficar.

Daw digwyddiadau'r penwythnos i ben gyda gwasanaeth heddwch yng Nghapel Salem, Pwllheli am 3.30pm ddydd Sul dan arweiniad y Parch. Meirion Lloyd Davies.

DIHAREB GYFOES
Gwell crafu byw na byw'n crafu!

APÊL SGANIWR CORFF

HWYL Cynhelir noson HWYL

'SGANIWRAMA'

gydag eitemau

gan Ffylliaid y Fro '86

yn Ysgol Brynrefail, nos Iau,
Hydref 9ed am 7.30

Arweinydd: Mr Arwel Jones

Oedolion £1,

Plant 50c

DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

Yn ystod y mis diwethaf mae'r Cynghorydd Glyn Tomos wedi bod mewn cysylltiad â Chyngor Arfon a Chyngor Sir Gwynedd ynglŷn â'r materion canlynol:

Cynllun ad-ennill tir, Chwarel Fawr ac Allt Ddu - Fel yr oedd sawl un ohonoch o'r ardal wedi sylwi - yn arbennig y rhai ohonoch sydd yn gerddwyr brwd, fe gaewyd y giât sydd yn arwain i'r tir yma o gyfeiriad Allt Ddu yn ddiweddar yn ogystal â'r giât sydd wrth Pant Sardis. O ddeall hyn, cysylltodd Mr Tomos â Chyngor Arfon ac mewn canlyniad i drafodaeth a gafodd gydag un o swyddogion y Cyngor ar y safle fe gafwyd yr addewidion canlynol:

a) Bod Cyngor Arfon am drefnu bod dwy giât dro yn cael eu gosod ar y safle, un yn Allt Ddu a'r llall yn ymyl Pant Sardis. Bydd y giatau hyn yn cael eu gosod yn ymyl y ddwy giât sydd ar glo ar hyn o bryd.

b) Bydd camfeydd yn cael eu neilltuo ar gyfer amryw o lwybrau ar y safle.

c) Mae'r Cyngor Sir yn fodlon codi a chynnal arwyddion yn nodi 'llwybrau cyhoeddus' ar y llwybrau sydd yn arwain i'r safle.

ch) Mae gweithwyr Cyngor Arfon wedi bod yn ceisio gwella arwynebedd llwybr sydd yn arwain o Chwarel Fawr i Gapel Dinorwig ac wedi darganfod mai tasg anodd iawn yw ceisio gwneud hynny. Ceisiwyd gwella yr arwynebedd drwy osod cerrig mân arno ond y drwg yw bod y cerrig hyn yn cael eu sgubo i ochr y llwybr gan y tywydd gwlyb. Felly yr unig oibaith arall yw y bydd y gwair sydd yn tyfu ar y domen wrth ymyl yn cario drosodd at y llwybr gan orchuddio yr wyneb a'i wneud yn haws i'w gerdded.

Mae Cyngor Arfon wedi addo y bydd y gwelliannau a nodir uchod yn cael eu cario allan mor fuan ag sydd bosibl. Yn naturiol 'rydym yn fawr obeithio y digwydd hynny gan mai ein baint yw cael cerdded y llwybrau hyn yn ddiagramgydd. Mae'n dda gweld cynifer ohonoch yn cerdded llwybrau cyhoeddus yr ardal - daliwch ati - mae'r hawl gan bob un ohonoch i wneud hynny.

Tirlithriad ar ben Allt Galt y Foel - Fel y cofiwch, digwyddodd tirlithriad yma ychydig fisoedd yn ôl, ar ôl y tywydd gwlyb a gawsom. Canlyniad hyn yw bod cerrig wedi syrthio i'r ffordd fawr a hynny mewn manau peryglus iawn o safbwynt trafniadaeth. Mae Mr Tomos wedi anfon gohebiaeth at y Cyngor Sir ynglŷn â hyn ac wedi cael ar ddeall bod y mater yn cael sylw Syrffwr y Sir. Ymddengys y bydd yn rhaid gohebu ymhellach ynglŷn â hyn gan mai yr un yw'r sefyllfa o hyd.

Stad ochr ffordd rhwng Maes Eilian a phen Allt Galt y Foel - Y broblem yw y pyllau dŵr mawr sydd i'w gweld ar ochr y ffordd yn aml iawn y dyddiau hyn. Wrth gwrs, 'rydym wedi cael dipyn o law yn ystod y misoedd diwethaf, ond ar ôl dweud hynny ymddengys bod y sefyllfa yma yn hen broblem sydd angen sylw buan. Yma eto mae Syrffwr y Sir wedi addo edrych mewn i'r mater.

Arwynebedd y ffordd o Gapel Sardis hyd at ben Lôn Cefn Waun - Gohebwyd â Syrffwr y Sir ynglŷn â stad difrifol arwynebedd y ffordd yma fel canlyniad i'r eira a'r glaw trwm a gawsom yn ddiweddar. Fodd bynnag, tra yn paratoi y nodiadau hyn ymddengys bod y Cyngor Sir yn cychwyn ar y gwaith o wneud gwelliannau i'r ffordd arbennig yma.

Cofiwch os nad yw'r gwelliannau hyn a nodir uchod yn cael eu gweithredu, yna yn ogystal â thynnu sylw ein Cynghorydd atynt, mae'n

ddyletswydd ar bob un ohonom ninnau fel ardalwyr i ohebu â'r awdurdodau perthnasol i nodi ein cwynion.

St Mair: Fe gafwyd y Cymun Bendigaid nos Sul y Sulgwyn a'r Archddiacon Elwyn Roberts, Bangor yn gwasanaethu. Yn ystod y mis hefyd fe gafwyd dwy ŵyl gerdd - un noson wedi ei neilltuo i'r plant a noson arall ar gyfer yr oedolion. Mehefin 15 fe fydd gŵyl bregethu St Mair gyda Chymun a Phregeth am 9.30 y bore a gwasanaeth gosber am 4.45 y pnawnpryd y disgwylir y Parch Ganon Richard Jones, y Felinheli (y Deon Gwlad) i wasanaethu.

LLONGYFARCHIADAU: i Eleri a Shân Evans am ennill 'Seren Aur' ar dystysgrif Arholiad Llafar Cymanfa Ganu'r Bedyddwyr a gynhaliwyd yng Nghaersalem, Caernarfon ddydd Sadwrn Mai 3. Hyderwn y caiff Sara Wood hithau farciau boddhaol yn Arholiad Ysgrifenedig Undeb Bedyddwyr Cymru yng Nghymanfa Ganu'r Presbyteriaid a gynhelir yng Nghapel y Cysegr, Bangor.

CYMANFA DOSBARTH PADARN: Aeth y wobwr gyntaf yn yr Arholiad Llafar i Miss Olwen Roberts, Tŷ'r Ysgol, yn y dosbarth dan 50 tra'r enillodd Mrs Beti Lloyd Roberts, 11 Maes Eilian y wobwr i rai dros 50 oed.

GWELLHAD buan i Mr John Peris Roberts ar ôl llawdriniaeth feddygol yn yr ysbyty. Bydded iddo yntau weld diwedd ar ei anhwylder. Deallwn bod Miss Salome Jones, Bro Elidir bellach yng Nghartre'r 'Maesinla' Caernarfon. Gobeithiwn y bydd bywyd yn esmwythach iddi yn y fan honno.

CAPEL DINORWIG: (M.C.) Fe gynhaliwyd te'r chwiorydd ar Fai 1af, ac fe'i rhoddwyd gan Mrs Elizabeth Jones, 9 Maes Eilian a Mrs Beti Lloyd Roberts, 11 Maes Eilian. Mai 15 roedd te ola'r tymor a Mrs Hannah Roberts, Tŷ'r Ysgol, ynghyd â Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir yn gyfrifol amdano. Diolchir yn galonnog am bob rhodd tuag at de'r chwiorydd.

Miss o gryn brysurddeb fu hi yn Sardis hefyd. Rhai ohonom yn ymweld â chynhadledd Cymanfa Bedyddwyr Arfon a gynhaliwyd ym Mhenberth, Bangor ddydd Mercher, Mai 14. Y noson ddilynol yn Sardis roedd y gweinidog, y Parch Ifor Lloyd Williams, BA, yn gweinyddu'r ordinhad o fedydd, ar sail ei gred yng Nghrist ymostyngodd un o ddeiliaid yr Ysgol Sul i'w fedyddio ar Sul, Mai 18. Fe ddethlid yr ŵyl yn Sardis â chyrddau pregethu. Un a godwyd yn Sardis oedd cennad yr ŵyl eleni sef y Parch Emlyn Jones, Llangloffan. Fe allwn dystio i ni gael cyfres o bregethau grymus a theimlem oll fendith ar y traethu a'r gwrando.

DIOLCHIADAU: Dymuna'r cyn-ohebydd Mr O.R. Williams, 29 Rhydfadog, Deiniolen ddiolch o galon i gyfeillion ac ardalwyr Dinorwig am eu dymuniadau da a chardiau ar ei ymadawiad â'r ardal.

Hefyd mae Mrs Medwen Griffiths, Foel, eisiau diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd tuag at y rhai â nam meddyliol. Cyfanswm y casgliad oedd £40.26c.

Dymuna Eric Iolen a Monice ddiolch am y rhoddion gwerthfawr, cardiau ac arian, a dderbyniasant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

AR WERTH

Telyn Madog, 36 o dannau. Fel newydd. £480. Ffôn Caernarfon 3577.

ECO'R IFANC

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

Cymdeithas y Gedeoniaid: Dydd Mercher, Mai 14 ymwelodd Mr Soper, aelod o Gymdeithas y Gedeoniaid â'r ysgol am y trydydd tro i gyflwyno Testament Newydd i ddisgyblion y flwyddyn gyntaf mewn gwasanaeth arbennig.

Eisteddfod yr Urdd: Llwyddodd tri disgybl o'r ysgol i fynd ymlaen i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Methesda. Bydd Manon Llwyd a Sharon Vaughan yn cystadlu ar y ddeuawd biano, bydd Manon yn cystadlu ar yr unawd biano yn ogystal. Unwaith eto bydd Graham

Williams yn cystadlu ar yr unawd drwmped. Pob lwc i'r tri ohonynt. **Cerddorfa Rhanbarth Arfon:** Ar nos lau, Mai 15, cymerodd nifer o ddisgyblion ran mewn cyngerdd a gynhaliwyd ym Mangor. Roeddynt yn chwarae gyda Cherddorfa Rhanbarth Arfon ac yn ystod y cyngerdd cafwyd unawd ar y trwmped gan Graham Williams.

Arholiadau Lefel 'O' ac 'A': Yn ystod mis Mehefin bydd disgyblion y pumed a'r ail-chwched yn wynebu cyfnod pwysig o arholiadau. Pob lwc i bawb a gwnewch eich gorau!

YMPRYD NODDEDIG



Yn dilyn rhaglen deledu, gwnaed cais gan rai o ddisgyblion y pumed dosbarth i drefnu ymryd nodedig. Ar y diwrnod penodedig cymerodd tua hanner cant o ddisgyblion a chwech o athrawon ran yn yr ymryd a oedd yn parhau am bedair awr ar hugain.

CHWARAEON

Criced: Cwpan Banc Barclays (dan 16 oed). Colli fu hanes yr ysgol yn erbyn Ysgol David Hughes, Porthaethwy. Fe sgoriodd Ysgol David Hughes 134 o rediadau gydag Ysgol Brynrefail i gyd allan am 98 o rediadau. Stuart Williams oedd y prif sgoriwr gyda 28.

Yn ystod y Sulgwyn bydd Stuart Williams, sy'n aelod o garfan Cymru, yn mynychu cwrs tri diwrnod o dan ofal Tom Cartwright, yr hyfforddwr cenedlaethol.

Cyfarfod Athletau: Cynhaliwyd y cyfarfod ddydd lau, Mai 22. Diwrnod oer a gwyntog oedd hi ond er gwaethaf hynny cafwyd perfformiadau canmoladwy. Y marciau terfynol oedd: **Eryri 186, Elidir 178, Gwryfai 167½, Eilian 155½.**

Perfformiadau Canmoladwy: Paul Hughes (Bl. 1) ennill 100m a 200m
Amlyn Evans (Bl. 3) ennill 100m a 200m
Christopher Tilston (Bl. 3) ennill disgen a phwysau
Paul Grant (Bl. 4) ennill 400m, 800m a 1500m
Neil Warnop (Bl. 6) ennill Naid Uchel, Naid Driphlyg a Phwysau 10

— 17 a hanner o bwyntiau i Eilian. Michael Coombes (Bl. 6) ennill 18 a hanner o bwyntiau i Eilian. Patrick McGuiness (Bl. 5) ennill y Bicell, ail yn y Ddisgen Eifion Griffith (Bl. 3) ennill 14 o bwyntiau i ERYRI
Lynda Prydderch (Bl. 1) ennill 800m, 1500m, a Naid Hir a 21 o bwyntiau i Elidir.
Jennifer Clarida (Bl. 2) ennill 200m, 400m, 800m a Naid Hir a 19 o bwyntiau i Elidir
Rhian Morris (Bl. 1) ennill 100m (record) a 200m
Nia Owen (Bl. 4) ennill Picell a Phwysau a 13 o bwyntiau i Gwryfai
Adran Iau
Chris Hobby (1500m), Michael Wroe (Naid Hir), Martin Owen (400m), Aled Jones (Naid Uchel), Arwel Jones (N. Driphlyg), Dylan C. Jones (800m), M. Porter (Picell).
Angharad Ellis (Disgen), Delyth Williams (Pwysau), Lynne Jones (Picell), Meinir Williams (100m (R))

Adran Hyn

Chris Jones (Disgen), M. Coombes (100m), Stuart Williams (Naid Hir) Patrick McGuiness (Picell), Michael Thornton (Disgen).

Estynnwyd dwylo o gyfeillgarwch i drueiniaid y Trydydd Byd gan ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn ystod wythnos 'Sports Aid'. Derbyniwyd her Bob Geldof o ddifrif drwy gynnal nifer o weithgareddau gan gynnwys Ras Hwyl, taith feicio, ymryd nodedig a chyfarfod athletau nodedig. Hyd yn hyn, mae dros £400 wedi ei gasglu (cewch wybod y swm terfynol yn y rhifyn nesaf). Diolch i bawb fu mor garedig a noddi'r disgyblion.



CYFEILLION Y TRYDYDD BYD



Dyma'r holl ddisgyblion gafodd eu noddi ac a fu'n cystadlu yn y cyfarfod athletau.

BEICWYR DIFLINO



Dyma 6 o fechgyn fu ar daith feicio o Lanberis i Feddgelert ac yn ôl ddydd Sadwrn, Mai 17eg. Llwyddwyd i gasglu £75 at gronfa 'Sports Aid'. Y bechgyn oedd Stacy Turner, Edward Rogers, Steven Wroe, Geraint Saynor, Bruce Turner ac Alan Baylis.

PENCAMPWYR



Cefn: Jennifer Clarida, Paul Grant, Neil Warnop, Chris Tilston, Amlyn Evans.
Blaen: Rhian Morris, Helen Mai Pritchard, Kelvin Houston a Paul Hughes.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

VICTOR LUDORUM

Yr enillydd oedd Kelvin Houston (Cwm-y-glo). Roedd yn fuddugol yn 800m, Naid Hir, Naid Uchel a'r Naid Driphlyg. Dipyn o gamp i fachgen ar ei flwyddyn gyntaf.

PORTREADAU

Yn ddiweddar cafodd rhai o ddisgyblion blwyddyn gyntaf Ysgol Brynrefail y dasg o ysgrifennu portread o'u harwyr. Dyma ymateb dau ohonynt, a'r ddau wedi mynd i gyfeiriadau tra gwahanol.

Winnie Mandela

Mae'n ddynes hardd iawn a gelwir hi yn Fam y Genedl. Mae ganddi ddau lygaid brown, bywiog, sionc a chanddi groen llyfn fel babi. Wrth feddwl ei bod dros hanner cant oed mae'n ddynes eithriadol o hardd.

Mae'n hawdd sôn am Winnie am ei bod mor gryf â chraig ac yn bwerus, ac yn hardd ac am ei bod yn symbol o'r frwydr yn Ne Affrica. Mae'r geiriau hyn wedi eu hysgrifennu amdani ymron bob erthygl amdani ac eithrio ffeiliau'r heddlu. Mae'n debyg mai 'terfysgwraig' rhywun sy'n codi trwbwl 'comiwnydd' sydd yn eu ffeiliau hwy.

Cafodd ei geni yn y Transkei yn 1934, symudodd i Johannesburg gan fod ei thad am iddi fod yn weithiwr cymdeithasol. Roedd hyn yn antur fawr i ferch ddu yn Ne Affrica yr adeg honno. Gwnaeth gwr yn Ysbyty Baragwanath sydd heddiw yn un o ysbytai mwyaf Affrica. Yn naturiol clywodd Winnie am yr 'African National Congress' a helpodd y mudiad. Un dydd cafodd alwad gan Nelson a oedd yn ffigur cryf a phawb yn ei edmygu. Roedd yr A.N.C. angen mwy o arian a gofynnodd Nelson am help gan Winnie, cytunodd hi a dyna pryd y cyfarfu'r ddau. Pan oedd y ddau hefo'i gilydd yn canlyn ac fel yn eu priodas roedd eu hamser hefo'i gilydd yn cael ei dorri gan ddigwyddiadau politicaidd. Ni chafodd y ddau fyw gyda'i gilydd llawer gan fod Nelson yn cael ei roi yn y ddalfa am fradychu'r wladwriaeth Apartheid. Mae Apartheid yn system lle mae pobl wyn yn Ne Affrica yn rheoli'r bobl dduon. Nid oedd bobl ddu yn cael pleidleisio yn Ne Affrica tan yn ddiweddar. Maent wedi eu gwahanu hyd heddiw. Mae trefi i'r

gwyn a threfi i'r du. Mae'r bobl wyn yn byw mewn cartrefi moethus ac yn cael bywyd braf. Tra bod y bobl dduon yn byw mewn cytiau, yn cael dim gwerth i'w fwyta, yn cael dim pres i gynnal eu teuluoedd, yn gorfod gyrru eu plant i gael addysg mewn ysgolion hefo dim ond athro neu athrawes, sialc a bwrdd du. Mae hyn yn wir am y Gwasanaeth Iechyd ac am lawer o bethau eraill yn Ne Affrica ble mae'r gwyn yn cael bywyd llawer, llawer iawn mwy moethus, ac yn cael yr hawl iau y dylai pob person gael.

Priododd y ddau yng nghanol y treial a chawsant fyw gyda'i gilydd am chwe diwrnod. Yna cafwyd Mandela yn ddi-euog yn 1961 a daeth adref a dyna ddiwedd eu hamser byr gyda'i gilydd. Wedi hynpy siaradodd Mandela yn gyhoeddus, ysgrifennodd lythyrau i'r llywodraeth a gadawodd y wlad heb yn wybod i neb. Ond cafodd Nelson ei ddal yn y diwedd a chafodd ei garcharu am ei oes. Am fod Mandela yn arweinydd mor gryf mae gan y llywodraeth ofn iddo arwain De Affrica i ryddid. Ond mae dylanwad Mandela yn gryf yn Ne Affrica er ei fod yn dal yn garcharor. Ond daeth Winnie i fod yn arweinydd ar ei ôl. Mae'n bwerus, cryf a dewr fel ei gŵr. Mae wedi cael ei harestio sawl gwaith am fradychu'r wladwriaeth a bu'n y carchar am ddeunaw mis.

Dyma un peth oedd gan Winnie i'w ddweud am y dyn gwyn. "Pan fydd dyn gwyn yn colli ei bwr gwnaiff ei golli am byth. Pan gaf i a phobl ddu De Affrica un pwr byddem yn ei gadw am byth."

LOWRI WILLIAMS, 1P

CYSTADLEUAETH PÊL-DROED 7-BOB-OCHR TLWS ECO'R WYDDFA

I dimau o bentrefi'r
Eco (oed ysgol
gynradd)

Cynhelir y
gystadleuaeth yn
gynnar ym mis
Gorffennaf

Manylion yn y rhifyn
nesaf

BYDDWCH YN BAROD!

YN EISIAU ERBYN MIS MEDI

Gohebydd i fod yn gyfrifol am
dudalen 'Eco'r Ifanc'
Os oes diddordeb cysylltwch
ag Edward Elias, Gwên y
Wawr, Llanrug
Ffôn: 3719

Fy Nhaid

Y peth mwyaf nodweddiadol am fy nhaid yw ei wallt clauerwyn. Mae'n galed a stiff fel weiers, a phan mae angen ei olchi mae'n troi'n felyn yn y blaen. Mae ganddo aelïau gwrychellog gwyn, a llygaid gwyrdd a brycheidiau brown trwyddynt. Mae ei drwyn fel petai'n rhy fawr i'w wyneb yn llawn llinellau gwridog tenau. Wrth ei lygaid y mae rhychau chwerthin a chrychau dwfn ar ei dalcen. Mae ganddo wên lydan rhadlon a danedd gwyn llachar. Gan ei fod wedi bod yn llafurio gydol ei oes mae'n gyhyrog iawn. I brofi hyn pan oeddwn yn iau roedd taid yn arfer gafeal yn fy nwylo yna roeddwn yn cerdded i fyny ei fol wedyn pwlin din dros ben rhwng ei freichiau. Pan oeddwn tua blwydd oed roeddwn yn arfer gofyn "Ga'i weld bawd?" oherwydd ei fod wedi torri pen hwnnw i ffrwdd. Yn ei ôl ef â bwyell a wnaeth hyn, ond nid wyf yn siŵr os mai hyn yw'r gwir.

Ar y cyfan rhyw greadur ddigon distaw yw taid, ond ar adegau prin ar ôl jariat neu ddau bydd ei dafod yn llacio. Bydd wrth ei fodd yn adrodd hanes ei hun yn y 'Merchant

Navy'. Droeon eraill yn ôl yn y chwarel y byddwn. Mae'n debyg mai o ddyddiau'r chwarel y mae wedi magu'r ddawn o dynnu coes. Mae'n hoff iawn o ddarllen - hanesion y môr yn bennaf. Ond mae'n hoff o 'Readers' Digest' - yn enwedig yr 'Humour in Uniform' a 'Life's like that'.

Wrth gyfarch Taid a gofyn "Sut mae?" bydd, gan amlaf, yn dweud "Gall'sai fod yn well, gall'sai fod yn waeth." Oherwydd fod ganddo goesau byrion bydd Nain yn dweud fod ganddo 'glwy'r hwyaden'. Mae ganddo yntau ateb parod hefyd,

"Well gen i fod yn hwyaden na gefail bedoli - yn geg a choesau i gyd!" Peth arall fydd Taid yn ei ddweud na chlywais neb arall yn ei ddweud yw,

"Paid a siarad â'th geg yn hanner llawn, llenwa hi!" Ac os bydda i'n sefyll rhyngddo a'r teledu bydd yn dweud, "Fe wnei di well drws na ffenest."

Cyn mynd i mewn i dŷ rhywun bydd Taid bob amser yn tynnu crib drwy ei wallt. Amser bydd Nain fydd yn siarad, a Taid yn gwrando wrth anwylo ei fwg o de. Ac os digwydd rhywun siarad â Taid pan mae'n darllen ei bapur newydd, bydd yn edrych dros ei sbectol gyda rhyw olwg o "Ydi o yn bwysig 'rwan?"

RHODRI AP LLWYD, 1E

CORNEL FARDDONIAETH

JAC CODI BAW

Dacw fi'n dod
yn drwm ac yn drwsgwl
ar draws y wlad
ei siwt ddisglair
yn adlewyrchu ar y pridd,
fel fflachlamp yn fflachio -
ym mhen y stryd!
Gwddf mawr hir,
a'r grafanc fawr,
fel gwddf Jiraff
yn troi acyn trosi,
wrth rwygo'r pridd.
Dwy droed fawr
yn sefyll yn gryf ac yn gadarn,
ar y llawr gwlyb, mwdlyd.

GWEITHIWR CALED

yn codi creigiau mawr trymion,
fel sached o blu!
Sŵn yn diasbedain yn fy nghlust.
Bang.
Crash,
Bang,
Bang!
Dacw fe'n mynd yn ôl
i fyny'r stryd!

GLENDIA JONES, 1P

TRÊN

Pry genwair yn llusgo'i hun
drwy'r mynydd ar draciau.
Twrw fel bocs matsys yn cael ei
ysgwyd.
Seinio cyfeillgar - Tw-t Tw-t.

Yna, arafu.

Neidr 'inter city 125' yn ei phasio

CYFFURIAU A THODDYDDION

Ydych chi wedi gweld pethau a allasai arwain i sefyllfa waeth? Ydych chi wedi clywed, neu efallai'n amheus? Ydych chi angen gwybodaeth? Peidiwch ag oedi, da chwi. Dowch i gysylltiad ag unrhyw un o'r canlynol: PC Oscar Evans (Swyddog Cyswllt Heddlu) Caernarfon 3333; Gwyndaf Jones (Uwch Swyddog Lles) Caernarfon 4121 est 2215; W.E. Thomas (Prifathro Ysgol Brynrefail) Caernarfon 2381.

ar wib.

Cyflymu eto,
yna'n nosi.

Ei llygaid yn goleuo'n llachar fel
cath.

Olawynion fel platiau metel
yn crinjan yn swnllyd ar ystôl o
fetel.

Troed ar y brec, golau coch.

Aros

yna cychwyn.

Stopio mewn sasiwn o stesion.
Pobl yn disgyn fel morgrug o'r
trên.

Amser cysgu.

GOLAU ALLAN

Distawrwydd tan y bore bach.

AWEN WILLIAMS, 1E

HOFRENNYDD

Cylyll arian yn chwildroi
ac yn troelli
yn torri trwy'r awyr
fel hebog yn chwilio
am

darged anffodus,
i'w fol newynog.

Cip sydyn ohono
ar ei ffordd i frwydr
gyda'i ynau
yn fflachio.

Llygaid gwyrdd yn sgleinio
ym mlanced drwchus
a fagddu'r nos.

PAUL ALLAN ROBERTS, 1P

VICTRIX LUDORUM



Helen Mai Pritchard — ennillydd y
Victrix Ludorum am y drydedd gwaith

LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Dylai'r llyfrau isod fod ar gael naill ai yn eich llyfrgell neu yn eich siop lyfrau lleol.

Myrddin ap Dafydd, *Ail Godi'r To*. Gwasg Carreg Gwalch, 60c.

Alun Wyn Bevan a Mel Morgans, *Dewch i Chwarae Rygbi*. Y Lolfa, £1.85.

Cynllun y Canllaw: Y Llyfr Cofnodi. Gwasg Gomer, £1.61.

Casgliad o brofion a luniwyd yn arbennig fel y gall athrawon glustnodi gwendidau a bylchau yn natblygiad iaith plentyn er mwyn medru cywiro'r nam mewn pryd.

John Dewhurst, Ieuan Bryn (Addas.) *Llyfr Cyflwyno Plentyn i'r Micro BBC*. Y Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol £3.00.

Dysga'r plentyn sut i ysgrifennu rhaglenni, gwneud lluniau, chwarae alawon, a chant a mil o bethau eraill.

R. Alun Evans (Gol.) *Rhwng Gŵyl a Gwaith*. Cyfrol 3. Llyfrau'r Dryw Newydd £3.50.

Y trydydd detholiad o sgysiau o'r gyfres radio Rhwng Gŵyl a Gwaith.

Elwyn Ashford Jones (Addas.) *Nain ar Goll!* Gwasg Gomer £1.50.

Mae nain Huw ar goll ers blwyddyn. A oes gobaith dod o hyd iddi? 'Na' medd pawb, ond mae Huw yn well ditectif na'r un ohonynt.

hDyddgu Owen (Cyf.) Jac Jones (Darluniau) *Chwedlau Grimm*. D. Brown a'i Feibion Cyf., £9.95.

Y casgliad Cymraeg cyntaf o chwedlau'r Brodyr Grimm.

Tim Saunders *Cliff Preis Darlithydd Coleg*. Y Lolfa £3.45.

Mae Cliff Preis, Gohebydd Arbennig y Morning Journal yn troi'n ditectif eto yn yr ail lyfr yn y gyfres hon, Cyfres Cliff.

J. Beverley Smith. *Llywelyn ap Gruffudd: Tywysog Cymru* Gwasg Prifysgol Cymru £15.95.

Y bywgraffiad safonol cyntaf o Lywelyn ap Gruffudd, y cyntaf yn hanes y genedl i arfer y teitl Tywysog Cymru.

Eirlys Trefor, Eurgain Fowler (Cyf.) *Leicacs i De*. Gwasg Gwynedd £3.25.

Cyfieithiad Cymraeg o'r nofel Light Cakes for Tea gan Eirlys Trefor.

TEITHIO DYFFRYN OGWEN

Cyrhaeddodd yr wythfed a'r diweddaraaf a'r mwyaf swmpus hyd yn hyn yn y gyfres Teithiau Llenyddol Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru. Cyhoeddiad arbennig ydyw i gyd-fynd ag Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhelir yn Nyffryn Ogwen yn ystod wythnos olaf Mai.

J. Elwyn Hughes yw ein harweinydd ar daith bleserus iawn sy'n dechrau wrth droed Tryfan ac yn gorffen ar Ffordd Bangor. Rhwng y ddau bwynt yma bydd yn rhaid inni aros 72 o weithiau mewn llyfdd diddorol fel Penra, Tyrpeg Ty'n Tŵr, Tŷ John Iorc, Ysbyty'r Chwarel, Bryn Meurig, Llyn Cororion, Cochwillan, Rachub a Mynwent Coetmor i enwi ond ychydig.

Ceir map o'r daith ac wyth o luniau bychain gan E. Meirion Roberts.

Gwerth pob dimai am 60c.

GRYM TRYCHINEB



Y mae Gorsaf Niwcliara Trawsfynydd newydd gael ei phen-blwydd yn 21 oed, flwyddyn yn hyn na'i hoes arfaethedig. Ynghyd â phum gorsaf niwcliara arall (Magnar) sef, Berkeley, Bradwell, Dungeness A, Hinkley A, a Sizewell A sydd ym meddiant y CEBG, y mae Trawsfynydd yn enghraifft ddisglair o dechnoleg hen-ffasiwn y chwedegau sy'n disgwyl trychineb oherwydd ei hoed.

Nodwedd ryfedd Trawsfynydd ydi mai hi ydi'r unig un a godwyd ymhell o'r môr ym mynyddoedd Cymru ac ym Mharc Cenedlaethol

RECORDIAU NEWYDD O WEUNYDD ERYRI I BRIFWYL BETHESDA

Cyhoeddir record hir gyntaf 'Lleisiau'r Gweunydd' ar label Sain ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Methesda ddiwedd Mai.

'Lliwiau' yw enw'r record newydd sy'n cynnwys trefniadau o ganeuon hen a newydd. Einir Wyn-Owen o Riwlas wrth ymyl Bangor yw arweinydd y côr. Bu'n enillydd cyson mewn eisteddfodau ledled Cymru dros y blynyddoedd ac mae llwyddiant Lleisiau'r Gweunydd yn deillio o'i phrofiad hi a dawn lleisiol y merched.

Ymysg y caneuon sydd ar y record newydd y mae cyfansoddiadau newydd fel y brif gân, 'Lliwiau' gan Einir a'r gân 'Olwyn' gan Einir a Rol Williams.

'Ar hyd y blynyddoedd mae trigolion trefi a phentrefi ardaloedd chwarelyddol Arfon a Meirion wedi dangos eu hoffter o gerddoriaeth a'u brwdfrydedd trwy fynd allan ymhob tywydd ar bob adeg o'r flwyddyn i Eisteddfod a chyngherdd, i ymarfer côr a chyfarfod seindorf, meddai Tony Elliot yn ei nodiadau ar glawr y record. 'Nid rhywbeth yn perthyn i'r gorffennol mo hyn chwaith. Heddiw yn ardal papurau bro Eco'r Wyddfa a Llais Ogwan ceir sawl seindorf arian, parti merched a chorau meibion a chymysg. Yn sicr, bydd mwy a mwy o bobl ar ôl clywed lleisiau'r merched dawnus o lethrau a gweunydd Eryri yn ymwybodol o dalent Lleisiau'r Gweunydd', medd Tony.

Bydd record a chaset y merched ar werth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Methesda a gobeithia'r côr ganu'n gyson i hybu gwerthiant 'Lliwiau'. LLEISIAU'R GWEUNYDD - 'LLIWIAU' Sain 1367D-C967

Eryri. Hyn sy'n ei gwneud yn unigryw.

Ar 21ain o Chwefror dathlodd hon ei phen-blwydd yn 21 oed trwy ollwng 15 tunnell o nwy ymbelydrol i awyr pur a difrycheulid y mynyddoedd o'i chwmpas. Pitw, wrth gwr, oedd llygiad yr amgylchedd! Cawn ddisgwyl 'digwyddiadau' fel hyn yn gyson o hyn ymlaen, fel yr ymlusga'r dechnoleg simsan hon rhagddi, hyd nes tynnu'i thraed ati erbyn diwedd y ganrif. Oni ffrwydra cyn hynny, wrth gwr.

£5.45.

PESDA '86 - RECORD GYNTAF MWG

Dwy o ganeuon gan bartneriaeth newydd Steve Roberts a Ieuan Wyn o Fethesda a glywir ar Pesda '86, record gan y grŵp roc Mwg i groesawu pawb i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni.

Ffurfiwyd Mwg saith mlynedd yn ôl; o'r grwpiau roc cyntaf i ddod o ardal dalentog Bethesda.

Dim ond Steve Roberts a Les Morrison sydd ar ôl o'r grŵp gwreiddiol. Ymunodd Huw Smith a Gareth Hughes â'r grŵp ar gyfer eu cyngerdd cyntaf ers blynyddoedd yng ngŵyl Pesda Roc 1985.

Ers hynny bu'r grŵp yn brysur yn lleol, ac yn ddiweddar daeth y newyddion da fod dwy gân o eiddo'r grŵp (sydd ar y record newydd) wedi dod â llwyddiant i'w rhan. Enillodd Pesda '86 y gystadleuaeth i ddarganfod 'cân groeso' i Brifwyl Dyffryn Ogwen. 'Roedd y gân arall, 'Darn o'r Haul,' yn un o'r chwech a gyrhaeddodd rownd olaf 'Cân i Gymru' ar S4C yn ddiweddar. Pluen arall yn het Steve a Ieuan ac aelodau Mwg.

MWG - PESDA '86 a DARN O'R HAUL Sain 126S £1.49.

Rhagor o wybodaeth am y grŵp: Steve Roberts, 7 Pen y Graig, Bethesda, Bangor, Gwynedd. (0248)600173.

Rhagor o wybodaeth am y recordiau yma: Tudur Morgan, Sain (0286)831 111.

WYT FREINIOL WR

Cod dy ben i fyny
Cans Cymro ydwy't ti,
Un o feibion gwlad y bryniau,
Gwlad heb ei gwell yw hi.

Doniau amhrisiadwy
Oedd eiddo'th dadau glân,
Etifeddiaeth wych sy gennynt,
Trysordy cerdd a chân.

Pan ymhlith estroniaid
Ymhell o Walia Wen,
Fe fydd 'r holl rinweddau ddysgaist
Yn darian rhag pob sen.

Cod dy ben i fyny,
Wyneba'r byd yn hy,
Rho ddiolch i'th Greawdwr am
Mai Cymro ydwy't ti.

B.J. Owen
7 Dorney Grove
Weybridge
Surrey

Am Ffenestri, Drysau, Grisau
neu unrhyw fath o gynnyrch coed
Ffoniwch

BRYN

B & K WILLIAMS
HEN YSGOL GLANMOELYN,
LLANRUG

Caernarfon 77482 (dydd) Llanberis 870793 (nos)

Diolch am eich cefnogaeth tra 'roedd y busnes yn Nhanrallt, Cwm-y-glo. Gobeithiwn y daliwch i'n cefnogi yn ein cyfeiriad newydd.



**BECWS
DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

CYMDEITHAS HANES BRO 'ECO'R WYDDFA'

Daeth nifer dda o'r aelodau (ac eraill) i Neuadd Ysgol Gynradd Llanrug ar gyfer recordiad o'r rhaglen radio 'Bric-a-Brac'. Wedi eu gosod ar fyrddau o amgylch y neuadd roedd celfi, llestri ac amryw betheuach eraill yn disgwyl llygad craff yr arbenigwr - a'r gobaith am bris go dda i roi hwb i galon y gwahanol berchnogion.

Yn dilyn, cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol - y cyflymaf a'r mwyaf didrafferth yn hanes unrhyw gymdeithas rwy'n siŵr. Rhag ofn i'r rhai ohonoch oedd yn bresennol golli'r digwyddiad - dyma ddigwyddodd - Mabwysiadwyd y daflen ariannol; derbyniwyd adroddiad y trefnydd, ail-etholwyd yr holl swyddogion, a chodwyd yr un pwyllgor â'r llynedd ar wahan i un newid - Mrs Mair Read i gynrychioli Bethel yn lle Mr Ieuan Williams.

ADRODDIAD Y TREFNYDD

Mae cyfansoddiad y Gymdeithas bellach wedi ei lunio, ac mae eisoes wedi ei drosglwyddo i'r Comisiynwyr Elusennau. Disgwylir eu sylwadau o fewn y deufis nesaf.

Oherwydd fod y Gymdeithas yn dibynnu ar dâl aelodau heb gantyll gan Gynghorau lleol am ei chyllid, mae posibilrwydd erbyn blwyddyn ariannol 1987-88 y gellir cyfodi i fod yn aelod. Bydd hyn yn ychwanegu at incwm y Gymdeithas, ond yn costio dim mwy i'r aelodau.

Gweithgareddau

Oherwydd haf difrifol 1985, prin bod unrhyw bentref wedi medru cynnal gweithgareddau allanol, ac aeth sawl cynllun i ganlyn y gwynt a'r glaw, ond gyda gobaith am well tywydd eleni, efallai y gellir cynnal rhai o'r gweithgareddau gohriedig!

1. Diddordebau aelodau

Derbyniwyd nifer o daflenni'n dangos maes diddordeb yr aelodau. Apeliar ar i'r gweddill eu hanfon yn ôl i mi.

Mae'n ymddangos o'r rhai sydd eisoes wedi eu hanfon yn ôl fod cryn ddiddordeb mewn llwybrau cyhoeddus. Bwriedir trefnu teithiau ar hyd rhai o'r llwybrau hyn - taith rhyw awr neu ddwy yn ystod nosweithiau'r haf. Cysyllter â mi.

2. Casgliad o hen luniau

Ym mis Hydref 1983, trefnodd Pwyllgor Arfon o Gyngor Gwlad Gwynedd arddangosfa ym Mhenygroes o hen luniau yn ymwneud â Dyffryn Nantlle. Arweiniodd y gweithgarwch yn fuan at sefydlu 'Cymdeithas Hanes Dyffryn Nantlle'. Mae'r Cyngor

Gwlad yn awyddus i drefnu arddangosfa gyffelyb yn ardal hon, a gofynnwyd i'r Gymdeithas helpu gyda'r trefniant. Bydd angen sefydlu panel o gasglwyr ym mhob pentref. Bwriedir i'r cyfan fod yn barod erbyn gwanwyn 1987.

3. Cofnodi arysgrifau cerrig beddi

Yn ei anrchiad i'r Gymdeithas fis Chwefror, gwnaethpwyd apêl gan Mr. Iwan Roberts (Swyddog Prosiectau Gymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd) ar i rai o'r aelodau gynnig cymorth i gofnodi arysgrifau cerrig beddi, yn enwedig mewn mynwentydd nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio. Beth am i waith o'r fath fod yn rhan o weithgaredd pentref yn ystod yr haf? Am fwy o fanylion ynglŷn â sut i wneud y gwaith, cysylltwch â mi.

Gweithgaredd yr haf, Llanrug:- Ymweliad â Charreg Arthur

Bwriedir cerdded at Garreg Arthur ar lethrau'r Cefn Du fel rhan o weithgaredd pentref yn ystod yr haf. Mae croeso i aelodau o bentrefi eraill ymuno â ni - dwch â'ch ffrindiau neu rai nad ydynt yn aelodau. Pawb i ymgynnull am 6.30 ger Capel Tan-y-coed ar nos Lun, Mehefin 9 - os bydd y tywydd yn caniatáu! Byddwn yn dilyn nifer o lwybrau cyhoeddus, a gall rhai rhannau fod yn wlyb dan draed, felly gwisgwch ddillad addas. Croeso i blant hefyd.

CANGEN CYLCH CAERNARFON Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (W.E.A.)

Nos Lun, Mai 12 cyfarfu pwyllgor o'r gangen uchod yn Llyfrgell Arfon-Dwyfor, Caernarfon.

Amcan y pwyllgor oedd trefnu gweithgareddau am y misoedd nesaf. Yr oedd nifer dda yn bresennol a chafwyd trafodaeth ddifur a brwdfrydig.

Etholwyd y canlynol fel swyddogion -

Llywydd: Mr Rol Williams, Ardwyn, Waunfawr; Is-lywydd: Mr Eirwyn Jones, 13 Glan Seiont, Caernarfon; Trysorydd: Mr Gwilym Owen, 9 Glan Seiont, Caernarfon; Ysgrifynyddes: Mrs Gillian Morris, Anedd Wen, Tal-y-bont, Llanrug.

Bwriedir cynnal cynhadledd un-dydd ym Mhlas Menai ar Medi 20 a cheir ychwaneg o fanylion eto. Cynhelir y pwyllgor nesaf ar Fehefin

ATGOFION AM CHWAREL VIVIAN

gan Goronwy O. Williams

ROEDD yr Ail Ryfel Byd wedi darfod ers pum mis, a daeth rhyw ddeg ohonom adre tua'r un amser wedi cael "dimobs". Ar ôl cael rhyw seibiant bach, mynd i'r chwarel i chwilio am waith, mynd i muriau at y stiward hefo'n cardiau ac yntau yn ein gyrru i'r 'office fawr' i ofyn am ein gwaith yn ôl. Yr oeddem i gyd o'r un farn: bod peth felly yn ffieidd iawn, a dyma wrthod yn bendant, a ffwrdd â ni dros Bont y Bala ac adre; gan ein bod yn teimlo i be roeddem ni wedi bod yn y fyddin. Ta waeth, mi gawsom air o'r chwarel i ofyn inni ddechrau y dydd Llun wedyn.

Ar ôl mynd yno yn un haid nid oedd lle inni gan fod pob ponc yn llawn ac yn methu cael llechi, a dyma ein rhoi ar 'essential work' i aros am 'fargen'. Yn y cyfamser fe benderfynodd yr oruchwyliath ail agor Chwarel y Vivian i gael lle inni yn rhywle.

Gan ein bod yn mynd i'r fyddin yn fechgyn ifanc iawn, ar draws rhyw ugain oeddyd ni i gyd, felly nid oedd gennym fawr o brofiad, a dyna ddod â rhyw chwech o ddynion profiadol yno hefo ni. Fe enwaf y rhai 'rwyf yn eu cofio: Michael Pritchard (Meic Bach Rali fel y'i gelwid ef). Y fo oedd y giaffar gennym ni'r Yfory. Cymeriad doniol iawn a chlywech ei lais ef bob amser yno, mae yn byw heddiw yn Llanberis yn naw deg pedwar mlwydd oed. Harry Pac Newydd, Robert Jones, Glan Dŵr a Richard Bleddyn ei fab, Alec a Moi Parry o Fethel, Twm ac Eifion, dau frawd o Fethel eto, Owen Richard o'r Felinheli, ef oedd y dyn First Aid ar y Ponc. Now Jones, Snowdon, Llanberis, Hugh Parry o Gwm-y-glo, Elis Goronwy a Phillip o Lanberis, Jack Roberts, Dick Bach a Goronwy y tri o Fethel a finnau, - chwarelwyr oeddynt i gyd. Dynion wrth y dydd. Dafydd Davies yn dreifio'r winch, Dafydd Roberts yn pwyso a rhoi y 'Tais' allan, Hugh Buck yn dreifio'r Diesel i fynd â'r cerrig i'r sied a'r baw i ben doman,

CYMDEITHAS Y CYMOD YNG NGHYMRU

Mae Cyngor Cymdeithas y Cymod yng Nghymru, a gyfarfu yn y Coleg Diwinyddol Unedig yn Aberystwyth ar Fai 10 eleni, yn cefnogi'r gwrthwynebiad i adeiladu'r Bynar Niwcliar yng Nghaerfyrddin, ac yn gresynu at y cyfyngu difrifol ar hawliau sifil y gwrthwynebwyr.

30. Y mae croeso cynnes i aelodau o'r dosbarthiadau lleol i fynychu'r cyfarfodydd a'r pwyllgorau a gynhelir gan y gangen.

Emrys Jones oedd yn ben don domen a "Tŷ Crwn" yn fforddolio.

Daw tri chymeriad arall i'm cof, sef Robws o Nant Peris a Twm Patwm o Lanberis, fe gaech hwyl a straeon di-ddiwedd gan y ddau yma. Y trydydd oedd John Jones, Goodman, yr oedd o wedi bod ar y môr yn y Rhyfel Byd Cyntaf, ac roedd mewn oed mawr. Pan fyddai rhywun yn prynu rhaff newydd, y fo fydda'n rhoi llygaid arni fel dolan ar y blaen, fedra neb ond llongwyr wneud hyn.

Roedd y caban yn nes i'r ysbyty chwarel, caban braidd yn fychan, ond mi roedd pawb yn stwffio iddo. 'Alabama' oedd ei enw a dwn i ddim sut y cafodd yr enw hwnnw, mae rhai yn dweud mai'r chwarelwyr oedd yn gweithio yno ar blaen roes yr enw arno. Lle braf iawn fethio.

Cyn cloi, mae gen i stori fach am amryw o hobiau bach o'r dre ddaeth yno i weithio o'r ysgol, a dyna chi hwyl oedd hefo'r cofis bach. Fe roddwyd un o'r enw Wyn i'w ddysgu hefo Dick fy mrawd, roedd yr hobiau bach yn gwneud pêl glwt hefo hen lawas côt ac wedyn cael gêm pêl-droed amser cinio. Rhyw ddiwrnod, dyna ddyn reit ddeddfol at Dick a dweud wrtho, "Nei di ddim chwarelwr o'r bachgen bach yna." A dyma ateb Dick yn ôl, "Ella wir, ond efallai y gwna'i ffwtbolero ohono." Yn wir i chwi, Wyn Davies oedd y bachgen bach, pêl-droediwr enwog sydd wedi chwarae dros Gymru ac mewn clybiau mawr Lloegr.

PLAID CYMRU

Pwyllgor Merched Arfon
Stondin Cacennau, Bwyd a
Chynnyrch Gardd
ar y Maes, Caernarfon
Bore Sadwrn Mehefin 28
Derbynnir cyfraniadau i'r stondin
yn ddiolchgar gan
Mary Vaughan Jones a Jill
Brown, Waunfawr
Nan Humphreys, Vera Williams
ac Olwen Llywelyn, Llanrug
Diolch yn fawr

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

GWASANAETH TRIN GWALLT YN EICH CARTREF

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd

Ffordd
Glanmoelyn

Llanrug

Ffoniwch

CAERNARFON 3674

i drefnu amser



W.J. GRIFFITH

PLYMAR

A GOSODWR

GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL

SYSTEMAU

GWRESOGI OLEW

GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

TALWRN Y BEIRDD LLANRUG v BRO ALAW

Mewn cystadleuaeth yng Ngwesty'r Foelas, Llanrug, ddiwedd Ebrill, bu tîm Llanrug yn cystadlu'n erbyn beirdd Bro Alaw. Llanrug a orfu o 85 marc i 84. Dyma gynnrych beirdd Llanrug:

1. *Cwpled caeth yn cynnwys y gair 'bore'.*

I'r claf does dim arafach
Nag orie y bore bach.

Tony Elliot

2. *Limrig.*

Aeth Siencyn am dro i'r cae 'redig
Medda fo wrth y boi seiciatrig:
"Mae hynny'n ddadlennol,"
Meddai'r cwac yn ysgubol,
"Mae'ch bywyd mewn rhigol mae'n
debyg."

Twrog Jones

3. *Englyn.*

Onid oes o'th galon di - f'anywlyd
Fwyn alaw'n telori?
Un gân! Yr hol o'i geni
Oleua nos 'nghalon i.

Len Jones

4. *Pennill Ymson.*

Fel ar berl o fewn ei chragen,
Fel ar goncer ucha'r goeden,
Fel cath ar 'goldfish' yn ei fowlen
Y sylaf heno yn Neiniolen -
Fel tase Dean heb freichiau Torvil,
Fel tase Jona heb ei forfil,
Fel tase Nero heb ei ffidil
Y sylaf, nionyn, yn fy mhicil -
Y Kw Starc i Ffyrge a'i chariad,
Fel T.J. i sesh a meddwad,
Fel Cowboi Ron i ddiaflogiad
Y mae 'mherthynas i a'm gorlad -
Fel David Gower am rediade,
Fel Bwthyn Sais am ddedwydd hafe,
Fel beirdd Sir Fôn am ddeg o farcie
Y mae fy siawns am wely adre.

John Roberts

5. *Cywaith Rhydd: Telyneg Dau bennill: Llongyfarch.*

Mae'r gefnen werdd run fath o hyd,
Mae'r gorwel fel y bu erioed,
Yn pennu libart perl o fyd
A lein o lyn a cwafers coed.
Hedd gwledig fel hir, swrth brynhawn -
Llonyddwch gorffenedig llawn.

Rhu'r 'jet' yn rhwygo hedd y fro,
A'i sarnu mewn rhigolau gwyn,
Ac oriau'r gwyll i'r rhai o'u co',
A chychod chwil yn treisio llyn.
Yr un hen le a newydd bwn
Y llonydd gorffenedig hwn.

6. *Pennill dychan: Dinas.*

Mae'n amlwg i bob un bellach
Fod 'Dinas' yn rhaglen go smart
Mae pawb "one & all" yn ei brolio
A'r "actors" - "they look the part"
Ond erbyn i'm wneuthur ymholiad
Rhyw bôl-piniwn am S4ec
Does neb wedi "actually" ei gwylio.
Dim ond wedi darllen yn Sbec.

Len Jones

7. *Cywydd: Mawl i'r peiriant golchi llestri.*

Ledi - wele ffybliadur
O wrol dras, gwas di-gur;
Robot yn brysus sgrwbian
Smoty'n ar botyn neu ban;
Mor gwic â'r Fferi Licwid
Mawr dy ddiolch, gwna'r golch i gyd.

Pa fodd i un lwmp o faw
Hidlo drwy'r fath gawodlaw?
Hwyl i'th saim - nis gweli o'th sedd,
Na llanastr cyri llynedd.
Roberts yw'r mec Blw Ribbon,
Rhag y jawl - math Richard John.

R. John Roberts

8. *Triban Beddargraff: Gwerthwr Injaroc.*

Gwerthwraig Injaroc (Pwllheli)
Daeth Ffawd i faes Pwllheli
Am wyth, a'r wythfed oedd hi,
Sut medrwn fyth anghofio'r det,
Bys bymbar et aeth drosti.

Twrog Jones

9. *Cân: Gollwng y gath o'r cwd.*
Riportar papur newydd
A thrwyn am stori beunydd;
Cans crafod iawn fy nyddiol druth
- Ond byth ni ddwedaf gelwydd.

Caf hanes y byddigion
A beiau cudd gwleidyddion,
Y fi sy'n tyrchu am y gwir
Yn rhandir y cysgodion.

Hen deulu'r Plas Brenhinol
Sy'n ddeunydd sgwps diarhebol;
Gwn am eu cyfrin achau glas
- Caf flas ar stwff 'moesegol'.

Rhoi'r igian wnaif i Hickey
A Dempster sy'n fy ofni,
A chilwg ddu gaf gan Jean Rook
- Daw anlwc o fy nghroesi.

Mae Godfrey Smith yn holi
Dragwydd am fy nhras i;
A Lady Olga Maitland ddaw
Yn waglaw o'm cyfweid i.

Goronwy Huws a'i debyg
Ryfeddant at fy rhyfgy
Yn mynnu printio pob rhyw glec,
Am secs a drygs llygredig.

Ond wir i chi 'rhen hogia,
Mae'n rhaid i mi gyfadda
Nad ydwi'n ddim ond pwt o rog
A 'Draenog' "Eco'r Wyddfa".

Dafydd Whiteside Thomas

10. *Hir a Thoddaid: Tymhorau.*
Hen glic curiadau calon y ddaear
Ac oriau byd, deddfol griw o bedwar:
Geni anhygoel y gwanwyn hygar
A nwyf digwmwl yr haf digymar.
Yna gwin yr hydref gwar - am foment
Ger oerli mynwent gwae'r hirlwm anwar.

Iolo Huws Roberts

11. *Englyn Cywaith: Ymbelydredd.*
Mae'r ddaear er mor araf - yn dawel
Flodeuo, ond ofnaf
Rith o heth ar drothwy haf
A niwl ein gaeaf olaf.

**Cefnogwch ein
Hysbysebwy**

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

NANT PERIS

Gohebydd: Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrigydrudion

CYDYMDEIMLWN fel ardal â Mr Cledwyn Roberts a Mr Arthur Wyn Roberts a'r teulu ar golli eu mam, Mrs Annie Roberts, Gwyndy a Brynfforch, Nant Peris gynt.

LLONGYFARCHIADAU: i Billy a Cheryl Jones, 1 Bro Glyder ar achlysur eu priodas yn ddiweddar, a hefyd i Mr a Mrs Welsby a chroeso iddynt i'r Nant. Byddant yn ymgartrefu yn 1 Rhes Glanrafon. Dymuniadau da i'r ddau bâr i'r dyfodol.

APÊL Y SGANER: Ar hyn o bryd mae £326.00 yn y gronfa.

REHOBOTH: Llongyfarchiadau i Llinos Haf ar ei llwyddiant yn yr

Arholiad Sirol dan 11 oed. Derbyniodd Dystysgrif yn y Cyfarfod Gwobrwyo ym Mhenygroes.

Llongyfarchiadau hefyd i blant yr Ysgol Sul ar eu llwyddiant yn arholiadau'r Gymanfa.

Dan 11 - Y wobr gyntaf i Llinos (Arholiad Llafar ac Ysgrifenedig). Dan 14 - Y wobr gyntaf i Karen Price (Arholiad Llafar, gyda chanmoliaeth). Dan 14 oed - Cydradd ail i Alan ac Iestyn yn yr Ysgrifenedig.

Da iawn blant, daliwch ati!

DYWEDDIAD: Llongyfarchiadau i Elfyn Willilams, Pennant a Bethan Jones, Mountain View, Rhosbodrual ar eu dyweddïad.

YMRYSON CŴN DEFAID Y NANT

Cynhaliwyd Ymryson Cŵn Defaid Nant Peris a'r Cylch ddydd Gwener Mai 23 a 24. Eto eleni bu'r treialau yn llwyddiannus iawn a gwelwyd cystadleuwyr yno o ledled Cymru ynghyd â rhai o Loegr.

Roedd brwdfrydedd o'r newydd ymhlith yr ifanc a tharian fawr y Gwesty Victoria a fu'n bennaf gyfrifol am hyn. Tlws parhaol ydyw i'r gorau lleol yn y Dosbarth Agored Ail Ddosbarth. Daeth naw cystadleuydd ifanc ymlaen i gynnig yn yr ail ddosbarth am y tro cyntaf ac fe enillwyd y darian gan JOHN MORGAN, BETHEL.

Hoffai'r Pwyllgor ddatgan eu gwerthfawrogiad gan ddiolch i'r ardalwyr am eu cefnogaeth.

Dyma'r canlyniadau:

Dosbarth Lleol: 1af. John Williams, Cae Perthi, Nant Peris - gyda Jim (Cwpan Gwesty Dolbadarn a Chwpan Rheilffordd yr Wyddfa). 2. Dafydd Pritchard, Tŷ Isaf, Nant Peris - gyda Roy (gwella - Cwmni Youngs), 3. Brian Owen, Dolwen, Nant Peris - gyda Charlie (tancard - R. Williams, Llanbedrog), 4. William Arthur Williams, Cae Perthi, Nant Peris - gyda Boy (coler ci), 5. John Pritchard, Tŷ Isaf, Nant Peris - gyda Bess (gwella - Cwmni Morris, Y Fachell), 6. Steven Williams, Cae Perthi, Nant Peris gyda Ben (ffon - rhodd Gwilym Roberts), 7. John Morgan - Gwastadnant, Nant Peris - gyda Sian (cyllell - rhodd Gwyn Berry), 8. Alan Roberts, Fron Olau, Llanberis - gyda Cap (cyllell - rhodd Gwyn Berry).

Ail Ddosbarth: 1af. J.R. Griffith, Talysarn - gyda June - Cwpan Wavell Roberts; 2. J.R. Griffith, Talysarn - gyda Sam, 3. Gwyn Jones, Rhes y Cae, Ffynngroyw - gyda Meg, 4. Ceri Parry, Afon Wen - gyda Moss, 5. H. Davies, Y Ffôr -



William Owen yn, un ar ddeg oed yn Rasus Cŵn y Nant - Hydref 1951.

gyda Roy, 6. E. Hopkins, Aberystwyth - gyda Tess.

Dosbarth Agored: 1af. E. Lewis, Llanfairfechan - gyda Moss (Cwpan Y Brodyr Morris), 2. E. Griffith, Waunfawr - gyda Tango, 3. C. Humphreys, Machynlleth - gyda Cap, 4. E.W. Edwards, Rhuthun - gyda Ned, 5. Ceri Parry, Afon Wen - gyda Chaf, 6. H. Davies, Y Ffôr, gyda Shep, 7. Gwynfor Pritchard, Chwilog gyda Del, 8. C. Humphreys, Machynlleth, gyda Jill, 9. Ceri Parry, Afon Wen, gyda Dai.

Enillwyr cwpan F.M.C. - i'r cystadleuydd gorau dan 25 oed gan John Morgan, Bethel.

Enillwyr y raffi:

1. Alwenna Leadbitter, Llanddeiniolen; 2. G. Roberts, Snowdon Mountain Railway, 3. B. Roberts, Ystrad, Nant Peris, 4. P.C. Owen, Police Station, Caernarfon, 5. Marie Bayliss - Vaynol Arms, Nant Peris, 6. John & Heather, Snowdon Mountain Railway, 7. Gareth Jones, 15 Llysgarn, Caernarfon, 8. D. Hughes, 2 Maes Eilian, Dinorwig, 9. Shirley Evans, Police H.Q., Colwyn Bay, 10. Bet Morgan, Bethel, 11. E.W. Williams, 18 Lôn y Glyder, Bangor, 12. Shirley Hunt, 1 Bodawen, Rhostryfan, 13. Mrs Pugh, 14 Glanrafon, Llanrug, 15. Tyddyn Cwrtais, Llangadwaladr, Môn, 16. Idris Owen, 14 Y Glyn, Llandudno Junction, 17. John a Heather, Snowdon Mountain Railway, 18. Iwan R. Williams, 18 Glanffynnon, Llanrug, 19. John a Heather, Snowdon Mountain Railway.



John Morgan yn derbyn y darian gan Marie Bayliss

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Jones, B.E.M.

AWR YM MRYN SEIONT

HEDDIW af â chwi ar ymweliad ag Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon ar brynhawn Mercher rhyw bum mlynedd yn ôl bellach.

Treuliais beth amser wrth wely Mr Daniel Jones, 42 Ty'n Rhos, Criccieth. Yr oedd Mrs Jones, ei briod, a'u merch, Mrs Jones, Tremadog yn ymweld ag ef yr un pryd. Mae'n rhyfeddol gymaint o hanesion ac atgofion a gaf wrth fynd i ymweld â hwn a'r llall o wely i wely. Mae stori yng nghalon pob un o'r cleifion.

Gofynnodd D.J. i'w wraig ddweud hanes y dorth frith wrthyf. Dyma'r hanes o enau Mrs Jones: "Llawer blwyddyn yn ôl rhoddais resipi torth frith i chwi i'w rhoi yn eich colofn yn yr 'Herald'. Ymhen peth amser wedyn daeth Mrs Tibbott o Amgueddfa Werin Sain Ffagan acw a gweld y resipi a'm cyfeiriad i yn yr 'Herald' yn eich colofn chwi.

Yr oedd Mrs Tibbott yn casglu defnyddiau i'w llyfr 'Bwydydd Cymreig' ar y pryd a gofynnodd a oedd ge nyf ragor o gynghorion. Dywedodd hefyd ei bod am roi resipi'r dorth frith yn ei llyfr."

Yna gofynnodd D.J. i'w wraig adrodd hanes y blodau, a dyma fo:

"Yr oedd Mrs Jones yn Ysbyty Môn ac Arfon rhyw ddeng mlynedd ynghynt. Cofiodd fy mod i wedi dweud hanes gwibdaith i'r Iseldiroedd yn yr 'Herald'. Addewais ddod â hadau blodau iddi o Holland, ac mi wnes. Cafodd Mrs Jones becyn o hadau briallu tlws, pinc a melyn ac maen nhw yn dal i flodeuo yn yr ardd bob blwyddyn!"

Yr oedd D.J. wrth ei fodd fy mod i wedi cael clywed yr hanes.

JAC WALES

Euthum ymlaen i sgwrsio gyda dyn a elwid gan bawb yn "Jac Wales." Nid oeddwn wedi ei gyfarfod o'r blaen. Ei enw iawn oedd John Lloyd Jones, Malltraeth. Fel hyn y daeth yr enw Jac Wales i fodolaeth:

Mewn cystadleuaeth codi pwysau yn Llandudno lawer blwyddyn ynghynt enillodd John Lloyd Jones y wobwr gyntaf ac meddai'r cyhoeddwr wrth roi'r feirniadaeth "The first prize goes to Wales." Ac ar amrantiad bedyddiwyd ef yn Jac Wales.

Ac meddai John Lloyd Jones wrthyf tan wenu er ei fod yn wael - "Does neb ond y fi yn cael ei gyfarch gan y BBC yn y bore - dywed y cyhoeddwr 'Good morning Wales' a

fi ydi hwnnw - ha, ha, ha!"

HOLAIS EF AM Y CAP
CYNNES OEDD AM EI BEN.
Dyma ei ateb:

"Fy merch Cynthia Owen weuodd y cap. Mae hi yn byw yn Southampton a bydd yn gwneud 'beetroot chutney' o'ch colofn chwi yn yr 'Herald'. Fuo yna'r un gwell na fo erioed, cefais botiad ganddi yr wythnos o'r blaen."

Medda finna, "Mi welaf eich bod yn me dio."

"Ydwyf, yn mendio bob dydd a'r nyrsus bach yma fel angylion yn garedig a gofalus ohonom i gyd."

Y BUDGIE BACH

Wrth wely Mrs Owen, Bryn Peris, Waunfawr y cefais i hanes Pitar y budgie bach. Meddai Mrs Owen, "Mi fu Pitar yn gysur mawr iawn i'm diweddar briod a minnau. Wedi colli fy mhriod, mi fyddai Pitar yn sgwrsio o fore hyd hwyr heb stopio. Mi ddysgodd siarad wrth wrando arnom ni.

"Os dywedwn i 'Pitar Bad Boy', 'ddwedai o' run gair: 'roedd o siwr o fod yn deall beth oedd 'Bad Boy' yn ei feddwl. Mi ddywedai yntau 'Pitar Good Boy' drosodd a throsodd.

'Pan fyddwn i'n dwad i'r tŷ o siopio mi chwibanai dros y ty i roi croeso i mi, 'Wyt ti WEDI dwad,' meddai, gyda rhyw bwyslais arbennig ar y gair **wedi**!

"Hanner awr wedi pedwar bob dydd i'r funud, mi waeddai, 'Isio bwyd, isio bwyd' a mi ddaliai ati nes rhown i liain ar y bwrdd. Os deuai rhywun i' tŷ nad oedd Pitar yn hoff ohono mi waeddai 'Shw, shw', ac os rhown i orchudd ar ei gawell er mwyn iddo dewi mi fyddai'n sori ac yn gwthod dweud gair.

"Bore wedyn dechrau arni wedyn efo 'Sws fach, sws fach'. Actio wedyn, 'Pitar yn sâl. Pitar bach yn well'. Byddai'n cael ei ryddid weithiau i hedeg o gwmpas y tŷ. Dysgodd bigo a thorri papur y wal.

Mi gwelais o yn mynd yn slei tu ôl i'r cyrtan ac yn pigo'r papur yn ddistaw a hedeg wedyn yn ôl i'w gawell i guddio."

Mae'n ffrainc cael mynd i Ysbyty Bryn Seiont i ymweld bob wythnos a chanu gyda'r cleifion, ac i ryfeddu at y fath ofal a charedigrwydd sydd yno tuag at yr henoed sy'n eistedd yn dawel yn eu cadeiriau yn methu symud.

Manteisiaf ar y cyfle i ddiolch i'r staff ym mhob ysbyty trwy'r wlad am wneud gwaith caled mor dawel a siroli.

Llaw a deall dyn perffeithia

Er iachad
A rhyddhad
Nefol Dad i dyrfa.

ELFED

Chwi gofiwch i mi ofyn pwy oedd

awdur yr adroddiad 'Prawf y Diniwed'. Daeth ateb yn syth oddi wrth Mrs M.G. Williams, Gwylfa, Bethel, Caernarfon. Meddai Mrs Williams, "Yr wyf wedi adrodd 'Prawf y Diniwed' lawer gwaith. Celyn Jones yw enw'r awdur. Gwelaf fod dwy linell wedi eu gadael allan. Ar ôl y llinell 'Yn barod i'w defnyddio wrth orchymyn' dylai'r linell yma fod 'Fel pe bai yno lofrudd neu ddihiroyn'. Ac ar ôl y llinell, 'O'i ôl mae ei elynion didrugaredd' dylai'r linell ganlynol fod, 'A'i hynfyd nwyd yn berwi gan gynddaredd'."

Dymunaf ddiolch yn gynnes iawn i Mrs M.G. Williams ac am ei ffyddlondeb i 'Eco'r Wyddfa' ar hyd y blynyddoedd.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL BRO MADOG - GŴYL Y CYHOEDDI -

Dramâu, Twmpath Dawns, Ymryson y Beirdd, cyngerdd gyda chwech o Gorau Meibion, dawns roc, Cymanfa Ganu a pherfformiad olaf Meibion Menlli. Dyna'r arlwy a drefnwyd i ddathlu Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Bro Madog 1987 ddiwedd Mehefin eleni.

Cynhelir Seremoni Cyhoeddi'r Eisteddfod ar gae Bodawen, Porthmadog bnawn Sadwrn, Mehefin 28 am 3.00 o'r gloch a chynhelir gweithgareddau i ddathlu'r achlysur mewn gwahanol ganolfannau yn y dalgylch.

Dechreuir ar y dathlu gyda 'Gwledd o Gân' yn y Ganolfan, Porthmadog nos Fercher, Mehefin 23, pryd y bydd aelodau o chwech o Gorau Meibion y fro yn uno gyda'i g lydd i gyd-ganu. Ar wahân i Gorau Meibion Ardudwy, y Brythoniaid, Dyffryn Nantlle, yr Eifl, Madog a'r Moelwyn, ceir eitemau hefyd gan Barti Meibion Dwyfor a Bryn Terfel a'r arweinydd fydd Geraint Lloyd Owen.

Yn Theatr Ardudwy, Harlech ar y nos Iau perfformir tair comedi fer, sef 'Gwirion Hen' (William Owen), 'Dinas Barhaus' (W.S. Jones) ac 'Yr Eliffant' (Yves Cabrol) tra yng Ngwestry'r Plas Gwyn, Pentrefelin, Criccieth bydd noson o wleda, canu a Thwmpath Dawns ar gyfer y Dysgwyr yng nghwmni Edward Morus Jones, Elfed Roberts a Gwyndaf Huws.

Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth fydd cyrchfan yr ifanc ar y nos Wener pryd y cynhelir dawns gyda Maffia Mr Huws a Wenfflam.

efyd ar y nos Wener cynhelir Ymryson y Beirdd yng Nghanolfan y Ffôr, gyda'r Meuryn ei hun, Gerallt Lloyd Owen. Bydd timau o Arfon, Meirion a Llŷn yn cymryd rhan a recordir y noson gan y BBC. Yn ystod yr egwyl ceir adloniant gan aelodau Aelwyd yr Urdd Y Ffôr.

Cynhelir Cyngerdd y Cyhoeddi yn y Neuadd Goffa, Criccieth ar y nos Sadwrn pryd y bydd Meibion Menlli yn canu gyda'i gilydd am y tro olaf. Hwn fydd 620fed cyngerdd Meibion Menlli ers pan sefydlwyd y parti ym 1956, ac mae chwech allan o'r wyth aelod gwreiddiol yn dal i fod yn aelodau. Ar wahân i gynnal cyngerddau yng Nghymru, mae Meibion Menlli wedi crwydro i dri chlyfandir ac wedi rhoi diddanwch i filoedd o bobl. Mae cân arbennig wedi ei chyfansoddi ar gyfer y ffarwelio, a bydd yn cael ei chlywed am y tro cyntaf yn y cyngerdd.

Yn ogystal â Meibion Menlli bydd John Eifion, Leslie Williams, Morfudd Maesaleg, Morien Phillips, Dawnsyr Aelwyd Caernarfon a Seindorf Bedwas, Tretomos a Machen yn cymryd rhan.

Eifion Thomas, Arweinydd Côr Meibion Llanelli yw Arweinydd gwadd y Gymanfa Ganu a gynhelir yng Nghapel Tabernacl, Porthmadog nos Sul, 29 Mehefin a'r organydd yw Mr Dafydd Lloyd Jones, Bae Colwyn.

Mae'r tocynnau ar gyfer yr holl weithgareddau ar werth yn Swyddfa'r Eisteddfod, 7 Bank Place, Porthmadog (Ffôn: Porthmadog 2245).

TRIP CLWB ERYRI

Trefnwyd trip blynyddol Clwb Eryri i'w gynnal ddydd Sadwrn, Mehefin 14, pryd y bydd yr aelodau yn mynd o gwmpas Sir Fôn yng nghwmni'r Athro Bedwyr Lewis Jones. Bydd y bws yn cychwyn o Lanberis am 12.45 ac yn codi aelodau yn Llanrug a Bethel, yn ogystal. Terfynir y daith gyda chinio mewn gwesty ar lannau'r Fenai. Os oes unrhyw aelod heb hysbysu yr Ysgrifennydd neu'r Trysorydd o'u bwriad i ddod ar y wibdaith, a fyddant cystal â gwneud hynny ar unwaith.

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

**YSGOL YRRU
OFALUS**

- * Gwasanaeth 7 diwnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD


43 Glanffynnon

LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

**AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .**



BWSIAU ARFON

LLANRUG

(ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

W.H. JONES

TRYDANWR

**Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS**

FFÔN:

LLANBERIS 871470

**Contractau
Weirio Tai**

**Cawodydd Trydan
ac ati**

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

PLAID CYMRU: Am eu cyfarfod fis Mai aeth nifer o'r aelodau i Fryn Eirian ar wahoddiad cangen Waunfawr. Trefnwyd cwis rhwng timau o'r ddwy gangen, a chynrychiolwyd tîm Llanrug gan Phyllis Ellis, Dafydd Evans, Gwyndaf Hughes a Twrog Jones, gydag Eurig Wyn yn holwr a Rob Jones yn cadw'r sgôr.

Diolchodd Leslie Larsen yn gynnes i swyddogion cangen Waunfawr am y gwahoddiad ac am y croeso.

Cynhelir cyfarfod y mis nesaf ar nos Fercher, Mehefin 4 pryd y trefnir Helfa Drysor ac edrychwn ymlaen at noson lwyddiannus eto. Am fanylion pellach ffoniwch: Nan Humphreys, Caernarfon 5668 neu Olwen Llewelyn, Waunfawr 200.

LLONGYFARCHIADAU: I Aled a Judy Roberts, Clegir ar enedigaeth mab bychan, Gareth, brawd bach i Hefin.

Llongyfarchiadau hefyd i Gwnas ac Enid Grinvald, Stad Minffordd ar enedigaeth mab, Gareth, brawd bach i Iwan a Catrin.

TE BACH: Nos Iau, Mai 1af cynhaliwyd cyfarfod gan chwiorydd Capel Mawr. Llywyddwyd y cyfarfod ac arweiniwyd mewn defosiwn gan Mrs Gillian Morris. Rhoddwyd y te gan Mrs Gwenda Jones a Mrs Ann Lloyd Griffith.

TRIP YR YSGOL SUL: Cynhelir trip Ysgol Sul Capel Mawr ar Orffennaf 5. Anfoner yr enwau i Mrs Flo Roberts, yr Arolygydd (Ffôn 4324) erbyn Mehefin 1af.

ADREFE O'R YSBYTY: Y mae'n dda gennym glywed fod Mrs Parry Jones, Groeslon Marc wedi dychwelyd adref o'r ysbyty ac wedi gwella erbyn hyn.

YN YR YSBYTY: Mae Mrs Lydia Jones, Hafan Elan yn wael yn Ysbyty Gwynedd. Rydym yn meddwl amdani yn ei gwaeledd.

LLONGYFARCHIADAU i Nia Griffith, Aled Roberts, Iwan Parry a Catrin Thomas ar lwyddo yn arholiad ysgrifenedig Cyfarfod Ysgolion Dosbarth Caernarfon. Llongyfarchiadau hefyd i'r lluo o blant y pentref a lwyddodd yn yr arholiad llafar.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlwn â Mrs G. Hughes, 9 Cefn Llan ar farwolaeth ei chwaer yn ddiweddar.

CARNIFAL LLANRUG 1986 - Nos Fercher, Mehefin 18, Ysgol Gynradd, Disco (plant ysgol gynradd yn unig). 6.15-7.45 i fyny i 8 oed.

Nos Sul, Mehefin 22, Cymanfa Ganu. Eglwys Sant Mihangel, elw at yr eglwys, casgliad gwyn. 7.30.

Nos Lun, Mehefin 23, Tombola, ysgol gynradd 7 o'r gloch, 5 gêm am 50c a chynnwys paned o de. Raffl.

Nos Fawrth, Mehefin 24. Helfa Drysor. Cychwyn o fuarth yr ysgol gynradd am 6.15. Enwau i Berwyn ac Einir Hughes, 34 Glanffynnon. Ffôn Caernarfon 5252.

Nos Fercher, Mehefin 25. Pêl-droed 7 bob-ochr. Cae Eithin Duon, 6.30. Elw i Glwb Pêl-droed.

Nos Iau, Mehefin 25. Noson Goffi, ysgol gynradd 7 o'r gloch. Stondin Dewch a Phrynwch. Raffl.

Ras Hwyl. Rhiant a phlentyn - hefyd ras i blant 11-16 oed. Manylion, Mr Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Caernarfon 3515.

Nos Wener, Mehefin 27, Mabolgampau, Cae Ysgol Gynradd, 6 o'r gloch. Elw i'r Ysgol Feithrin.

Dydd Sadwrn, Mehefin 28. Diwrnod Carnifal.

Gorymdaith yn cychwyn o Bro Rhyddallt am 1.15 i'r Ysgol Gynradd. Lluniaeth, 2.30p.m. 40c.

Mynediad i iard yr ysgol 25c, henoed a phlant 15c.

Manylion: Mrs D. Jones, Caernarfon 5600 neu Mrs E. Williams, Caernarfon 5683.

MERCHED Y WAWR: Nos Fawrth, Mai 13, yn yr Ysgol Gynradd, Llanrug, cyfarfu'r gangen leol o Ferched y Wawr. Y gŵr gwadd oedd yr Athro Gwyn Thomas, a thestun ei sgwrs oedd 'Yr Awen'. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Bethanne Williams. Meddai'r Athro Gwyn Thomas - rhywbeth yn dod fel fflach yw Awen - ysbrydoliaeth, ac mae'n ymwneud â phawb. Daw i wyddonwyr, beirdd a cherddorion ymysg eraill.

O'r meddwl y daw y fflach, breuddwyd effro. Y mae'r beirdd yn gwybod am y fflach ers blynyddoedd. Yn y 10fed ganrif soniai'r beirdd amdanynt eu hunain yn cael eu meddiannu gan ryw ysbryd - rhyw alluoedd yn gafael ynddynt.

Yr Awen yn dod yn well yn y gaeaf na'r haf i Goronwy Owen, ac i R. Williams Parry, ond i W.J. Gruffydd, "Colli haul, colli awen." Wrth bysgota yn y nos y deuai'r awen i Dewi Emrys. Cerdded ar hyd glan môr stormus ddeuai â'r Awen i T. Gwynn Jones, wedi'r cerdded mynd adre a chyfansoddi.

Difyr iawn oedd gwrandio ar yr Athro Gwyn Thomas yn sôn am arferion y cyfansoddwyr yn eu hymchwyl a'u disgwyl am y fflach. Diolchwyd i'r Athro gan Mrs Menna Williams. Mrs Bethanne Williams ddiolchodd i Mrs Nan Humphreys, Mrs Mair Hughes, Mrs Meryl Green a Mrs Owena Elias am y baned de. Enillydd y raff oedd Mrs Margaret Parry.

Anfonwyd cofion a dymuniadau da'r gangen i Mrs Arvon Jones sydd newydd ddychwelyd adre o'r ysbyty.

Cafwyd adroddiad o gyfarfod y Cyngor Cenedlaethol yn Aberystwyth gan y llywydd. Mehefin 17 bydd gwibdaith i Blas Glyn y Weddw Llanbedrog. Bydd y bws yn cychwyn o Sgwâr Llanrug am 6 o'r gloch - yr enwau a'r arian i Mrs Bethanne Williams erbyn Mehefin 7.

MARATHON LLUNDAIN: Llongyfarchiadau i Alan Jones a oedd yn un o'r rhedwyr yn y Marathon yn Llundain - fe redodd y cwrs mewn amser o ddwy awr a phum deg dau o funudau. Mab yw Alan i Mrs Mair Jones a'r diweddar Mr Robert Jones, Bonc, mae'n awr yn byw yn Kent.

YN YR YSBYTY: Mae'n ddrwg gennym glywed fod Gareth, mab bychan Aled a Judy Roberts, Clegir, ar hyn o bryd yn yr Ysbyty yn Lerpwl. 'Rydym yn dymuno gwellhad buan iddo.

MARWOLAETH: 'Roedd yn drist gennym glywed am farwolaeth sydyn Mr Alun Williams, Delfryn, 12 Rhos Rug yn ei gartref yn ddiweddar. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w fam, Mrs Martha Williams, a'i chwaer, Mrs Eurwen Williams.

CLWB BLODAU'R GRUG: Cynhaliwyd cyfarfod o'r clwb yn y Neuadd Goffa ar Fai 15 o dan lywyddiaeth Mr Cledwyn Williams. Y

siaradwr gwadd oedd Mr Arthur Williams, Caernarfon a siaradodd am ei gyfnodau yn Nhalybont, Machynlleth a Chaernarfon. Gwnaethpwyd sylwadau hefyd gan Mr Cledwyn Williams, Mrs M. Lloyd Williams, Miss Meirwen Roberts a Mr J.J. Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs M. Lewis, Madryn, Mrs B. Jones, Lyndale a Mrs L. Owen, Llys Myfyr. Enillwyd y raff gan Mrs Emrys Owen, Hafan Elan. Rhoddwyd y diolchiadau gan Mrs J. Roberts, Gwyndy. Cynhelir y trip blynyddol ar Fehefin 12. Derbynnir yr enwau gan y swyddogion.

ADREF O'R YSBYTY: Mae Mathew Wyn Williams, Y Grugan, Lôn Groes, wedi dychwelyd adref o Ysbyty Gwynedd. Mae'n dda deall ei fod yn gwella.

Dychwelodd Mrs Haf Williams, Grug Wen, adref o Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Dymunwn wellhad buan iddi.

CYFARFOD Y CHWIORYDD: Cynhaliwyd y cyfarfod yn Festri Ponrhythallt pnawn Mercher Mai 14. Dechreuwyd y gwasanaeth gan y llywydd, Mrs Williams, Bod Fair, a chafwyd sgwrs gan Mrs Smith, Llechwedd. Rhoddwyd y te gan Mrs Morgan Jones, Bronallt, sydd ar hyn o bryd yn Plas Pengwaith, Llanberis, ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed fis Ebrill. Bydd y cyfarfod nesaf pnawn Iau Mehefin 19 am 2 o'r gloch.

MODELAU IFANC



Ar Fai 8 cynhaliwyd Sioe Ffasiwn yn 17 Stad Minffordd, a drefnwyd gan Delyth Humphreys a Sioned M. Jones. Daeth nifer o enethod yr Ysgol Gynradd yno - diolch hefyd i'r tri bachgen dewr a fentrodd gymryd rhan! Roedd diod oren a chreision ar gael, a chasglwyd £3 tuag at 'Arian Byw-Live Aid'. Da iawn chi blant am fod mor feddylgar tuag at blant y Trydydd Byd. Dyma'r rhai a gymerodd ran - Sioned M. Jones, Delyth W. Humphreys, Awen Humphreys, Nia W. Roberts, Lisa a Lynne Schudlak, Jane ac Andrea Scase, Catrin Eleri Jones, Luned Jones, Lynwen Hamer, Sian Green, Catrin Grinvalds, Dawn Pritchard, Meilir Jones, Eifion Jones ac Ieuan Green.

D.LL. OWEN
1 BRYN AFON
TERRACE,
LLANRUG
FFÔN
C'FON 76699

Cludo Llwythi
Bychan a Chlirio
Safleoedd
Llwythi 3 Tunnell
Hefyd Trin Gerddi a
Thorri Gwair

M. ROWLANDS
MONUMENTAL MASONS
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2898
(Sefydlwyd ers dros 35 mlynedd)

Crefftwaith llaw, e.e., Old English/Gothic
gan un â thros 32 o flynyddoedd o brofiad
Cerrig newydd a gwaith adnewyddu:
dim ots pa mor bell

Stoc helaeth o'r cerrig gorau:
dyfynbris am ddim

AR AGOR 6 DIWRNOD YR WYTHNOS

Wavell
Roberts
CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs. G. Jones, Rhandir Mwyrn (Waunfawr 626)

MERCHED Y WAWR: Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod ar Ebrill 24 gan y llywydd, Mrs Cadi Jones. Cydymdeimlwyd â Mrs Marged Dafydd a'r teulu yn eu profedigaeth.

Y siaradwr gwadd oedd Mrs Mary Wyn Jones o Sir Fôn, a siaradodd ar acupuncture a'i le yn y byd meddygol. Diolchwyd yn gynnes iawn iddi gan Mrs Hughes, Llys Meredydd. Gwnaed trefniadau ar gyfer y trip i Nantgwrtheyrn ar Fehefin 26. Rhoddwyd y raffl gan Mrs N. Williams, Betws Garmon a'r enillydd oedd Mrs Jenifred Jones. Yn y cyfarfod nesaf ar Fai 22 ceir sgwrs ar ei gwaith fel 'Store Detective' gan Miss Lynne Roberts, Bontnewydd.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cyfarfu'r Sefydliad ar Fai 2 gyda Mrs Beti Griffith yn y gadair yn absenoldeb y llywydd. Cydymdeimlwyd â Mrs Parry Williams yn ei phrofedigaeth. Treuliwyd y noson yn trafod y penderfyniadau ar gyfer y cyfarfod blynyddol yn yr Albert Hall Llundain ym mis Mehefin. Arweiniwyd y drafodaeth gan Mrs Ann Nutch, diolchwyd iddi gan Mrs Buddug Rowlands.

Dydd Iau, Mai 15 cynhaliwyd Sioe Gwaith Llaw yn 'Feed My Lambs', Caernarfon. Sefydliad Waunfawr enillodd y dystysgrif i Sefydliad gyda llai na 30 o aelodau a Phontrug enillodd y dystysgrif i Sefydliadau gyda dros 30 o aelodau. Enillodd Mrs Peggy Jones Waunfawr y Gwpan i'r aelod gyda mwyaf o farciau yn y Sioe. Yr enillwyr eraill o'r Waunfawr oedd Mrs Pat Parry, Mrs Betty Griffith a Mrs K. Wynn Jones.

CLWB GWYRFAL: Treuliwyd prynhawn difyr yn y Ganolfan ddydd Mawrth, Mai 8. Cafwyd cyfarfod agored, a daeth nifer dda o'r ardalwyr i gefnogi'r clwb, ac yr oedd prysurdeb ar y ddwy stondin, cacennau ac anrhegion amrywiol. Cynhelir trip blynyddol ar Fehefin 5ed a disgwylir i'r aelodau roi eu henwau i Mrs Mary Lloyd Jones neu Mrs Miles cyn Mai 26.

Colled fawr yw marw Mr Owen Williams, Gwynfa. Yr oedd yn aelod ffyddlon a gweithgar, ac edrychai ymlaen bob amser am glywed y siaradwyr gwadd i'r clwb. Cydymdeimlwn â'i briod, Mrs Parry Williams, is-lywydd y Clwb, a'i chwaer, Mrs A. Griffith, Betws Garmon, a'i nith Mrs Glenys Williams, Ty'n Weirglodd.

Cyfrannodd y teulu yn dawl a theilwng yn aml at gyllid y Clwb. Chwith meddwl hefyd am ei bresenoldeb a'i ffyddlondeb yn oedfaon Capel Croesywaun. Yr oedd yn flaenor ac yn drysorydd Eglwys

Saron, Llanwnda.

CANMLWYDDIANT CAPEL CROESYWAUN: Ymysg amryw o weithgareddau a drefnwyd i ddatlu canmlwyddiant capel Croesywaun fis Rhagfyr nesaf, archebwyd platiau gyda llun o'r capel arnynt. Os oes rhywun angen rhai o'r platiau hardd yma, dylent gysylltu â Mrs Katie Wyn Jones, Bron Eifion, mor fuan ag sydd modd.

PLAID CYMRU: Cynhaliwyd Noson Cwis ym Mryn Eirian ar Fai 7, rhwng canghennau Llanrug a'r Waunfawr. Enillodd tîm y Waunfawr, sef Meg Dafydd, Iolo Huws Roberts, Rhodri Prys Jones a Dr A.L. Miles, o drwch blewyn ar ôl cystadlu brwd. Holwr y noson oedd Eurig Wyn, a'i agwedd 's'dim nonsens 'da fi' yn sicrhau chwarae teg i bawb! Gofalodd Rob Jones am y marciau mewn ffordd hynod o ddestlus a llwyddodd pawb i fwynhau nostn o waith meddwl a chymdeithasu ar y cyd.

Croesawyd Mr Elfed Roberts, Trefnydd y Blaid gan Mrs Mary Vaughan Jones, a soniodd Mr Roberts am y gweithgareddau eraill o bwys i'r aelodau.

Llwyddodd basged o fwydydd cartref a baratowyd gan Gill Brown i godi £12 i'r Blaid mewn ocsiwn, eto dan ofal Eurig Wyn. Rhoddwyd gwobr cyfrinachol gan Cadi Jones. Daeth y noson i ben gan ddiolch i John Huws a Duncan Brown am ofalu am y cwestiynau.

Diolch i bawb unwaith eto am eu parodrwydd i weithio ar gyfer y noson, ac i Gangen Llanrug am fod yn gollwyr mor ddisglair. Diolch hefyd i Bryn Eirian am neilltuo ystafell.

COFIWCH wahoddiad gan Gangen Llanrug i ymuno â nhw ar Helfa Drysor ar Fehefin 4.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Ebrill: 1. £40, Mrs G. Jones, 3 Eilian Terrace; 2. £25, L. Lyon, 6 Ael y Bryn; 3. £10, Llifon Jones, 7 Dôl Erddi.

LLONGYFARCHIADAU:

I Miss Mem Williams, Weirglodd Goch, ar ei phen-blwydd yn 90 oed; I Gerald Rowlands, Bryn Golau, ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed; ac I Susan ac Egryn Roberts, 'Gables', ar enedigaeth merch fach.

Y GYMANFA: Yn y Gymanfa a gynhaliwyd o dan nawdd Cyfarfod Ysgolion Dosbarth Caernarfon ddydd Sul, Mai 4 yng nghapel Engedi Caernarfon, gwobrwywyd nifer dda o blant yn yr Arholiad Llafar. Hefyd cafodd Elli Haf Iwan a Heather Owen o Gapel Croes y Waun a Nan Wyn Jones a Fflur Llewelen o Gapel Bethel wobrau yn yr arholiad ysgrifenedig. Anerchwyd y plant yng

nghyfarfod y pnawn gan Mrs M. Morgan Jones, Pant Cae Haidd. Bu Fflur Llewelen yn llwyddiannus hefyd yn yr Arholiad Sirol a gwobrwywyd hi yn y Cyfarfod Misol a gynhaliwyd ym Mhenygroes.

CYDYMDEIMLWN: yn fawr iawn â Mrs Parry Williams, Gwynfa, ar ei phrofedigaeth lem o golli priod, Mr Owie Williams, ar ôl hir gystudd.

LLWYDDIANT EISTEDDFODOL: Llongyfarchiadau i Meira Turner, Collfryn ar ennill yr ail wobwr ar y Brif Adroddiad yn Eisteddfod Rhosgadfan. Llwyddodd i ennill y wobwr gyntaf ar y Brif Adroddiad yn Eisteddfod Clynnog, a hefyd yn Eisteddfod Y Ffôr, lle cafodd gwpan. Daeth yn ail yn Eisteddfod Mynydd y Cilgwyn.

Enillodd Mrs Margaret Owen, Bryn Gwylan, Dlws ar yr adroddiad dros 60 yn Eisteddfod Y Ffôr, a daeth yn gydradd drydydd ym Mynydd y Cilgwyn.

Daeth Wmffra Jones, Tŷ Coch, yn gyntaf ar y Gân Werin yn Eisteddfod Rhosgadfan. Yn Eisteddfod Clynnog cafodd y wobwr gyntaf a chwpan ar y Gân Werin, yr ail wobwr ar yr Unawd Gymraeg a'r 3ydd wobwr am yr Emyrn Dôn. Daeth yn gydradd 3ydd ar y Gân Werin yn Eisteddfod Y Ffôr ac eto ym Mynydd y Cilgwyn, lle cafodd yr ail wobwr ar y Brif Unawd a'r Unawd Gymraeg.

Bu Alun Williams yn cystadlu yn Eisteddfod Clynnog a chafodd yr ail wobwr ar y Brif Unawd a'r 3ydd wobwr ar yr Unawd Gymraeg a'r Emyrn Dôn.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am lwyr wellhad buan iawn i Miss Mem Williams, Weirglodd Goch, sydd yn cwyno yn Ysbyty Eryri.

ADREF O'R YSBYTY: Croeso adref o'r ysbty i Mr W.T. Owen, Noddfa, Tref Eilian; Mrs Marc Jones, Aelybryn; Mr T.A. Thomas, Gilfach; a Stephen Jones, Morawel. Mawr hyderwn eu bônt yn parhau i wella.

DIOLCH: Dymuna Mr W.T. Owen, Noddfa, Tref Eilian, ddiolch o galon i'r meddygon, ffrindiau a chymdogion oll am bob arwydd o garedigrwydd a ddangoswyd tuag ato tra yn yr ysbty yn ddiweddar, ac ar ôl dychwelyd gartref.

ANTUR WAUNFAWR: Nos Fawrth, Mai 13 roedd neuadd fach y Ganolfan yn orlawn i'r noson goffi gwahanol! Roedd dynion y camerâu yn brysyr yn ein mysg yn ffilmio ar gyfer rhaglen Y Byd ar Bedwar a phawb yn mwynhau clywed hanes diwedddara yr hogia yn yr Antur, a chael paned i orffen y noson. Diolch i bawb a

ddaeth draw i wneud y noson yn llwyddiant.

CANOLFAN WAUNFAWR: Dyddiadau i'w cofio:

Nos Wener, Mai 30, am 7.30 o'r gloch - Bingo

Nos Wener, Mehefin 6, am 6.30 o'r gloch - Noson Goffi er budd MENCAP.

Nos Wener, Mehefin 20 am 7.30 o'r gloch - Noson yng ngofal Geoff Powell. (Gweler hysbysebion yn nes at y diwrnod.)

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma restr enillwyr y Clwb 100 am fis Ebrill: 1. Keith Owen, Stad Tŷ Hen; 2. Dr A.L. Miles, Tre Feddyg; 3. W.T. Owen, Noddfa.

BETWS GARMON

GENI: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Gwynfor Pierce Jones, Cerrig-y-rhyd ar enedigaeth eu merch fach, Lowri Sara. Wyres fach cyntaf i Mr a Mrs A.O. Pierce Jones, Manchester House, Talysarn a Mrs E. Roberts, 11 Môr Awel, Penygroes.

CYDYMDEIMLWN: Â Mrs A. Griffith, Caeau Gwynion a Mrs Glenys Williams, Ty'n Weirglodd ar farwolaeth brawd ac ewythr, Mr Owen Williams, Gwynfa, Waunfawr.

DIOLCH: Dymuna teulu Caeau Gwynion a Ty'n Weirglodd ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth o golli brawd ac ewythr annwyl iawn. Diolch yn fawr.

YN YR YSBYTY: Drwg gennym glywed bod Mr John Williams, Bryn Rhyd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd. Dymunir gwellhad buan iddo.

YN EISIAU

Person ifanc i weinyddu ac i roi help llaw i baratoi bwyd yn

**Bryn Gloch,
Betws Garmon.**

Bydd yn ofynnol gweithio gyda'r nos ar benwythnosau.

Am fwy o fanylion ffonier
Waunfawr 294

AR WERTH

Peiriant Teipio Cludadwy.
Ystyrir unrhyw gynnig
rhesymol. Ffôn: Llanberis
870609

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)

**GWLAU SENGL O £39 I FYNY
GWLAU DWBL O £75 I FYNY
DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800**

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

**5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
- ALLWCH CHI Fforddio Prynu o Batrymau?**

**AR AGOR
9-7pm**

9-5pm Sadwrn

**AR GAU
SUL,
MERCHER.**

CYNGOR BWRDEISDREF ARFON

CYFARFOD CYHOEDDUS 'CYNLLUN GWELLA'R AMGYLCHEDD LLANBERIS'

Yng Ngwesty Victoria,
Llanberis

Nos Iau, Mehefin 5ed, 1986
am 7.30

Croeso cynnes i bawb

DRAENOG



Dyma boster a ddaeth i'm sylw yn ddiweddar i atal creulondeb i un o'm cydgreaduriaid gwyllt. Yn anfodus, nid yw RSPCA am roi'r un chwarae teg i'r Gymraeg ag i'r mochyn daear! Sawl camgymeriad fedrwch chi eu darganfod?

Gwylwch:

Am geir yn sefyllan mewn manau anarferol. Dynion a offer cloddio a daear gwn.

Clust feiniwch:

Am swm gweith garedd anarferol mewn llecynau tawel.

Cymerwch:

Fanylion lliw, gwneuthuriad a rhifnod cofrestru y ceir. Nifer y bobl yn canlyn.



Ni Dderbyniir Cymorthdai Gwladwriaethol

Ffônwch Ganolfan Gyfathrebi Leol yr RSPCA neu'r Heddlu ar unwaith os gwelwch yndda.

RSPCA Sarn Horsham Swydd Gorllewyn Sussex RH12 1HG

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

LLONGYFARCHIADAU: Llongyfarchiadau i ieuenctid y pentref sydd wedi dod i oed yn ystod y mis. Llongyfarchwn Dewi Jones, 24 Cremllyn, Paul Roberts, Llys Menai a Manon D. Williams, Elan, Tan y Cae a fu'n dathlu eu pen-blwydd yn ystod mis Mai. Dymuniadau gorau hefyd i Christopher Clarke, Tŷ Cerrig, Mair Hughes, 3 Tan y Cae a Valerie Owen, 42 Bro Rhos a fydd yn dathlu yn ystod Mehefin.

YR YSGOL FEITHRIN: Mae'r daith gerdded nodedig i ben yr Wyddfa a oedd wedi ei threfnu ar Fai 24 wedi ei gohirio tan ddydd Sadwrn, Mehefin 7. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn cerdded a fydded mor garedig â chysylltu â Mrs Rita Williams, Mrs Mair Read neu Mrs Delyth Williams. Gobeithir gwneud elw sylweddol ar y daith, elw i dalu am adeiladu ystafell newydd i'r Ysgol Feithrin.

MERCHED Y WAWR: Nos Fercher, Mai 14 yn yr ysgol cafwyd noson addysgiadol iawn yng nghwmni Mr Isgar Evans, Tan y Cae sy'n gweithio fel Swyddog Cyswllt Ysgolion gyda'r Heddlu. Dangosodd ffilm erchyll ar effeithiau cyffuriau ar bobl ifanc a chafwyd sgwrs fuddiol ar broblemau cyffuriau gan ganolbwyntio ar broblemau lleol. Diolchwyd i Mr Evans gan Mrs Glenys Griffith.

Etholwyd y pwyllgor am 86-87. Llywydd: Mrs Anne Elis; Is-lywydd: Mrs Lynwen Morris; Ysgrifenyddes: Mrs Beti Owen; Is-ysgrifenyddes: Mrs Gwyneth Williams; Trysoryddes: Mrs Eirlys Sharpe; Is-ysgrifenyddes: Mrs Eryl Roberts. Aelodau'r Pwyllgor: Mrs Mary Evans, Mrs Nan Owen, Mrs Nora Parry, Mrs Ceinwen Williams, Mrs Bessie Ellis.

Mae taith ddigrl wedi ei threfnu

erbyn nos Fercher, Mehefin 11. Cofiwch roi eich enwau a thalu i Lynwen mor fuan ag y bo modd.

YSGOL SUL Y CYSEGR: Yn yr Ysgol Sul ar Fai 18 cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mr John Owen ar y Gymdeithas sy'n dysgu cwn tywysu i'r deillion a'r berthynas sydd wedi datblygu rhyngddo a'i gi, Owi. Penderfynwyd y byddai plant yr Ysgol Sul yn casglu papur arian, topiau poteli llefrith a ffoil ar gyfer y Gymdeithas. Bydd y plant yn dod â'r hyn fyddant wedi ei gasglu (ar ôl ei olchi'n lân) i'r Ysgol Sul ar y Sul cyntaf bob mis. Bydd croeso i unrhyw un arall gymryd rhan yn yr ymgyrch.

NEUADD GOFFA BETHEL: Ers blwyddyn bellach bu'r Pwyllgor yn rhedeg Clwb Cant a bu'r fenter yn un lwyddiannus iawn. Felly, penderfynwyd yn y Pwyllgor a gynhaliwyd ar Ebrill 7 i gario ymlaen gyda'r Clwb Cant. Ceisiwyd dosbarthu llythyr i'r rhan fwyaf o'r cartrefi, os nad ydych wedi cael llythyr yn gofyn i chi gefnogi'r Clwb Cant ac am ymuno a fuasech cystal â chysylltu â'r Ysgrifenyddes Myfanwy Wyn Jones, Glan y Gors, Bethel (Ffôn: Felinheli 670071) cyn 7 Mehefin 1986. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth.

O'R YSGOL: Yn ddiweddar cynhaliwyd prynhawn o brynu a gwerthu yn yr ysgol er mwyn codi arian at Apêl Sganiwr Gwynedd. Daeth y plant â'u teganau a llyfrau i'w gwerthu. Llongyfarchiadau iddynt ar godi £40.


Bu plant safon 1, 2, 3 a 4, yr athrawon a staff y gegin i gyd wrthi'n brysur yn ystod yr wythnosau diwethaf yn gwerthu llyfrau Cymraeg fel rhan o Ymgyrch y Cyngor Llyfrau. Llwyddwyd i werthu gwerth £234.



Llongyfarchiadau i aelodau'r Urdd dan ofal Mrs Mair Read ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth Cywaith Gwyddoniaeth. Cafodd yr aelodau dan 8 a fu'n gwneud y cywaith ar Ddŵr a'r aelodau o 8 i 10 a wnaeth gywaith ar Lanweithdra y drydedd wobrn yn y ddwy gystadleuaeth. Bydd y gwaith yn cael ei arddangos yn yr Eisteddfod ym Methesda.



BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

TACIS

AMBERLINE

UNRHYW AMSER - UNRHYW BELLTER

Ffôn 670555

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

CLWB IEUENCTID: Nos Iau, Ebrill 24 cynhaliwyd Noson Goffi flynyddol y Clwb. Cafwyd noson lwyddiannus iawn pryd y gwnaed elw o £71.88. Trefnwyd y noson gan Karen Foulkes a Caron Jones a charent ddiolch i bawb a'u cefnogodd a chyfrannu mor hael. Enillwyd y raffl a'r gwahanol gystadlaethau oedd Mrs J. Roberts, Glandŵr (potel win), Mr P. Jones, Cae Coch (2 set o wydrau), Mrs Chiney, Penllyn Farm (Bocs siocled), Karen Foulkes (dyfalu nifer y pys mewn pot), Mrs M. Ellis, Gweledfa (dyfalu enw'r tedi) a'r pencampwr pŵl oedd Neil Roberts.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cafodd y gangen leol gyfnod prysur a llwyddiannus iawn yn ddiweddar. Ar Fai 15 ymwelwyd â Sioe Grefftau dan nawdd Clwb Gwyrfa'r sefydliad yn 'Feed my Lambs', Caernarfon. Cymerwyd rhan gan nifer o aelodau'r gangen ac wele'r canlyniadau mewn amrywiol gystadlaethau. Derbyniodd Mrs Pat Jones y wobwr gyntaf am gynllunio poster, 'collage' a dol beg, yr ail wobwr am ffedog 'aplique', clustog wedi'i chwyldio a thegan ffelt addysgiadol a'r drydedd wobwr am ddarlun mewn brodwraith. Enillodd Mrs Carol Houston y wobwr gyntaf am fraslun mewn pensil a'r ail wobwr am gynllunio poster, Mrs Mai Parry yr ail wobwr am wau 'Super Ted', Mrs Gwyneth Williams yr ail wobwr am gôt wau edafedd trwchus, Mrs Betty Owen yr ail wobwr am grosio

ysgwyddlen a chafodd Grŵp Ymdrech y sefydliad yr ail wobwr am wneud pum eitem i fynd ar wyliau.

Ar Fai 16 ymwelodd chwech o'r aelodau â chyfarfod o Gyngor Gwanwyn Sefydliad y Merched yng Nghricieth. Treuliwyd noson ddiffr pryd y cafwyd sgwrs gan y Capten Ifor Ellis o Gaernarfon ac adloniant yn dilyn gan Sefydliad y Merched, Porthmadog.

Nos Lun, Mai 19 cafwyd cyfarfyddiad o'r gangen leol yn yr ysgoldy pryd y trafodwyd yr awgrymiadau a gynigir i'r Cyfarfod Blynnyddol yn Llundain yng nghwmni Mrs Maud Williams, V.C.O., Caernarfon. Dymunir yn dda i Mrs Davies a fydd yn cynrychioli'r gangen yn yr Albert Hall ar Fehefin 5. Darparwyd lluniaeth y noson gan Mrs Pat Jones a Mrs Betty Owen, a Mrs Gwyneth Williams oedd enillydd y raffl, rhoddedig gan Mrs Rhian Jones.

Nos Fawrth, Mai 20, ar wahoddiad cangen Arfon bu'r aelodau yn ymuno mewn gornest gyfeillgar ddartiau.

Cofier hefyd am y cyfarfod Twmpath Dawns ym Mryn y Neuadd, Llanfairfechan nos Wener, Mehefin 6 - bydd y bws yn gadael am 6.30 o'r gloch - a'r wibdaith i Lerpwl ddydd Sadwrn, Mehefin 21 pryd y bydd y gangen yn ymuno â Sefydliad y Merched, Waunfawr. Mae croeso hefyd i unrhyw un i ymuno â Mrs Pat Jones a Mrs Carol Houston ar Fehefin

28 i'w cefnogi pan fyddant yn cymryd rhan mewn trnaineint badminton yn Aberystwyth ar achlysur 'Dydd Chwaraeon Cydffederasiwn'.

CERDDOROL: Llongyfarchiadau i Caron Haf Jones, 1 Tai Orwig ar ei llwyddiant yn arholiad canu'r piano Gradd 5 dan nawdd Coleg Cerdd y Drindod, Llundain.

YR ARHOLIAD SIROL: Bu Catrin Gwyn, aelod o Ysgol Sul Brynrefail yn llwyddiannus yn yr arholiad ysgrythurol dan nawdd Henaduriaeth Arfon. 'Roedd ei gwaith o safon uchel yn y dosbarth i ymgeiswyr dan 14 oed. Cafodd ei gwobrwyo mewn cyfarfod o'r Henaduriaeth ym Methel, Pen-y-groes ar Fai 6.

CYMANFA YSGOLION SUL: Adlewyrchwyd gweithgarwch disgyblion Ysgol Sul Brynrefail M.C. yng Nghymanfa Dosbarth Padarn a gynhaliwyd yng nghapel Cysegr, Bethel, ddydd Sul, Mai 4. Gwobrwywyd y canlynol yn yr Arholiad Llafar. Dan 6: Rhian Wyn Davies; dan 9: Dafydd Euron Williams; dan 10: Owain Gwyn, Marian Jones a Nicola Houston; dan 12: Eira Wyn Evans; dan 13: Paula Walters, Maria Evans a Catrin Gwyn; dan 15: Einir Gwyn, Caron Jones, Glenda Walters a Joanne Evans; dan 50: Mair Wyn Davies, Carol Houston, Pat Jones a Lowri Prys Roberts. Gwobrwywyd hefyd bartïon cyd-adrodd dan 11, dan 16 a than 50 oed. Yr Arholiad Ysgrifenedig: Dan 9: Dafydd Euron Williams; dan 11: Owain Gwyn, Marian Jones a Nicola Houston; dan 14: Catrin Gwyn a Paula Walters.

YR URDD - ADRAN PENLLYN: Fwrw'r Sul, Mai 16-18 bu Nicola a Kelvin Houston, Paul Roberts, Eira Wyn a John Evans, Marian Jones, Carol Ruchie ynghyd â Mrs Carol Houston ar ymweliad â gwersyll yr Urdd yng Nghanllyn. Er bod y tywydd yn enbydus ar y dydd Sadwrn, cafodd y plant amser da. Cymerwyd rhan mewn dawnio gwerin, nofio, pêl-droed a phêl-rwyd a cherddwyd pum milltir i Lanuwchllyn i weld beddrod Syr Ifan ab Owen Edwards a'r gofologfa a godwyd iddo ef a'i dad Syr O.M. Edwards.

SEIAT UNDEBOL: Nos Fercher, Mai 14 cynhaliwyd Seiat Gofalaeth Llanrug a Brynrefail yn Ffestri Brynrefail. Cymerwyd rhan gan Mr D. Glynne Owen, Ponrhythallt, Miss Megan Humphreys, Tanycoed a Mrs Jennie Roberts, Brynrefail. Diweddwyd y seiat gan y Gweinidog Y Parch. John Morris a'r organydd oedd Mr Elfed Roberts.

CASGLIAD: Yn ystod y pythefnos Mehefin 9-23 bydd casglyddion yn dod o amgylch y pentref i gasglu tuag at yr achos 'Curiad y Galon'.

HELFA DRYSOR: Trefnir yr Helfa Drysor eleni gan Mr a Mrs K. Jones, Cae Coch a Mrs Carol Houston, 2 Trem Eilian ar ran Pwyllgor Gweithgareddau'r Pentref. Cynhelir y daith nos Sadwrn, Mehefin 14. Cysyllter â'r trefnwyr os ydych am ymuno os gwelwch yn dda.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

CÂN SERCH

Wrth ymyl y tân, yn glyd yn fy nghell,
Breuddwydiad yn ôl, i'r gorffennol pell;
Pan oeddwn yn ieuanc, ac ysgafn fy
nhroed,
Yn caru merch ifanc, pymtheng mlwydd
oed.

'Roedd hon fel y lili, mor brydferth â chain,
A'i chroen oedd gyn wynned â blodau y
drain;
Ei gwefus fel rhosyn, a'i llygaid mor frown,
Yn llawn cydymdeimlad, hen 'ogan bach
iawn.

Rhy lwfr oedd fy nghalon, i geisio ei llaw,
Dim sylu ac edrych, a'i hedmygu o draw;
Hi oedd fy enfys ym more fy oes,
A serch oedd mor hyfryd, ac eto yn loes!

Di-brofiad yr oeddwn, mor ifanc a ffôl,
Ac O! fel dymunwn cael ddoe eto'n ôl!
Ond 'rwy'n dal eto'n ystywyth a heini fy
nhroed,
Fel blagur y gwanwyn, yn deffro'n y coed!

Ac af eto, cyn bo hir, am dro ar fy rhawd,
I geisio unwaith eto, bleserau y cnaud!
I brofi hen serch a'i fêl ar fy min,
A drachtio llond gwydraid o hen, hen win.

John V. Morris,
Rhianfa, Deiniolen.

Rhywbeth i feddwl amdano
"Os na ddysgwn fyw gyda'n gilydd
fel brodyr byddwn farw fel ffyliaid."
Martin Luther King

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis
871047

MERCHED,
DYNION, PLANT!
I gael torri a thrin
eich gwallt
YN EICH CARTREF
cysylltwch â
**CHERYL
WARD**

Mobile Hairdressing
9 Porth Gogledd
DEINIOLEN
Ffôn: Llanberis
870911
i drefnu amser



ARFON BOROUGH COUNCIL

To Ecor Widdfa

Official Order P 62546

Please quote this No. on
all invoices, etc.

Date 13 MA 1986

Deliver to

Please Supply/Carry Out:

Quantity

HYSBYSEB

4" x 4"

CYNLLUN LLOEDDAR
AMGYLCHEDD
LLANBERIS

No responsibility will be
accepted for goods supplied
or work done unless authorised
by an Official Order.

Please supply Taxed Invoice
and Address to the Depart-
ment denoted by Order
Number prefix.

A—Admin. Dept.,
Town Hall, Bangor,
Tel. Bangor 52661.

B—Baths Dept.,
Garth Road, Bangor,
Tel. Bangor 4372.

F—Finance Dept.,
Swyddfa'r Dref,
Caernarfon,
Tel. Caernarfon 2253.

H—Housing Dept.,
Craig Beuno,
Garth Road, Bangor,
Tel. Bangor 52661.

He—Health Dept.,
10, Market Street,
Caernarfon,
Tel. Caernarfon 4655.

L—Legal Dept.,
Town Hall, Bangor,
Tel. Bangor 52661.

T—Technical Dept.,
Cwellyn, Caernarfon,
Tel. Caernarfon 4587.

TR—Transport Dept.,
West End, Bangor,
Tel. Bangor 52661.

P—Planning Dept.,
Cwellyn, Caernarfon,
Tel. Caernarfon 4587.

W—Work Study Unit,
Arfon Borough Council,
10, Anson Road,
Bangor,
Tel. Bangor 2722.

Authorised by

[Signature]

A Delivery Note should accompany all supplies

POLISI IAITH ARVON!

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf, sydd
ar gael. Am fanylion
cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

YR URDD: Er gwaethaf y tywydd garw, fe dreuliodd 30 o blant yr Adran, benwythnos fythgofiadwy yng Ngwersyll Glan-Ilyn, Mai 16-18. Fe wnaeth nifer ohonynt ffrindiau gyda phlant o Gwm-y-glo, Brynrefail, Bethel, Waunfawr a'r Gelli. Diolch ichwi blant am ymddwyn mor dda a mawr ein diolch i Anti Liz, Anti Mary, Ann Ifans, Mr Mowll, Mr Tony Eliott a Dafydd Ifans am ofalu amdano. Carem fel Adran Bentref, ddiolch yn ddiffuant i Mr Alun Roberts, Adran Bentref y Gelli, am drefnu yr amrywiol weithgareddau yn enwedig y daith gerdded i weld Cofed a Bedd Syr Ifan ap Owen Edwards, Sylfaenydd yr Urdd. Diolch i chwi Syr!

Gobeithio'n wir y cawn dywydd braf i'r 'Steddod Genedlaethol ym Methesda a phob lwc i blant y Cylch sy'n cystadlu yn y Steddod. Diolch i'r caredigion a gymerodd blant o'r De i letya gyda hwy.

CAPEL BOSRA: Bu'n Sul prysur iawn i blant Ysgol Sul Undebol Bosra, Ebrill 27 gydag Ysgol Sul yn y bore, Cymanfa'r Annibynwyr yn y pnawn am 2.00 o'r gloch a Chymanfa'r Methodistiaid gyda'r nos am 6.00.

Thema'r Gymanfa yn y pnawn oedd 'Gwyrthiau Crist', a chyflwynodd plant Bosra y wyrth gyntaf sef 'Troi'r Dŵr yn Win'.

'Teulu Duw' oedd thema gyda'r nos yn Elim, Y Felinheli. OXFAM oedd testun ein plant ni, a chafwyd hanes y mudiad ynghyd â chaneuon yn ein hannog i helpu'r anghennus ymhobman.

Yn ôl yr arfer, fe wnaeth y plant eu rhan yn ganmoladwy iawn a dymuna'r athrawon ddiolch iddynt am eu hymroddiad a'u ffyddlondeb i'r Ysgol Sul.

Yn sicr maent yn haeddu trip a phleidleisiwyd mai i'r Rhyl y byddwn yn mynd eto eleni. Os oes rhywun yn dymuno dod ar y trip, **Sadwrn, Gorffennaf 5**, a fuasech garediced â rhoi eich enwau i Mrs Elisabeth Jones cyn gynted â phosibl - pris: oedolion £2, £1 i blant nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul.

EGLWYS SANTES HELEN: Cynhaliwyd Cymanfa'r Plant bnawn Sul, Mai 11 am 2.00 o'r gloch. Yr oedd yr Eglwys dan ei sang a chanmolwyd y plant i gyd am safon uchel eu gwaith.

Yng ngwasanaeth y Cymun Bendigaid cyflwynwyd Tystysgrif o werthfawrogiad am eu gwasanaeth fel Wardeiniaid i Mrs Mary Davies a Mr Tegid Roberts. Bu Mrs Mary Davies yn Warden y Ficer am 17

mllynedd a Mr Tegid Roberts yn Warden y Bobl am 9 mlynedd.

Cynhelir Dydd Gweddi a Rhodd eleni Mehefin 22 - am 10.30 gweinyddir Cymun Bendigaid yn ddwyieithog ac am 4.30 Gosber a phregeth gan y Parch Ganon R. Jones, Y Felinheli.

GYRFAOEDD CHWIST: Cynhelir y gyrfaedd Chwist am fis Mehefin ar nos Wener 6ed a'r 20fed am 7.30 p.m. yn Neuadd yr Eglwys.

Trip - Gorffennaf 5, i'r Rhyl, enwau i Mrs Ann Paterson, os gwelwch yn dda.

GWELLHAD: Ein dymuniadau gorau am adferiad buan i Mrs Avril Grindle a Mrs Clarke wedi triniaeth yn ddiweddar. Deallwn fod Mrs Clarke yn gwella ac anfonwn ein cofion at ei chwaer yn Llanrug. Gobeithio fod Ann Jones, Ty'n Gerddi yn gwella hefyd ac anfonwn ein dymuniadau da ati. Dymunwn wellhad buan i bawb sy'n dioddef yn y pentref.

DIOLCH: Dymuna Mrs Peggy Matthews ddiolch i'r casglwyr a'r cyfranwyr at Gartrefi Eithnog - casglwyd £30.88.

Dymuna Mrs Eluned Jones, a'r plant, Cae Corniog Mawr, ddatgan eu diolchgarwch am y llu cardiau, rhoddion, blodau a phob arwydd o gydymdeimlad yn ystod eu profedigaeth.

Fe hoffai Rhian a John Williams ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

Wedi llawdriniaeth yn ddiweddar, dymuna Ann Jones, Ty Gerddi ddiolch am y llu cardiau a'r dymuniadau da.

LLONGYFARCHIADAU: Er bod Dylan Williams, Careb, wedi dathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed eisoes, Ebrill 19, ein llongyfarchiadau i ti Dylan a chofion atat yn yr Almaen.

Llongyfarchiadau hefyd i Siôn Rees Williams, Y Gors ar gyrraedd ei ddeunaw oed.

CLWB CANT: Nos Wener, Ebrill 25 am 6.30 yn Neuadd yr Eglwys cynhaliwyd Ffair Wanwyn. Diolch i bawb a gefnogodd y noson, a gwnaed elw o £140. Enillwyr y Clwb Cant oedd £20, Mrs Jean Roberts, £12, Mrs Carolyn Roberts ac £8 i Mrs Evans, Bod Idris.

Taith Gerdded oedd gweithgaredd mis Mai - cychwyn o King am 10.00 a.m. a gorffen gyda phowlen o gawl yn Neuadd yr Eglwys.

Cofiwch am yr Helfa Drysor, nos Wener, Mehefin 20, yng ngofal Arwel Jones. Amser cychwyn o 5.30 p.m.

ymlaen a gorffen mewn gwesty lleol. Gwahoddir y plant hefyd ond cyfyngir i bentrefwyr Penisarwaun yn unig.

Y Carnifal fydd gweithgaredd mis Gorffennaf - sef Gorffennaf 6-12.

Nos Sul, Gorffennaf 6, **Cymanfa Ganu**; Nos Lun, **Bingo**, Nos Fawrth, **Gemau Giamocs**, Nos Fercher, **Noson i Blant yr Ysgol Gynradd a phlant Ysgol Brynrefail**, nos Iau, **Mabolgampau**, nos Wener, **Disgo** i blant y pentref yn unig. Dydd Sadwrn am 2.00 p.m. **Carnifal y Pentref** yn un o gaeau King.

Bydd **Noson Gymdeithasol** i'r pentref ym mis Awst i dynnu'r Raffl Fawr.

EISTEDDFOD Y PENTREF: Cynhelir yr Eisteddfod eleni nos Wener Mehefin 13, yng nghapel Glasgoed am 5.30 p.m. Beirniad Cerdd yw Miss Deilwen Crump, Caernarfon, Llên ac Adrodd, Geraint Lloyd Owen, Bontnewydd, Arlunio, George Parry, Llanberis, Gwaith Llaw a Choginio, Mrs Jennie Lamerick, Bethel, Cyfeilyddes, Mrs Eirian Howells, Llanfairpwll a'r Llywydd yw Edgar Williams, Dwyrân.

Mae'r Testunau allan eisoes, felly hwyl ar y dysgu a'r cystadlu. Rwy'n

siŵr y caen eisteddfod lewyrchus eto eleni.

DYMUNIADAU DA: Gobeithio y bydd Gwenan, Huw a Rebecca Mai yn hapus yn eu cynefin newydd i lawr yn y De.

Pob lwc i blant y pentref sy'n sefyll arholiadau'r Cyd-bwyllgor Addysg yr haf yma.

CLWB YR HEULWEN: Mai 20 darllenwyd y Cofnodion a chydymdeimlwyd â Mrs Porter a Mrs Eluned Jones ar golli eu gwŷr, hefyd Mrs Rees Thomas ar golli ei chwaer. Dymunwyd gwellhad buan i Mrs L. Clarke. Rhoddwyd y te gan Mrs Gwyneth Jones a Mrs J. Price Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs M. Davies. Darllenwyd y cyfryf ariannol gan Mrs K. Williams. Cafwyd bwrdd gwerthu. Dewiswyd Mrs Gwyneth Jones yn drysorydd yn lle Mrs Rees Thomas a wnaeth y gwaith am flynyddoedd maith. Pasiwyd i gael trip i'r Bermo ym mis Gorffennaf. Bydd y cyfarfod nesaf Mehefin 19.

CERDDOROL: Llongyfarchiadau i Olwen Meredydd Jones, Pant Hywel ar fod yn llwyddiannus yn Arholiad Canu'r Piano Gradd 6 dan nawdd Coleg Cerdd y Drindod, Llundain.

Gwraig Tŷ yn yr Ardd

Dywedodd ffrind wrthyf unwaith, "Wyddoch chi beth sydd ar ôl yn eich gardd chi? Fe ddylai fod gennych faine i eistedd arni, rhywle i eistedd rwan ac yn y man i gael sbel fach ac edrych ar eich gwaith." A gwir y dywedodd. Ym mis Mehefin fe ellwch eistedd a chael rhywbeth gwerth edrych arno.

Mis y rhysonnau y gelwir mis Mai yn aml iawn, gan mai dyma'r amser y maent ar eu gorau. Floribundas sydd gen i gan fod ein gardd mewn lle gwyntog iawn. Rhaid edrych yn fanwl rhag ofn bod yr hen bry gwyrdd wedi ymosod arnynt, ond mae'n gysur meddwl fod yna bethau i'w cael i'w chwistrellu. Mae amryw yn meddwl mai peth hawdd ydyw tyfu coed rhosod, ond fel popeth arall maent eisiau eu bwydo. Mae yna amryw o bethau ar y farchnad ond 'Growmore' fyddaf fi yn ei roi o'u cwmplas, a'i hofio i mewn. Os gwelaf fod y coed yn taflu o'r newydd o'r bôn rhaid eu torri ar unwaith neu fe fydd yn beryg iddynt fynd yn goed gwyllt.

Y mae blodau'r gwanwyn i gyd drosodd yn yr ardd erbyn hyn ac y mae'n amser plannu'r bordor am yr haf. Roeddwn yn synnu gweld ar y rhaglen deledu'r dydd o'r blaen y gair 'Delia'. Mae'n wir mai dyna'r gair a ddywedwn fel mae'r Saeson yn ddweud ond 'Dahlia' ydyw ym mhob iaith gan i'r blodyn gael ei enwi ar ôl Andrew Dahl,

botanegydd o Sweden. Mae llawer o flodau'n cael eu henwi fel hyn. Y mae'n ddiogel rhoi'r rhain i lawr rwan, er y gallasai'r tatws (os oes rhai ar ôl wedi'r rhew a gawsom) fod wedi eu rhoi i lawr cyn hyn ond nid yw'n saff i roi'r torion nes bydd peryg barrug drosodd.

Eleni rwyf am drio cael gladioli byr. Ni fydd angen cansenni i'w dal. Gwynt yw gelyn mwyaf yr ardd yma.

Bydd y bordor blodau yn dangos dipyn o liw y mis yma, a bydd yn rhaid rhwymo'r rhai talaf neu fe fydd y gwynt yn gwneud llanast. Bydd yn rhaid cadw'r hof ar fynd. Gofynnodd rhywun i arddwr profiadol "Beth alla'i i wneud efo'r dail tafol 'ma?" Ei ateb oedd "Hofiwch nhw bob dydd Mawrth." Cysondeb sy'n bwysig; lladd rhai o'r chwyn cyn eu bod megis, ond fel y dywedodd rhywun, "Os na thyf chwyn yn dy ardd, 'thyf dim arall chwaith."

Rhwng popeth, wn i ddim sut yr ydw i'n mynd i gael amser i eistedd ar y faine i edrych ar yr ardd!

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag


ERIC JONES
17 BRYN TIRION
PENISARWAUN
Ffôn: LLANBERIS 872421

AM DDEWIS HAEL A
GWASANAETH CYFEILLGAR
DEWCH I

SIOP GRON
A SWYDDFA'R POST
PENISARWAUN
Ffôn:
Llanberis 871272
CANOLOG I'R FRO



CROESAIR MEHEFIN



AR DRAWS:

1. Tywalltwr diod (5)
2. Gwreiddiau poblogaidd (5)
8. Dewrion (5)
9. "Mi sydd fachgen ... ffôl
Yn byw yn ôl fy ffansi" (5)
10. Ymaelodi (5)
11. Malwr uchel uchel ei gloch? (5)
12. Hylif ysgrifennu (3)
13. Y criw ohonom (2)
14. Bardd math arbennig o gerdd
(7)
18. Bwyd brecwast (3)
19. Cysylltair (3)
21. Gostyngeiddrwydd (7)
25. Annwyl (2)
26. Un o bennau eithaf y Waun (3)
28. Marwolaeth (5)
29. Fflag (5)
30. Offeryn (5)
31. Y rŵan (2,3)
32. Mae'r genadwri ym maneg
Esyllt (5)
33. Gogan (5)

I LAWR:

1. 72 awr (7)
2. Bin caled ar y gwely (8)
3. Twt (6)
4. Pobl gyffredin (6)
5. "Er dyfnded yw y loes
Er ... yw y groes" (6)
6. Araith annoeth (4)
7. Chwedl (5)
15. Leo o'r Dwyrain Canol? (3)
16. Meddai (3)
17. Aderyn (5,3)
20. Pigyn yn ochr Den a Ner (7)
22. Fel arfer, mae'n cuddio i ben yn
y tywod (6)
23. Heb ei glwyfo, yn iach (6)
24. Disg neu gofnod (6)
25. Dilledyn nos (5)
27. Ar ei ben ei hun (4)
Cyfrifir y llythrennau ch, dd, ff,
ng, ll, ph, rh, th fel un llythyren.
Gwobr o £2 i'r ateb cywir cyntaf
i'w dynnu.
Anfonwch y cynigion i Twrog
Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug.

TOCYNNAU STEDDFOD BRO MADOG, 1987

Mae prisiau tocynnau Eisteddfod Bro Madog 1987 wedi cael eu pennu.
I'r rhai sy'n bwriadu bod yn yr Eisteddfod trwy gydol yr Ŵyl mae'r tocyn arbennig ar gyfer yr Eisteddfod a'r holl gyngherddau a gynhelir yn y Pafiliwn yn costio £52.50, arbediad o dros £16.
Mae tocyn arbennig hefyd ar gyfer yr Eisteddfod a'r dramâu am £45, arbediad o dros £11.
Pris tocynnau unigol dosbarth cyntaf yr Eisteddfod yw; £6 (dydd Mawrth, Iau a'r Sadwrn olaf); £4.30 (dydd Llun, Mercher a Gwener) a £3.25 y Sadwrn cyntaf. Bydd prisiau ail-ddosbarth ar gael ddydd Mawrth, Iau a'r Sadwrn olaf yn unig am £5.
Mae tocynnau dosbarth cyntaf cyngherddau yn £4.30, a'r ail ddosbarth yn £3.25 ac ar gyfer y dramâu y prisiau yw £3.75 (dosbarth cyntaf) a £2.75 (ail ddosbarth).
Bydd tocynnau ar werth am y tro cyntaf yn y Swyddfa ym Mhorthmadog am 9.00 o'r gloch fore Sadwrn y Cyhoeddi, sef Mehefin 28, 1986.
Gellir eu harchebu drwy'r post o'r Mehefin 30 ymlaen drwy anfon yr arian ynghyd ag amlen â stamp i Swyddfa'r Eisteddfod, 7 Bank Place, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9AA (Ffôn: 0766 2245).

SIMNEIAU GWael? CRACIAU? MWG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFLUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau
FRON HEULOG, DINORWIG
Ffôn: Llanberis 871376

Dyddiadur y Mis

DYDDIADUR MEHEFIN

2, Llun, LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
DEINIOLLEN: Sefydliad y Merched - Arddangosfa 'Pethau Da'. Clwb Elidir.
3, Mawrth, BETHEL: Taith Ddirgel Clwb Bro Bethel.
LLANRUG: Arwerthiant Cist Car. Ysgol Gynradd Llanrug - elw tuag at y Seindorf.
LLANRUG: Helfa Drysor dan nawdd Cangen Plaid Cymru.
LLANBERIS: Cymdeithas Undebol y Chwirydd am 2.00
BETHEL: Clwb y Mamau - noson nodedig tuag at Gronfa Sganiwr Corff Ysbyty Gwynedd.
5, Iau, WAUNFAWR: Gwibdaith Clwb Gwyrfa'i'r Rhyll.
6, Gwener, PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.
WAUNFAWR: Noson Goffi er budd MENCAP yn y Ganolfan am 6.30
7, Sadwrn, BETHEL: Taith Gerdded Nodedig i Gopa'r Wyddfa. Yr elw er budd yr Ysgol Feithrin.
9, Llun, LLANRUG: Cymdeithas Hanes Bro 'Eco'r Wyddfa' Aelodau Llanrug. Ymweld â Charreg Arthur. Cychwyn - Capel Tan-y-coed, 6.30.
11, Mercher, BETHEL: Taith Ddirgel Merched y Wawr.
12, Iau, LLANRUG: Gwibdaith Clwb Blodau'r Grug
13, Gwener, LLANBERIS: Te yr Henoed
DEINIOLLEN: Ffair Haf yn y Ganolfan am 7.00
WAUNFAWR: Noson Goffi yn y Ganolfan am 7.30
PENISARWAUN: Eisteddfod yng Nghapel Glasgoed am 5.30
14, Sadwrn, YR ARDAL: Gwibdaith

CROESAIR EBRILL

Atebion. Ar draws: 1. Saim; 7 Diadell; 8 Eros; 10. Tôn; 11. Bradychu; 12. Dar; 13 Malmo; 17. Echdoe; 19. Nudd; 21. Iachusol; 22. Cyw; 23. Udwn; 25. Edafedd; 26. Iddew.

I Lawr: 1. Sgets; 2 Iro; 3. Didaro; 4. Edrychwch; 5. Alltudio; 6. Mentro; 9. Sbel; 14 a 24. Ar ddiwedd dydd; 15. Meichiad; 16. Snwcer; 17 Eisoos; 18. Dylu; 20. Manaw.

Yn anffodus nid oedd yr un o'r cynigion a gafwyd yn hollol gywir; felly, am y tro cyntaf ers tro byd rhaid atal y wobr.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

OSMOND SHAW DEINIOLLEN

Gwerthu a thrwsio
Teledu Lliw
Newydd ac Fel
Newydd
GWASANAETH
ATEB
FFÔN 24 AWR
LLANBERIS 870545

Flynnyddol Clwb Eryri i Fannau Hanesyddol ar Ynys Môn.

BRYNREFAIL: Helfa Drysor
16, Llun: DEINIOLLEN: Merched y Wawr

LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30

17, Mawrth, LLANRUG: Gwibdaith Merched y Wawr i Blas Glyn y Weddw, Llanbedrog

DEINIOLLEN: Clwb Elidir

LLANRUG: Cyfarfod Blynnyddol y Clwb Pêl-droed - Sefydliad Coffa, 7.00

18, Mercher, LLANRUG: Disgo'r Carnifal i Blant Ysgol Cynradd yn yr Ysgol Gynradd o 6.15 tan 9.30

YR ARDAL: Cymdeithas Hanes Bro 'Eco'r Wyddfa', Cyfarfod yn Ninorwig.

19, Iau, PENISARWAUN: Clwb yr Heulwen

20, Gwener, PENISARWAUN: Helfa Drysor.

Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30

WAUNFAWR: Noson Gymdeithasol yn y Ganolfan am 7.30

21, Sadwrn: DEINIOLLEN: Taith Ddirgel Cangen Plaid Cymru

LLANRUG: Taith Hanesyddol y Gymdeithas Undebol i Lanuwchlllyn a'r Cylch yng nghwmni Mr Ifor Owen WAUNFAWR a

BRYNREFAIL: Gwibdaith Sefydliad y Merched i Lerpwl

Mehefin 22-28: Wythnos Garnifal Llanrug

22, Sul, LLANRUG: Cymanfa Ganu yn Eglwys Sant Mihangel am 7.30

PENISARWAUN: Eglwys y Santes Helen. 10.30, Cymun Bendigaidd Dwyieithog. 4.30, Gosber a Phregeth.

23, Llun, LLANRUG: Tombola'r Carnifal yn yr Ysgol Gynradd am 7.00

24, Mawrth: LLANRUG: Helfa Drysor y Carnifal

25, Mercher, LLANRUG: Pêl-droed 7-bob-ochr y Carnifal am 6.30

26, Iau, LLANRUG: Noson Goffi y Carnifal yn yr Ysgol Gynradd am 7.00 a Ras Hwyl

WAUNFAWR: Gwibdaith Merched y Wawr i Nant Gwrtheyrn

LLANBERIS: Sefydliad y Merched

27, Gwener, LLANBERIS: Te yr henoed

LLANRUG: Mabolgampau'r Carnifal am 6.00

28, Sadwrn, LLANRUG: Carnifal

DYDDIADAU I'W COFIO

Gorffennaf 3 - Taith Ddirgel Undeb y Mamau Cwm-y-glo

Gorffennaf 5 - Triplau yr Ysgolion Sul

Gorffennaf 6-12 - Wythnos Garnifal Penisarwaun

Gorffennaf 12 - Carnifal Deiniolen

Gorffennaf 13-19 - Wythnos Garnifal Llanberis

Gorffennaf 15 - Yr ysgolion yn cau dros wyliau'r haf.

Awst 15 a 16 - Ymryson Cŵn Defaid Betws Garmon

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd

DEINIOLLEN

Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

CHWARAEON

RÂS MOEL EILIO



AM DDAU o'r gloch ar bnawn Sadwrn stormus, gaeafol, a mileinwynt yn hyrddio glaw a chenllysg rhewllyd ar draws dyffryn Peris, mentrodd 138 o ddynion a merched ar un o'r rasmus mynydd caletaf a brofodd y mwyafrif ohonynt erioed. Roedd pob un yn wlyb socian cyn cychwyn y ras, a hynny dim ond oherwydd iddynt gerdded o Lwyn Celyn, Llanberis i faes parcio Bron Eryri, y man cychwyn. Oddi yno doedd dim ond gwynt a glaw yn eu hwynebu yr holl ffordd i fyny'r gelltydd serth i gopa niwlog Moel Eilio.

O'r copa, draw ar hyd y genfen tua'r Foel Gron a'r Foel Goch, hyrddia'r gwynt genllysg iniog i wynebu'r rhedwyr, ac yr oedd ambell un ysgafnach na'i gilydd yn ofni cael ei sgubo dros y clogwyni i ddyfnderoedd Cwm Daethwch! Ond roedd y tywydd gwaethaf i'w hwynebu o ben Bwlch Maesgwm i gopa Moel Cyngorion. Yno, roedd hi'n ddigon anodd cadw i sefyll, heb son am geisio rhedeg. Mor braf oedd cael gollwng y cyrff blinedig i lawr y llethrau olaf yng nghysgod y gwynt.

Y syndod mawr dan y fath amgylchiadau echrydus oedd fod cymaint o redwyr wedi darford y ras - tri yn unig yn penderfynu fod y tywydd yn drech na hwy. A'r syndod mwyaf, wrth gwrs, oedd i'r record gael ei thorri! Daeth Jack Maitland o'r Alban yn gyntaf mewn 61 munud a 45 eiliad. Byddai'n sicr o fod wedi torri'r awr onibai am y tywydd. Colin Donnolly o Eryri

ddaeth yn ail mewn 62m. 05 eiliad, a D. Cartridge o Bolton yn drydydd.

A beth am y rhedwyr lleol? Cafwyd cynrychiolaeth dda, gyda'r brodyr Hefin a Glyn Griffith o Feddgelert yn bumed ac wythfed.

Dyma amseroedd rhedwyr bro'r Eco:

Alan Hughes, Llanberis	70m.19e.
Gareth Davies, Llanberis	76m.20e.
Dennis Carr, Llanberis	83m.02e.
Dafydd Thomas, Llanrug	84m.49e.
Guto Parry, Llanberis	89m.20e.
Maldwyn Peris	89m.40e.
G. Sutherland, Deiniolen	95m.54e.
B. McCann, Nant Peris	118m.46e.

Daeth Joan Glass o Lanberis yn drydedd yn yr adran i ferched hyn, mewn amser o 93m.43e.

Diolch i'r holl stiwardiaid am fentro allan yn y fath dywydd, a hynny am rai oriau ar y copaon. Fel y dywedodd rhwyun ar ddiwedd y ras - "Diolch mai diwrnod o haf ydoedd, 'faswn i ddim yn hoffi rhedeg y ras yna mewn tywydd drwg!"

HANNER MARATHON CAERNARFON

Ddydd Sul, llai na phedair awr ar hugain ar ôl rhedeg Ras Moel Eilio roedd aelodau a swyddogion Clwb Rhedwyr Eryri wrthi'n brysur unwaith eto'n stiwardio, cofnodi a rhedeg yn Ras Hanner Marathon Caernarfon, sy'n cynnwys Pencampwriaethau Rhedeg Ffordd Gwynedd i Oedolion ac Ieuenctid. Alan Blinston, cyn-redwr Olympaidd oedd enillydd y brif ras, yn cael ei ddilyn gan D. Davies o'r Drenwydd, a Tegid Roberts (Eryri) yn drydydd - ac fell'yn ennill pencampwriaeth Gwynedd.

Yn y rasmus i ieuenctid, Bedwyr Huws o Drawsfynydd gipiodd y brif wobr i fechgyn dan 17 oed, ond yn cael ei ddilyn yn agos iawn gan ddau redwr ifanc profiadol o Lanrug - Paul Grant yn ail a Mathew Ward yn drydydd. Yn y ras i enethod dan 14 oed, daeth Linda Prydderch o Lanberis yn gyntaf, ac Eirian Roberts, eto o Lanberis yn drydedd. Roedd nifer dda o redwyr ieuainc eraill o'r fro yn rhedeg hefyd, a rhaid eu canmol am eu hymdrech mewn amgylchiadau anodd, gan fod gwynt cryf yn eu hwynebu ar hyd ffordd y Foryd.

RASUS MIS MEHEFIN

Sadwrn, 7ed - Copaon 1,000

metrau. O Aber i gopa'r Wyddfa - 20 milltir a 9,000 o droedfeddi. 10.00am

Mini Marathon Conwy - 15 milltir Sadwrn 28ain - Y Garn, Rhyd-ddu, 2½ milltir a 1,500 troedfeddi 12.00am.

COFIWCH - Pawb sy'n bwriadu cystadlu ar Ras yr Wyddfa eleni i anfon eu henwau a'u tâl cofrestru i Ken Jones, 6 Blaen Ddôl, Llanberis erbyn Mehefin 14eg.

Bydd amryw o Rasmus Hwyl yn cael eu cynnal fel rhan o weithgareddau gwahanol garnifalau'r fro yn ystod y ddeufis nesaf. Gwylwch newyddion y pentrefi am fwy o fanylion.

CHWIPIO'R AFONYDD

Mae'r tymor yn mynd heibio ac oherwydd tywydd oer hyd ganol Mai, tawel iawn yw pethau ar yr afonydd, ond mae peth prysurdeb wedi bod ar y llynnoedd.

Rhoddwyd rhai cannoedd o frithyll yr enfys yn Llyn y Dywarchen, a chafodd llawer un helpa dda. Cyfartaledd y rhai a ddaliwyd mewn diwrnod oedd 4 'sgodyn. Mae rhai i fyny at 2 bwys wedi eu dal. Mae pawb yn gwybod mai pysgota plu yn unig sydd ar y llyn yma; piti mawr fod rhai'n anwybyddu'r rheolau, ac mae dau berson wedi cael eu gwahardd rhag bod yn aelodau o'r Gymdeithas am bysgota mewn dull na chaniateir.

Mae nifer fawr o bysgotwyr wedi galw, a rhai wedi cael hwyl dda ar Padarn. Cafwyd dwy gystadleuaeth arno yn ddiweddar, un oddi ar gychod, y gyntaf ers llawer dydd, ac er ei bod yn oer, daliwyd nifer go dda; ond gwael iawn oedd y gefnogaeth a gafwyd yn lleol o gofio fod aelodau o cyn belled â Phenarlâg wedi troi i fyny.

Cafwyd diwrnod difyr iawn i'r

aelodau ifanc ar Lyn Cwellyn, o dan ofal Adrian Roberts, Cled Jones ac Edwin Lewis. Gobeithio eu bod wedi dysgu rhywbeth am grefft pysgota.

Mae'n siŵr fod nifer wedi sylwi ar y gwaith a gafodd ei wneud yn y Crawia. Mae'r glannau wedi eu hatgyweirio, a giat wedi'i gosod i wneud mynedfa i'r afon yn hwylusach. Mae'r Gymdeithas yn awr wedi cwblhau prynu'r darn yma o'r afon, a rhannau helaeth o Lyn Padarn.

Erbyn hyn, mae gwaith ar dro i atgyweirio dau bwl isaf ar y Llyfni ar ôl difrod llifogydd mawr y gaeaf.

Fel y gwelir, mae peth prysurdeb wedi bod a gobeithio 'nawr y bydd yr eog a'r sewin yn rhedeg yr afonydd ymhén ychydig. Amser a ddengys.

H.P. Hughes

PENCAMPWYR GWYRFAI



Tîm a chefnogwyr brwdfrydig Llanrug

Daeth diwedd ar dymor pêl-droed bechgyn dan 12 oed Cynghrair Gwryfai gyda gêm bwysig iawn yn 'stadiwm' Cae Top, Caernarfon. Yn nhymor cyntaf y Gynghrair, bu'n rhaid rhannu'r timau i ddwy adran. Bontnewydd oedd enillwyr un o'r adrannau, a Llanrug ddaeth i'r brig yn y llall. Doedd yr un o'r ddau dîm wedi colli gêm yn eu hadrannau, felly roedd y ffeinal yn argoeli'n dda. Wedi gêm gyffrous, Llanrug oedd yn fuddugol o 3 gôl i ddim. Cyflwynwyd y darian a'r tlysau i'r tîm buddugol gan Dafydd Wigley, A.S.



Dafydd Wigley braidd yn anfodlon rhoi'r darian i Alan Jordan ar ôl i dîm Llanrug drechu Bontnewydd

TIM DARTIAU MERCHED PENBONT



Aelodau tîm merched Penbont wedi tymor dartiau llwyddiannus yn arddangos y gwahanol dlysau a enillwyd ganddynt.

**CLWB PÊL-DROED LLANRUG
CYFARFOD BLYNYDDOL
SEFYDLIAD COFFA - MEHEFIN 17**